CRYNODEB
Y
SALMAU CANU:
SEF,

Rhai SALMAU Detholedig yn gyfan; a'r Rhannau mwyaf buddjol, ac eglur eu Hyſtyriaeth, o SALMAU eraill; a Chynhulliad o ADNODAU perthynol i'w gilydd ar amryw Deſtunau; gyd â'r Yſtyr o honynt, yn fyr, o flaen pob SALM.

Wedi eu cymhwyſo i gymmorth a chyfarwyddo'r *CYMRY* i ganu Mawl i DDUW yn ddyallus; er mwy o Barch i'w ENW Gogoneddus Ef, ac ychwaneg o Feluſder ac Adeiladaeth i'w Heneidjau eu hunain.

Gan y Parchedig Mr GRIFFITH JONES, gynt Perſon Llandowror yn Sir Gaerfyrddin.

YR AIL ARGRAPHIAD.

SAL. XLVII. 6, 7. Cenwch fawl i DDUW, cenwch: cenwch fawl i'n Brenin, cenwch. Canys Brenin yr holl ddaear yw Duw: cenwch fawl yn ddyallus.

LLUNDAIN,
Argraphwyd gan J. a W. OLFIR, ym *Martholomew-Clôs*, yn agos i *Weſt-Smithfield*.
MDCCLXXIV.

Egwyddor i'r Anllythyrennog i ddyſgu darllain.

A B C Ch D Dd E F Ff G Ng H I L Ll
M N O P Ph R Rh S T Th U W Y

A a b c ch d dd e f ff g ng h i l ll m n o p ph
r rh ſ s t th u w y.

A B C Ch D Dd E F Ff G Ng H I L Ll M
N O P Ph R Rh S T Th U W Y.

A a b c ch d dd e f ff g ng h i l ll m n o p ph
r rh ſ st th u w y.

Y Llafariaid, neu'r Bogeiliaid.

a e i o u w y.

Yr holl Lythyrennau eraill a elwir Cydſeiniaid.

ab eb ib ob ub wb yb	ba be bi bo bu bw by
ac ec ic oc uc wc yc	ca ce ci co cu cw cy
ach ech ich och uch wch ych	cha che chi cho chu chw chy
ad ed id od ud wd yd	da de di do du dw dy
add edd idd odd udd wdd ydd	dda dde ddi ddo ddu ddw ddy
af ef if of uf wf yf	ſa ſe ſi ſo ſu ſw ſy
aff eff iff off uff wff yff	ffa ffe ffi ffo ffu ffw ffy
ag eg ig og ug wg yg	ga ge gi go gu gw gy
ang eng ing ong ung wng yng	ha he hi ho hu hw hy
al el il ol ul wl yl	la le li lo lu lw ly
all ell ill oll ull wll yll	lla lle lli llo llu llw lly
am em im om um wm ym	ma me mi mo mu mw my
an en in on un wn yn	na ne ni no nu nw ny
ap ep ip op up wp yp	pa pe pi po pu pw py
aph eph iph oph uph wph yph	pha phe phi pho phu phw phy
ar er ir or ur wr yr	ra re ri ro ru rw ry
as es is os us ws ys	ſa ſe ſi ſo ſu ſw ſy
at et it ot ut wt yt	ta te ti to tu tw ty
ath eth ith oth uth wth yth	tha the thi tho thu thw thy

HYSBYSIAD.

MEGIS y mae mawr Ddiolch yn ddyledus i Dduw tros fyth, am ei annhraethol Ddajoni, ac anchwiliadwy Olud ei Râs ef tu ag attom yng Nghrist Jesu; ni ddichon y rhai a brofafant rinwedd a meluſder y Ddawn nefol o Râs a Chariad Duw, lai nâ bod yn awyddus a helaeth yn eu Mawl Iddo: Ac nid yw yn anhyſbus i'r cyfryw a ewyllyſiant foli Duw yn ddyallus mewn Salmau, a Hymnau, ac Odlau yſbrydol, mor ddymunol yw Cyfanſoddiad mwy Efangylaidd, a rhwyddach i bawb ddyall, o'r Salmau Canu; fel megis ag y mae'r Athrawiaeth, a'r Gwaſanaeth, a'r Addoliad a ordeiniodd Duw dan yr Efengyl, yn fwy eglur ac yſbrydol nag yr oedd yn y cyſgodau cyffelybiaethol a defodau'r Eglwys Juddewig dan yr Hên Deſtament, y gallai ein Mawl ni i Dduw, ar feſur Cân a Chynghanedd y Salmau, i fod felly hefyd. *Ond pwy ſydd gyfaddas a digonol i'r Gorchwyl mawr hwn?* Hyd ni ryngo fodd i Dduw (Awdwr pob Dawn a Bendith) godi i fynu a chymhwyſo rhyw un, neu'n

hytrach rhyw niſer o rai duwjol-ddonjol, medrus mewn Barddoniaeth ddwyfol, hyddyſg yng ngwîr yſtyr yr Yſgrythur Lân, a phrofiadol yn ffyrdd a chyfeillach Yſbryd Duw a'i Râs, trwy gydymgynghoriad, i gyfanſoddi'r Salmau Canu o'r newydd yn fwy cyſſonol â Chyfryngau Grâs, ac â 'Stâd Eglwys Duw a'i Bobl yn nyddjau'r Efengyl; ni a ddylem, yn ddiolchgar ac yn ddieſgeulus, arſeryd y Salmau Canu ſydd genym, gan ddewis yn bwyllog y cyfryw rannau o honynt a fo'n fwyaf perthynaſol, a rhwyddaf i bawb ganu 'n ddyallus. Canys annuwjoldeb amlwg, diras, a dieſgus, yw, fod cymmaint o eſgeuluſiad mewn Cynnulleidfaoedd cyhoeddus, a Theuluoedd gartref, am ganu Mawl; fel pe bai'r bobl yn fud neu 'n farw, heb enaid, na genau, na thafod-leferydd ganthynt i foli Duw; neu 'n gwadu 'n haerllug, nad oes arnynt un gronyn oll o ddyled na rhwymedigaeth i ganu Mawl Iddo am y Trugareddau a fwynhâant. Arfer chwithig jawn hefyd ac ammharchus, rhy aml ym mhlith llawer eraill, ag ſy'n dwyn dirmyg lawer ar Addoliad Duw, ac yn ei wneuthur yn anfuddjol ac yn ddiflas, yw, rhoddi allan yn anfedrus Salmau Canu, ammherthynol, ac anhawdd i'r gwerinos ddyall eu hyſtyriaeth; y rhai gan hynny ni 's gallant eu canu er Mawl i Dduw, a'u Hadeiladaeth eu hunain, gyd â Dwyfoldeb gwreſog, melus, a buddjol, megis y dylai ac y dymunai pawb wneuthur, a ewyllyſio ganu Mawl Duw, a'i addoli mewn

yſbryd a gwirjonedd: ac, *heb ganu â'r ysbryd ac â'r dyall, nid yw'r gân ond araith yr ynfyd, neu ſwn aflafar a diſynwyr.* O herwydd pa ham, amryw Weinidogjon ym mhlith y *Saeſon* a welſant yn angenrheidjol i gyfarwyddo'r bobl dan eu gofal ynghylch hyn; a rhai Eſgobjon yn ddiweddar a roddaſant orchymyn i'r Eglwyſwyr, i bennodi'r cyfryw Salmau, ac Adnodau detholedig o honynt, a fai'n fwyaf cymmwys i'w canu ar amryw brydjau ac achoſion. I'r diben hyn, yn yr un ffunud, ſef, er mwyn cyfarwyddo'r ſawl ſy ewyllyſwyr da i Fawl ac Addoliad Duw, o'r *Cymry*, y goſodir allan y Doſbarthiadau canlynol o'r Salmau Canu, ynghŷd â'r Swm neu'r Yſtyr, yn fyr, o bob un o'u blaen, a Thabl o'u Hyſtyr yn nechrau'r Llyfr; fel y bo hawdd i bawb wybod pa Salm ſy berthynol i'w hachos a'u dymuniad. Ac yn ſicr ni all na fydd yn llawer mwy buddjol i bawb wrth ganu, i'r ſawl ſo'n rhoddi'r Salmau allan, i ddywedyd neu ddarllain yn bwyllog y Swm neu'r Yſtyr o honi yn gyntaf; fel y gwypont amcan ynghylch pa beth y maent yn ymoſod i glodfori Duw; ac y gallont ddeffrôi eu hyſbrydoedd a'u myfyrdod, a phwyſo eu meddyliau i ymaflyd yn y Teſtun-fatter a ragfynegir, i addoli Duw yn fwy yſtyriol-ddyallus a chyfaddas Iddo. Ac o herwydd hyn hefyd y mae, mewn amryw fannau, rai geirjau, lliniau, ac adnodau, wedi eu cyfnewid ychydig, fel y byddai eu hyſtyriaeth yn fwy eglur i'r

gwan eu dyall. Ni ddylid diyſtyru cynhygiad caredig o gynhorthwyon angenrheidjol, na bychanu un cymmorth a fo mewn rhyw feſur er lles a llwyddiant i'r Gwaith mawr rhwng Dynjon a'u Duw, ac a berthyn yn agos i'w 'Stâd dragywyddol: Er hynny, odid y diangc dim rhag barn a gwrthgri 'r gwrthwynebus; eithr *pob hyfforddiadau buddjol tu ag at jawn addoli DUW, a fyddant yn ddiammau 'n gymmeradwy yngolwg y rhai a'i carant ef.*

TABL

TABL

Y

SALMAU DETHOLEDIG.

SALM I. Y Rhagoriaeth ſydd rhwng y Duwjol a'r Annuwjol. Tu dal. 1

ADNODAU o SAL. II. Am Berygl Gwrthwynebwyr CRIST; a Chyngor i ymoſtwng iddo ef 2

ADN. o SAL. III. Achwyniad y Duwjoljon o blegid eu Trallodwyr; a'u Hyder yn Nuw 3

ADN. am Orfoledd a Digriſwch y Duwjol yn Nuw 4

ADN o SAL. VI. Yn cynnwys Gweddi'r Edifeiriol dan Gyſtudd mawr a Phrudd-der o blegid Pechod 5

ADN. o SAL. VII. Gweddi 'r Gorthrymmedig am Amddiffyniad rhag ei Erlidwyr 6

SAL. VIII. Mawl i DDUW, am fawrhâu a dyrchafu Dŷn goruwch holl greadurjaid y ddaear 8

ADN. o SAL. IX. Mawl a Gorfoledd y Saint am Ffyddlondeb Duw, yn barnu 'n gyfiawn dros y Gorthrymmedig a'r Truan 9

ADN. o SAL. IX. Am Ymgeledd Duw i'r Truan a'r Gorthrymmedig rhag eu Gelynjon tu dal. 10
ADN. o SAL. X. Ymbiliau'r Gweiniaid am Ymgeledd Duw rhag eu Gorthrymwyr 11
ADN. am Diriondeb a Chariad Duw i'r Duwjol, a'i Ddigllonedd dychrynllyd i'r Annuwjol 12
ADN. yn cynnwys Cwynfan galarus y Duwjol dan Drallod, ac Abſennoldeb Cyſſuron Duw 14
SAL. XV. Nodau Dinaſwyr Sïon, a Chynheddfau'r rhai cymmeradwy yngolwg Duw 15
ADN. o SAL. XVI. Yn cynnwys Gweddi'r Duwjol, a'u Hyfrydwch yn Najoni Duw 16
ADN. o SAL. XVII. Erfyniau'r Duwjol, ar i DDUW eu cynnal yn ei Ffyrdd ef, a'u cadw rhag eu Gelynjon 17
ADN. o SAL. XVIII. Clôd y Duwjol i DDUW, am Ymwared oddi wrth Ddrygau eu Caſeion, a Gofidiau blin 18
ADN. o SAL. XVIII. Yn deſgrifio Mawredd Duw, yn Naeargrynfaoedd a Thymheſtloedd ofnadwy, o blaid i'w Bobl, ac er dychryn i'w holl Elynjon 19
ADN. am Fawredd a Dajoni Duw, yng Ngwaith y Creadigaeth a Rhagluniaeth 20
ADN. o SAL. XIX. Am Odidowgrwydd a Rhinwedd Gair Duw; i'n hannog i ymddigrifo ynddo, ac i geiſio Cymmorth Duw yn erbyn Pechod 22
ADN. o SAL. XX. Yn cynnwys Erfyniad y Duwjol dros Gyfaill anwyl; a ddichon pob dŷn ei gymhwyſo hefyd at ei Enaid ei hun 23
ADN. o SAL. XXII. Yn cynnwys Cwynfan ymbilgar y Duwjol dan Anghyſſur, ac Abſennoldeb Diddanwch Duw 24
SAL. XXIII. Am Hyder a Chyſſur y Duwjol ym Mugeiliaeth a Dajoni Duw 25

Adn. o SAL. XXIV. Yn dangos Nodau 'r rhai a ânt i'r Neſoedd, a'r Breintjau a berthyn iddynt tu dal. 26
Adn. o SAL. XXV. Ymbiliau taer am Faddeuant Pechod, ac Ymwared oddi wrth Ofidiau blin 26
Adn. o SAL. XXV. Yn cynnwys Dymuniad y Duwjol am gael eu harwain yn Ffordd Duw 27
Adn. o SAL. XXVII. Am Wroldeb hyderus y Duwjol yn Nuw, a'u mawr Serch i'w Addoliad ef 28
Adn. o SAL. XXVIII. Taer Ddymuniad y Duwjol ar Dduw, i'w gwaredu rhag eu Gelynjon; a Diolch iddo am eu gwrando 30
Rhan o SAL. XXX. Yn cynnwys Mawl i Dduw, am Ymwared oddi wrth Gyſtudd ac Angau 31
Adn. o SAL. XXXI. Yn goſod allan Ymddiried ac Erfyniau 'r Saint am Ddiogelwch yn Nuw 32
Adn. o SAL. XXXII. Am y Maddeuant gwynfydedig a'r Eſmwythâad ſy'n dyfod ar Gyfaddefiad o Bechod; ac a ddylai annog pawb i weddio Duw, a llawenychu ynddo 33
Adn. o SAL. XXXIII. Annogaeth i lawenychu yn Nuw, o herwydd ei Ffyddlondeb a'i Ddajoni i'w Bobl 34
Adn. o SAL. XXXIV. Yn annog i foli Duw, am ei Ddajoni i'w Bobl, a'i Barodrwydd i wrando eu Gweddiau 35
Adn. yn cynnwys Cynghorion duwjol i bawb a chwennycho fyw yn ddedwydd yn Ofn Duw 37
Adn. o SAL. XXXV. Erfyniau am Blaid Duw yn erbyn ein Gelynjon 38

RHAN o SAL. XXXVI. Am Drugaredd Duw, a Hyfrydwch ei Bobl, yn ei Dŷ a'i Addoliad ef tu dal. 39
ADN. o SAL. XXXVII. Yn dyſgu na chenſigenom wrth Hawddſyd yr Annuwjol ſy'n diſlannu, eithr ymddiried ac ymgyſſuro yn Nuw 40
ADN. o SAL. XXXVII. i'r un Yſtyr 41
ADN. o SAL. XXXVIII. Yn cynnwys Ymbiliau'r Edifeiriol mewn Cyflwr gofidus dan Bwys Pechod 43
ADN. o SAL. XXXIX. Gweddi a Myfyrdod ynghylch Gwagedd a Byrdra Bywyd Dŷn 44
ADN. o SAL. XL. Am Olud Grâs a Dajoni Duw; ac Ymbiliau prudd am ei Drugaredd ef 45
ADN. o SAL. XLI. Am Wynfyd y rhai trugarog 46
ADN. yn mynegi Hiraeth y Duwjol am Gymmundeb â Duw 47
ADN. o SAL. XLV. Am Odidowgrwydd CRIST; ac Annogaeth i'r Eglwys, fel Priodferch, i ymroddi iddo 48
ADN. yn mynegi Hyder gyſſurus a Diogelwch Eglwys Duw a'i Bobl, er gwaethaf pob Terfyſgoedd 49
ADN. yn dyſgu i ni glodfori Duw ein Brenin, am Lywodraeth ei Ragluniaeth ef dros bob peth 50
ADN. o SAL. XLVIII. Am Ogoniant Duw yn ei Eglwys, a'i Rhagoriaeth hi 52
ADN. o SAL. XLIX. Yn dyſgu nac ofnom Drallodau'r Byd hwn, o blegid fod i bawb farw; ond y bydd Adgyfodiad gorfoleddus i'r Cyfiawn 53
ADN. detholedig am Ddyfodiad Duw i'r Farn 54
ADN. yn dangos Cyflwr echrydus Rhagrithwyr a drwg Ddynjon; ond y bydd Gorfoledd i'r Duwjol 55

ADN.

ADN. o SAL. LI. Yn cynnwys Cyffes a Gweddi 'r Edifeiriol tu dal. 57
ADN. detholedig, yn cynnwys Ymbiliau am Gyſſur dan Ofidiau blin 58
ADN. yn cynnwys Ymbiliau 'r Duwjol, o blegid eu Trallod, a Malais eu Gelynjon 60
ADN. yn cynnwys Gweddi a Diolch y Duwjol, am Ymwared oddi wrth eu Gelynjon 61
ADN. o SAL. LXII. Am Hyder a Chyſſur yn Nuw dan Gyſtudd a Gorthrymder 62
RHAN o SAL. LXIII. Yn mynegi Hiraeth y Duwjol am DDUW mewn Cyflwr anghyſſurus, a'r Hyfrydwch ſydd yng Nghariad DUW 63
RHAN o SAL. LXV. Mawl i DDUW yn ei Eglwys, am ei fawr Ddajoni i 'w Bobl 64
RHAN o SAL. LXV. Yn cynnwys Diolchgarwch i DDUW, am wlawio ar y Ddaear i 'w dyfrhâu a'i ffrwythloni 64
RHAN o SAL. LXVI. Yn annog i lawenychu yn NUW, a'i foli, o herwydd ei Allu a'i Weithredoedd rhyfedd ar ran ei Bobl 66
SAL. LXVII. Yn cynnwys Gweddi am Fendith DUW, a Mawl am ei Lywodraeth ef 67
ADN. o SAL. LXVIII. Yn cynnwys Clôd am Ddajoni DUW, a Donjau 'r Prynedigaeth 67
ADN. o SAL. LXIX. Yn cynnwys taer Weddi 'r Duwjol o blegid eu Herlidwyr 68
ADN. o SAL. LXXI. Gweddi a Myfyrdod hên Ddiſgybl 70
ADN. yn cynnwys Ymbiliau 'r Duwjol, pan fo DUW megis ar gîl oddi wrthynt 71
ADN. o Fawl am GRIST, a Donjau 'r Prynedigaeth 72
RHAN o SAL. LXXVII. Yn cynnwys Atgofia diolchgar o Ddajoni DUW yn amſer Trallod 73
ADN. o SAL. LXXVIII. Am hyfforddi a chateceiſio Plant 74

ADN.

ADN. yn cynnwys Ymbiliau taer am Faddeuant a Chymmorth Duw tu dal. 75
ADN. o SAL. LXXXIV. Yn mynegi mor hyfryd yw Tŷ ac Addoliad Duw i'r Duwjol 76
ADN. o SAL. LXXXV. Mawl am Heddwch Duw, a Maddeuant Pechod 77
RHAN o SAL. LXXXVI. Yn cynnwys taer Ymbiliau 'r Duwjol, yn pleidio â Duw am Gymmorth o herwydd ei Ddajoni ef 78
ADN. am Odidowgrwydd Eglwys Duw, i'n cymmell i foli Duw am dani 79
ADN. yn cynnwys taer Lef y Duwjol yn ymbil am Help Duw mewn Cyflwr blin ymron marw 80
ADN. o SAL. LXXXIX. Mawl am Drugaredd a Ffyddlondeb Duw 81
ADN. o SAL. LXXXIX. Am Gymmorth dajonus Duw, a Ffyddlondeb ei Gyfammod â ni yng NGHRIST 83
ADN. o SAL. XC. Am Dragywyddoldeb Duw, a Byrdra Einioes Dŷn 84
ADN. o SAL. XCI. Am Ddiogelwch y Duwjol rhag pob Drwg, trwy Amddiffyniad Duw 85
ADN. o SAL. XCII. I foli Duw, yr hwn fy 'n diwreiddio'r anwir, ac yn gwneuthur y Cyfiawn yn ffrwythlon yn ei Dŷ 86
ADN. o SAL. XCIV. Cyfaddefiad diolchgar o Ddajoni Duw mewn Cyfyngder 87
ADN. o SAL. XCV. Yn cynnwys Cymhelliad i foli Duw, a llawenychu ynddo 88
ADN. o SAL. XCVI. Yn cynnwys Clôd i DDUW, am ei Jachawdwriaeth ef, a'i Oruchafiaeth dros bob peth 89
ADN. yn ſon am Lywodraeth Duw, a'i Ddyfodiad i'r Farn, er Cyſſur i'w Bobl 90
ADN. o Fawl i DDUW, am ddadguddio ei Jachawdwriaeth i'r Cenhedloedd 91

SAL.

SAL. C. Cymhelliad i foli Duw, o herwydd mai efe a'n gwnaeth ac a'n piau ni tu dal. 92
Adn. o SAL. CII. Ynghylch Byrdra Oes Dŷn, a Thragywyddoldeb Duw 93
Adn. o SAL. CII. Sef, Gweddi dros yr Eglwys, a Mawl am Ddajoni Duw iddi 94
Adn. o SAL. CIII. Yn cynnwys Mawl i Dduw, am ei ſawr Ddajoni yn maddau ein Pechodau, ac yn dïwallu ein holl Eiſiau 95
Rhan o SAL. CIII. Am Fyrdra Oes Dŷn, a mawr Drugaredd Duw 96
Adn. o SAL. CIV. I glodfori Mawredd Duw, o herwydd ei Drefn ddajonus a'i Ragluniaeth yng Ngwaith y Creadigaeth 97
Adn. o SAL. CIV. I glodfori Duw, am ei Ddajoni i'w Greadurjaid, a Mawredd ei Ogoniant 99
Adn. yn cynnwys Cymhelliad i glodfori Dajoni Duw, yn gwaredu ei Bobl oddi wrth eu Pechodau 100
Adn. o SAL. CVI. Mawl a Gweddi'r Cyſtuddiol 101
Adn. o SAL. CVII. Yn cynnwys Mawl i Dduw, am ein hachub oddi wrth ein Gelynjon a'n holl Drueni. 102
SAL. CXI. Clôd i Dduw, am Wyrthjau rhyfedd ei Ddajoni, a'i ffyddlon Gyfammod 103
Adn. o SAL. CXII. Am Ddedwyddwch gwynfydedig y Cyſiawn 104
SAL. CXIII. Mawl i Dduw, am ei Arddercholgrwydd goruwch pob peth, a'i Drugaredd i'r Tlawd a'r Gorthrymmedig 105
Adn. o SAL. CXV. Yn annog i roddi'n Bryd ar Dduw, a'i foli ef 106
Adn. o SAL. CXVI. Yn cynnwys Atgoffa diolchgar am Ymwared allan o Gyſyngder 107
SAL. CXVII. Mawl am Ddajoni Duw, a Gwirjonedd ei Air 108

Adn.

ADN. o SAL. CXVIII. Yn cynnwys Mawl am Drugaredd Duw, yn gwrando ac yn gwaredu ei Bobl tu dal. 108
ADN. o SAL. CXVIII. Mawl am Gariad Duw yng NGHRIST, Penconglfaen ein Jachawdwriaeth, a'r Oen a aberthwyd drosom 109
ADN. o SAL. CXIX. Yn sôn am Wynfyd y rhai a rodiant yng Nghyfreithjau Duw; a Dymuniad y Duwjol am gael eu dysgu ynthynt 110
ADN. o SAL. CXIX. Yn dangos Hoffder y Duwjoljon yng Nghyfreithjau Duw, a'u Dymuniad o gael eu dysgu ynthynt 111
ADN. ychwaneg o SAL. CXIX. i'r un Ystyr 113
ADN. ynghylch Hyder a Diogelwch y Duwjol yn Ymgeledd Duw 114
SAL. CXXII. Am Orfoledd y Duwjol yn Eglwys Duw, a'u Dymuniad o Heddwch ac Undeb ynthi 115
ADN. yn dangos mai ar Law Duw y mae holl Lwyddiant a Gwynfyd ei Bobl ef 116
SAL. CXXX. Gweddi am Drugaredd Duw, a Disgwyliad y Duwjol wrtho 117
ADN. o SAL. CXXXII. Yn cynnwys Erfyniau a Mawl am Ddajoni Duw i'w Eglwys 118
SAL. CXXXIII. Am Undeb heddychol a Chymmundeb y Seintjau 119
ADN. o SAL. CXXXV. Yn annog i glodfori Duw, am ei Fawredd, a Gweithredoedd ei Ragluniaeth 119
ADN. o SAL. CXXXVI. Mawl i DDUW, o herwydd Gweithredoedd ei Ragluniaeth, a'i Drugaredd i Blant Dynjon 120
RHAN o SAL. CXXXVII. Am Brudd-der Israël ym Mabilon, o Hiraeth am Eglwys Duw 121
SAL. CXXXVIII. Mawl i DDUW, am ei Dosturi i'r Truenus mewn cyfyngder 122

RHAN.

RHAN o SAL. CXXXIX. Am Hollbreſennoldeb Duw tu dal. 123
ADN. o Fawl i DDUW, am ein Cenhedliad, a'n Cynnydd, ac amrywiol Ddonjau Duw i ni 125
ADN. yn cynnwys Ymbiliau ar i DDUW gadw ein Genau a'n Càlon rhag Pechod, a rhag holl Ffyrdd twyllgar y rhai drygjonus 126
ADN. o SAL. CXLIII. Yn cynnwys taer Weddi'r Duwjol am Drugaredd Duw, ac Ymwared oddi wrth Orthrymder eu Caſeion 127
ADN. yn dyſgu i ni ryfeddu Dajoni Duw, yn mawrhâu Dŷn; ac Ymbiliau am Blaid Duw yn erbyn ein Gelynjon 129
RHAN o SAL. CXLV. Yn cynnwys Ymroad y Duwjol i foli Duw, o herwydd ei Fawredd, a'i raſlawn Ddajoni 130
RHAN o SAL. CXLV. Am Lywodraeth Duw, a'i Nodded i'w Bobl a'i holl Greadurjaid 131
SAL. CXLVI. Ymroad y Duwjol i foli Duw, ac i ymddiried ynddo; am mai eſe yw Creawdwr pob peth, a Chynhorthwywr y Trueinjaid 132
ADN. o SAL. CXLVII. Mawl am Diriondeb Dajoni Duw, a'i Fawredd 133
ADN. o SAL. CXLVII. Mawl i DDUW, am ei Ddajoni i'w Eglwys, a'i Ofal droſti 134
ADN. o SAL. CXLVII. Clôd am Raglunieth Duw, yn treſnu Lluniaeth i'r Creadurjaid, a phob Tywydd yn ôl ei Ewyllys 135
SAL. CXLVIII. Cymhelliad i'r holl Greadurjaid i foli Duw, am eu Creadigaeth, a Llywodraeth Duw droſtynt 136
ADN. yn cynnwys Gweddi a Mawl Boreuol 137
ADN o Fawl y Nôs 139

TABL

TABL o'r Hymnau.

CAN Sanct Ambros; ſef, Ti, Dduw, a folwn tu dal. 141
Llef y Sainct am Ysbryd Duw 142
Galarnad Pechadur 144
Hymn ar ôl y Cymmun 146
Hymn mewn Angladd 147
Y Gogoniant, &c. 148

CRYNODEB
Y
SALMAU CANU;
A'R
Ystyr o honynt, yn fyr, o flaen pob SALM.

SAL. I.

Y rhagoriaeth ſydd rhwng y Duwjol a 'r Annuwjol; ag y ddylai ddeffrôi pawb i yſtyried eu cyflwr, ac i hiraethu am wîr Dduwjoldeb.

1 YSawl ni rodia, dedwydd yw,
yn ôl drwg yſtryw gyngor;
Ni ſaif ar ffordd troſeddwyr ffôl,
nid eiſte 'n 'ſtôl y gwatwor.

2 Ond ei holl ſerch ef fydd yn rhwydd
ar ddeddf yr Arglwydd uchod:
Ac ar ei ddeddf rhydd, ddydd a nôs,
yn ddiddos, ei ſyfyrdod.

3 Ef fydd fel pren plan ar lan dôl,
dwg ffrwyth amſerol arno:
Ni chrina 'i ddalen, a'i holl waith
a lwydda'n berffaith iddo.

Nid felly bydd y drwg dirûs,
ond fel yr ûs ar gorwynt:
'r hwn o'r tîr a 'i chwyth a 'i chwâl,
anwadal fydd ei helynt.

5 Am hyn y drwg ni ſaif mewn barn
o flaen y cadarn unjawn:
Na'r pechadurjaid, mawr eu bâr,
yng nghynnulleidfa'r cyfiawn.

6 Canys yr Arglwydd Dduw, fel hyn,
a edwyn ffyrdd gwirjonjaid:
Ac ef ni âd byth i barhâu
mo lwybrau pechadurjaid.

Adnodau o SAL. II.

Am Berygl Gwrthwynebwyr Crist; a Chyngor i ymoſtwng iddo ef.

1 PA ham y terfyſg gwŷr y byd?
a pha 'm y cyfyd rhodres?
Pa 'm y mae 'r bobloedd yn cydwau
yn eu bwriadau diles?

2 Codi y mae brenhinoedd byd,
a 'u bryd yn gydgynghorol:
Yn erbyn Duw a 'i Griſt (ein plaid)
y mae pennaethjaid bydol.

4 Ond Duw, 'r hwn ſydd uwch wybrol len,
a chwardd am ben eu geirjau:
Yr Arglwydd nef a wêl eu bâr,
ac efe a 'u gwatwar hwythau.

5 Yntef a ddywaid yn ei lîd,
a hyn ſydd rhybrid iddyn:
O 'i eirjau ef y cyfyd braw,
a 'i ddîg a ddaw yn ddychryn.

6 Myfi oſodais (medd Duw nef)
â llaw gref yn dragywydd,

Fy

Fy mrenin i, yn llywydd llon,
ar ſanctaidd Sion fynydd.

7 Wrth Griſt ei Fâb y dywedodd Duw,
8 Holl ddynolryw 'tifeddu;
A chenhedlaethau yr holl fyd
a gai di 'gŷd feddiannu.

9 Ti a'u briwï hwynt yn dy farn
â gwialen haiarn haeach:
Ti a'u maluri, hwythau ân
mor ſân a lleſtri priddach.

10 Am hyn yn awr, frenhinoedd coeth,
O byddwch ddoeth-ſynhwyrol:
A chwithau, farnwyr, cym'rwch ddyſg,
i oſtwng terfyſg fydol.

11 Gwaſanaethwch chwi yr Arglwydd nef,
ac ofnwch ef trwy oglud:
A byddwch lawen yn Nuw cu,
etto trwy grynu hefyd.

12 Cuſenwch y Mâb, rhag ei ddîg,
a'ch bwrw yn ffyrnig heibio:
A gwyn ei fyd pob càlon lân
a ymddiriedan yntho.

Adnodau o SAL. III.

Achwyniad y Duwjoljon o blegid eu Trallodwyr; a'u Hyder yn Nuw.

1 O Arglwydd! amled ydyw'r gwŷr
y ſy drallodwyr i mi?
A llawer jawn i'm herbyn ſydd
o ddydd i ddydd yn codi.

3 Tithau, O Arglwydd! ym mhob man
ydwyd yn darian ymmy:
Fy hyder wyt, a thu a'r nen
y codi 'mhen i fynu.

4 Ar Dduw fy Arglwydd, â'm holl lais,
y gelwais yn doſturaidd:
Ac ef a'm clybu i ar frŷs
o'i uchel freinllys ſanctaidd.

6 Nid ofnaf fi, o'r achos hwn,
mo fyrddiwn ſydd yn barod,
O bobloedd, fai'n cylchynu'n dyn
i'm herbyn i yn dyfod.

7 Cyfod ti, Arglwydd, achub fi,
trwy oſtwng fy ngelynjon:
T'rewaiſt yr ên, torraiſt eu daint,
er maint yr annuwjoljon.

8 I'r Arglwydd byth (o achos hyn)
y perthyn jachawdwriaeth:
Ac ar ei blant y diſgyn gwlith
ei fendith yn dra helaeth,

ADNONAU o SAL. IV. ac eraill.
Am Orfoledd a Digrifwch y Duwjol yn Nuw.

6 PWY, medd llawer (trwy falchder tyn)
a ddengys yn' ddajoni?
Duw, dyrcha arnaf d' wyneb prŷd;
hyn, hyn fydd hyfryd imi.

7 Rhoiſt i'm càlon lawenydd mwy
(a hynny trwy dy fendith)
Nag a fyddai gan rai yn trîn
amlder o'u gwîn a'u gwenith.

SAL. XXXI.

8 Mi ymhyfrydaf ynot ti;
canfuoſt fi mewn amſer:
Ac adnabuoſt, wrth fy rhaid,
fy enaid mewn cyfyngder.

21 Mor fawr, O Dduw, yw'th râd didrai,
a roiſt i'r rhai a'th ofnant!

Cai

Cai o flaen meibjon dynjon glôd,
ac ynod ymddiriedant.

SAL. lxxiii.

25 Beth bellach a 'wyllyſiaf fi
ond tydi yn y nefoedd?
Dim ni ddymunaf gyd â thi
wrth weini daear leoedd.

26 Fy nghàlon i, a 'm nerth, a 'm cnawd,
y ſydd mewn palldawd beunydd;
Ond tydi, Dduw, ſydd ar fy rhan,
a 'm tarian yn dragywydd.

28 Myfi ddof neſnes at fy Nuw;
fy ngobaith yw i 'm càlon:
29 A thraethaf fi ei nerth, a 'i wyrth,
o fewn dy byrth, merch Sïon.

SAL. lxiv.

10 Yn yr Arglwydd y llawenhâ
ac y gobeithja 'r cyfion:
A gorfoledda ynddo 'n jawn
pob dŷn ag unjawn gàlon.

SAL. lxiii.

3 Can's dy drugaredd (O Dduw byw!)
llawer gwell yw nâ 'r bywyd:
A'm gwefuſau y rhof it' fawl,
a cherdd ogonawl hyfryd.

RHAN O SAL. VI.

Yn cynnwys Gweddi 'r Edifeiriol, dan Gyſtudd mawr a Phrudd-der o blegid Pechod.

1 O Arglwydd, na cherydda fi
ym mhoethni dy gynddaredd
Ac na chosba fi yn dy lîd,
o blegid fy anwiredd.

2 O Arglwydd, dy drugaredd dôd;
wyf leſg mewn nychdod rhybrudd:
Rho, Arglwydd, im' dy jechyd di,
mae f' eſgyrn i mewn cyſtudd.

3 Tyn f' enaid i o 'r lleſgedd hyn,
y ſydd mewn dychryn 'ſgeler:
Toſturia, Arglwydd; pa ryw hŷd
rhoi arnaf ddybryd brudd-der?

4 Duw, gwared f' enaid, dychwel di,
jachâ fi â 'th drugaredd:
5 Nid oes yn angau gôf na hawl;
a phwy a 'th fawl o 'r priddfedd?

6 Gan ochain trîſt wyf brudd bob nôs,
mewn gwael anniddos foddfa:
Rwy 'n gwlychu, drwy y cyſtudd mau,
â 'm dagrau, ſy ngorweddfa.

7 O waith ſy nghâs a 'm cyflwr drwg,
ſy ngolwg ſy 'n tywyllu:
A chan y dwfr a rêd yn rhaff,
ynt anghraff, ac yn pylu.

9 Fe wrendy 'r Arglwydd ar fy arch;
rhof finnau barch a moliant:
Fe dderbyn Duw fy llef a 'm gwaedd;
am hyn yr haedd ogoniant.

Rhan o SAL. VII.

Gweddi 'r Gorthrymmedig am Amddiffyniad rhag ei Erlidwyr.

1 O Achub fi, ſy Nuw, ſy Nêr!
can's mae fy hyder ynod:
Rhag fy erlidwyr gwared fi;
can's mae o 'r rheini ormod.

2 Rhag llarpio f' enaid fel y llew,
heb un dŷn glew a 'm gweryd:

A'm

A'm rhwygo i yn ddrylljau mân,
fel dyna amcan gwaedlyd.

6 Cyfod, O Dduw, cyfod i 'th ddîg,
a goſtwng bîg pob gelyn:
A deffro droſof yn y farn;
can's cadarn yw d' orchymmyn.

9 Derfid anwiredd y rhai drwg;
gwnâ 'n amlwg ffordd y cyfion:
Can's unjon wyd, a chraff, Duw cu,
yn chwilio deutu 'r gàlon.

10 Ac am fod Duw yn canfod hyn,
Duw yw f' amddiffyn innau:
Duw ſydd Jachawdwr i bob rhai
ſydd lân ddifai 'u calonnau.

11 Felly mae Duw byth ar yr jawn,
a Duw yw'r cyfiawn Farnydd:
Wrth yr annuwjol, ar bob tro,
mae Duw yn digjo beunydd.

12 Ac oni thry 'r annuwjol câs,
fe lifa 'i loywlas gleddau:
Ar annel y mae bwa 'r Jôn,
a 'i barod lymmion ſaethau.

16 Ei holl enwiredd ar ei ben,
o uchder nen, a ddiſgyn:
A Duw a ddymchwyl, yr un wedd,
ei gamwedd ar ei goryn.

17 I 'm Harglwydd Dduw rhof finnau glôd;
câf ganfod ei gyfiawnder:
A chanmolaf ei Enw 'n rhwydd,
yr Arglwydd o 'r uchelder.

SAL. VIII.

Mawl i Dduw, am fawrhâu a dyrchafu Dŷn goruwch holl greadurjaid y ddaear.

1 O Arglwydd, ein Jôr ni a 'n nerth,
mor brydferth wyd trwy 'r hollfyd!
Dy Enw, a 'th barch, a roiſt uwch ben
daear ac wybren heſyd.

2 Peraiſt it' nerth o enau plant,
a rhai a ſugnant beunydd:
I oſtwng brôch a balchder tyn
y gelyn a 'r dialydd.

3 Wrth edrych ar y nefoedd faith,
a gweled gwaith dy fyſedd:
Y lloer, y sêr, a threſn y rhôd,
a 'u goſod mor gyfannedd.

4 Pa beth yw dŷn, it' i 'w goffhâu,
o ddonjau ac anwylfraint?
A pheth yw mâb dŷn, yr un wêdd,
lle rhoi amgeledd cymmaint?

5 Ti wnaethoſt ddŷn o fraint a phrîs
ychydig îs angyljon:
Mewn mawr ogoniant, parch, a nerth,
rhoiſt arno brydferth goron.

6 Ar waith dy ddwylaw îs y nef
y gwnaethoſt ef yn bennaeth:
Gan oſod pob peth dan ei draed,
iddo y gwnaed llywodraeth.

7 Defaid, gwartheg, a holl ddâ maes,
a 'r adar llaes eu heſgyll:
Ehedjaid nef, a 'r pyſg o 'r don
ſy 'n tramwy 'r eigjon erchyll.

8 O Arglwydd, ein Jôr ni a 'n nerth,
mor brydferth wyd trwy 'r hollſyd!
Dy Enw, a 'th barch, a roiſt uwch ben
daear ac wybren hefyd.

Adnodau o SAL. IX.

Mawl a Gorfoledd y Saint am Ffyddlondeb Duw, yn barnu 'n gyfiawn dros y Gorthrymmedig a 'r Truain.

1 CLodforaf fi fy Arglwydd Jôn
o 'm càlon ac yn hollawl:
Ei ryfeddodau rhof ar lêd;
y mae 'n ddylêd eu canmawl.

2 Byddaf fi lawen yn dy glôd,
ac ynod gorfoleddaf:
I 'th Enw (O Dduw!) y canaf glôd;
wyd hynod, y Goruchaf.

3 Tra y dychwelir draw 'n eu hôl
yr holl elynol luoedd:
Llithrant o 'th flaen, difethir hwy,
ni ddôn hwy mwy i 'w lleoedd.

4 Can's rhoiſt fy marn yn fatter da;
gwnaethoſt eiſteddfa unjon:
Eiſteddaiſt ar y gwîr; yn ſiwr
tydi yw 'r Barnwr cyfion.

5 Ceryddi a diſtrywï di
y cenhedlaethi cyndyn:
Dïwreiddi ynfyd yn y bôn,
ni bydd byth sôn am danyn.

8 Can's ti, O Dduw, fy 'n barnu 'r byd,
y ddae'r i gŷd a 'i gwerin:
Trwy gyfiawnder, heb ofni neb,
a thrwy unjondeb dibrin.

9 Gwnâ'r Arglwydd hefyd hyn wrth raid,
trueinjaid fe 'u hamddiffyn :
Noddfa a fydd i 'r rhai 'n mewn pryd,
pan fo caledfyd arnyn.

10 A phawb a 'th edwyn, rhôn eu crêd,
a 'u holl ymddiried, arnad :
Can's ni adewaiſt, Arglwydd, neb
a geiſio 'i wyneb attad.

ADNODAU eraill o SAL. IX.

Am Amgeledd Duw i'r Truain a'r Gorthrymmedig rhag eu Gelynjon.

11 MOlwch chwi 'r Arglwydd, yr hwn ſydd
yn ſanctaidd fynydd Sïon :
A d'wedwch i bawb fel yr oedd
ei holl weithredoedd mawrjon.

12 Pan chwilio fe am waed neu drais,
fe gofia lais y truain :
Pan eiſteddo ar faingc y frawd,
fe glyw y tlawd yn ochain.

13 Dy nawdd, O Dduw ; tydi im' ſydd
ddyrchafydd o byrth angau :
O gwêl fy mlinder, gan fy nghâs
y ſydd o 'm cwmpas innau !

14 Fel y mynegwyf dy holl wyrth,
a hyn ym mhyrth merch Sïon :
Ac fel y bwyf lawen a ffraeth
i 'th jachawdwrjaeth dirion.

18 Y cyfiawn oll, a 'r rhai tylawd,
hyd ddydd brawd ni 's anghofir :
Y gweinjaid a 'r trueinjaid hwy
eu gobaith mwy ni chollir.

19 O cyfod, Arglwydd, yn dy wŷn ;
na âd i elyn orfod :

Barna 'r

Barna'r cenhedloedd ger dy fron ;
dy farn yn unjon goſod.

20 Gyr arnynt, Arglwydd, fraw dy rym,
yn awchlym i 'th elynjon :
Fel y gwybyddont, pe baent mwy,
nad ydynt hwy ond dynjon.

Adnodau o SAL. X.

Ymbiliau 'r Gweiniaid am Amgeledd Duw rhag eu Gorthrymwyr.

1 O Arglwydd, pa'm y ſefi di
odd' wrthym ni cyn belled ?
Pa'm yr ymguddi di a 'th rym,
pan ydym mewn caethiwed ?

2 Drwg ddynjon ſydd yn blino 'r tlawd,
gan drallawd, a chan falchder :
Yn y dichelljon a wnâ 'r rhain,
hwynthwy eu hunain daljer.

3 Hoff gan ddryg ddŷn ei chwant ei hun,
pawb yn gytun â 'i bechod :
Bendithjo 'r bydol yw ei ſwydd,
a 'r Arglwydd yn ei wrthod.

4 'Rannuwjol ddŷn ni chais Dduw Nêr,
(mae ffroen ei falchder cyfuwch :)
Ni wêl ef, ac ni feddwl fod
un fath awdurdod goruwch.

12 Cyfod Arglwydd, dyrcha dy law ;
dy fod yn cofiaw dangos :
Ac nac anghofia, pan fo rhaid,
dy weinjaid a 'th werinos.

13 Pa ham y diyſtyrant Dduw,
yr enwir annuw lledffrom ?
Pa'm y tybjant am danat ti,
nad ymoſyni 'm danom ?

14 Ti welaiſt hyn, canſyddi drais,
ti gosbi falais anfad:
Ti yw gobaith y tlawd, a'i borth,
a chymmorth yr amddifad.

15 Tòr ymaith yr annuwjol rym
yn gyflym, a'r maleiſus:
Cais allan eu hanwiredd hwy,
na fyddont mwy 'n ddrygjonus.

17 Duw, gweddi 'r gwan a glywï di,
ac a gyſſuri 'r gàlon:
Tro eilwaith attom y gluſt dau,
a chlyw weddiau ffyddlon.

18 Dros yr amddifaid y rhoi farn,
a'r gwan fydd cadarn bellach:
Megis na 's gall daearol ddŷn
ddrygu mo honyn mwyach.

ADNODAU O SAL. XI. ac eraill.

Am Diriondeb a Chariad Duw i 'r Duwjol, a'i Ddigllonedd dychrynllyd i 'r Annuwjol; ag y ddylai gyſſuro Pobl DDUW, a brawychu 'r Gwrthwynebwyr.

5 MAE 'r Arglwydd o'r naturjaeth hon,
prawf gyfion er amgeledd:
Ond câs yw gan ei enaid fo
ddŷn drwg a hoffo wagedd.

6 Ar bechadurjaid marwor tân
a brwmſtan a ddaw 'n gawod:
A gwynt tymheſtlog uchel jawn,
i roi tâl llawn am bechod.

7 Can's cyfiawn ydyw 'r Arglwydd Nêr,
cyfiawnder mae 'n ei garu:
A'i wyneb at yr unjawn try,
a hynny i'w amg'leddu.

SAL.

SAL xxi.

6 Ti roiſt fendithjon annhraethol
yn rhôdd drag'wyddol iddynt:
A llewyrch d'wyneb byth a fydd
yn fawr lawenydd arnynt.

SAL. xii.

7 Ti, Dduw, yn ôl dy wïr air di,
a'u cedwï mewn hyfrydwch:
Byth rhag y ddrwg genhedlaeth hon
dy weiſion i gael heddwch.

8 Pan ddyrchafer y trowſion blîn,
da ganthyn drîn anwiredd:
Daw annuwjoljon o bob parth
i fwyfwy warth o'r diwedd.

SAL. xxi.

9 Di a'u goſodi'n nydd dy ddîg
fel ffwrnais ffyrnig danllyd:
Yr Arglwydd i'w lîd a'u difa,
a'r tân a'u hyſa'n enbyd.

10 Dîwreiddi di eu ffrwyth o'r tîr,
a'u hâd yn wîr ni thyccian:
11 Am 'ynt fwriadu drwg ddilen,
heb ddwyn i ben mo'u hamcan.

12 Ti a'u goſodi hwy'r naill du,
a thi a'th lu i'w herbyn:
Ac a anneli dy fwau
at eu hwynebau cyndyn.

13 Ymddyrcha di, O f'Arglwydd gun,
i'th nerth dy hun a'th fawredd:
Ninnau fyfyriwn ytty fawl,
i ganmawl dy gyfiawnedd.

ADNODAU

Adnodau o SAL. XIII. a XLIV.

Yn cynnwys Cwynfan galarus y Duwjol dan Drallod, ac Abſennoldeb Cyſſuron Duw.

1 PA hŷd, ſy Arglwydd Dduw dilyth,
ai byth yr wyf mewn angof?
Pa guddjo 'r wyd, O Dduw, pa hŷd,
dy lân wynebpryd rhagof?

2 Pa hŷd y rhêd meddyljau tro
bob awr i flino 'nghàlon?
Fy mlinder i ſy faith yn wîr,
tra codir ſy nghaſeion.

3 O Arglwydd, edrych arnaf fi,
a chlyw ſy ngweddi ffyddlon:
Agor ſy llygaid, rhag eu cau
ynghyſgfa angau ddigllon.

Sal. xliv.

24 Pa ham y cuddi d' wyneb prŷd?
O darbod hŷd ſy mlinder:
Fy enaid fathrwyd yn y llwch,
gan driſtwch a gorthrymder.

25 Wrth y llwch mae ſy mol ynglŷn;
fal dyna derfyn gwagedd:
26 Duw, cyfod, cymmorth, gwared fi,
o egni dy drugaredd.

Sal. xiii.

4 Pe llithrwm ddim, rhag maint yw 'r llîd,
ſe dd'wedid ſy ngorchfygu:
A llawen fyddai ſy holl gâs;
dal fi â 'th râs i fynu.

5 Minnau 'n dy nawdd a rois ſy ffydd,
a 'm holl lawenydd eithaf:
Canaf i 'm Duw, a 'm helpodd i;
gwnâf gerddi i 'r Goruchaf.

SAL.

SAL. XV.

Nodau Dinaſwyr Sïon, a Chynheddfau 'r rhai cymmeradwy yngolwg Duw.

1 DYwaid i mi, pa ddŷn a drîg
i 'th lŷs barchedig, Arglwydd?
A phwy a erys ac a fydd
ym mynydd dy ſanctеiddrwydd?

2 Yr hwn a rodia 'n berffaith dda,
yr hwn a wnâ gyfiawnder:
Yr hwn a draeth' o 'i gàlon wîr,
a drîg ar dîr uchelder.

3 Yr hwn ni ddywaid, ac ni wnâ,
ddim ond o 'r da bwygilydd,
Ac ni chynnwys y rhai a rôn
i 'w cymmydogjon g'wilydd.

4 Yr hwn ſydd iſel yn ei frŷd,
yn caru 'i gydgriſt'nogjon:
Yr hwn ſy 'n ofni 'r Arglwydd Dduw,
ac ſydd yn byw yn ffyddlon.

5 Yr hwn ni thyng ddim ond y gwîr,
er dîr neu nïwaid iddo:
Ac ni ro ei arjan yn llôg,
er dwyn cymmydog dano.

6 Na gwobr na rhôdd yr hwn ni fyn,
er dâl yn erbyn gwirjon:
7 A wnelo hyn, ni lithra fyth,
ſe gaiff y ddilyth goron.

ADNODAU o SAL. XVI.

Yn cynnwys Gweddi 'r Duwjol, a 'u Hyfrydwch yn Najoni Duw.

1 CADW fi, Dduw; can's rhois fy mhwys
a 'm coel yn dradwys arnad:
2 Fy Arglwydd wyd; mae dan fy mron
y gyffes hon yn waſtad.

5 Llawenaf, can's ti, Arglwydd, yw
fy môdd i fyw, a 'm phiol:
A thydi, Jôr, fy 'n rhoi 'mi ran
a chyfran yn ddigonol.

6 Trwy Dduw y fyrthjodd i mi ran
o fewn y fan hyfrydaf:
Digwyddodd i mi, er fy maeth,
yr etifeddjaeth lanaf.

7 Bendithjaf finnau Dduw fy Jôr,
'rhwn a roes gyngor ymmy:
F'arennau hefyd, ddydd a nôs,
fydd ym' yn dangos hynny.

8 Rhois Dduw yn waſtad gar fy mron;
o'r achos hon ni lithraf:
Can's mae ef ar fy neheulaw;
yma na thraw ni fyflaf.

9 O herwydd hyn llawen a llon
yw fy nghàlon: ac eilwaith,
Hoff yw fy heddwch a diddîg,
a 'm cnawd a drîg mewn gobaith.

11 Dangos im' lwybr i fywyn jawn;
dy fron yw 'r llawn llawenydd:
Can's yn dy nerth, nid yn y llwch,
mae digrifwch tragywydd.

ADNODAU O SAL. XVII.

Erfyniau 'r Duwjol, er i DDUW eu cynnal yn ei Ffordd ef, a 'u cadw rhag eu Gelynjon.

1 O Clyw fy nghwynfan, Arglwydd mwyn,
yſtyrja gŵyn fy ochain:
Gogwydda 'th gluſt i 'm gweddi i,
ſydd arnat ti yn llefain.

4 I ochel cydwaith dynjon drwg,
trwy d'air a 'th amlwg gyngor:
Ffordd y dŷn trawſgryf, haerllyd, llym,
ſe ddyſgwyd ym' ei hepgor.

5 Ond yn dy unjon lwybrau di,
Duw, cynnal fi yn waſtad:
Rhag llithro allan o 'r jawn hwyl,
Duw, diſgwyl fy ngherddedjad.

6 Galw 'r wyf arnad, am dy ſod
yn Dduw parod i wrando:
Goſtwng dy gluſt, a chlyw yn rhôdd
fy holl ymadrodd etto.

7 Cyfranna dy ddajonus râd
(ti 'r hwn wyt geidŵad ffyddlon)
I 'r rhai ſy 'n ymrôi dan dy law
rhag brôch a braw y trawſion.

8 Cadw fi 'n anwyl rhag eu twyll
fel anwyl ganwyll llygad:
Yng nghyſgod dy adenydd di,
O cadw fi yn waſtad!

9 Rhag yr annuwjol a 'u mawr bwys,
a rhag fy nghyfrwys elyn:
Y rhai a gais fy enaid i,
gan godi yn fy erbyn,

12 Maent hwy fel llew, gan godi gwrych,
fai 'n chwennych y 'm hysbeiljo:
Neu fel llew jeuangc (er ei lês)
mewn lloches yn ymguddjo.

13 Cyfod, Arglwydd, o'i flaen ef sâf;
dy help a gâf i'm henaid:
A tharoi 'lawr, â 'th gleddyf noeth,
yr enwir fflamboeth tanbaid.

Adnodau o SAL. XVIII.

Clôd y Duwjol i Dduw, am Ymwared oddi wrth Ddrygau eu Caſeion, a Gofidiau blîn.

1 O Jôr fy ngrym, caraf di'n fawr,
fy nghreiglawr, tŵr f' ymwared:
2 Fy Nâf, fy nerth, fy nawdd, fy Nuw,
hwn yw fy holl ymddiried.

3 Pan alwyf ar fy Jôr hynôd,
i'r hwn mae clôd yn gyfion:
Yna y'm cedwïr yn ddiau
rhag drygau fy nghaſeion.

4 Gofidjau angau o bob tu
oeddynt yn cyrchu'm herbyn:
Llifo wnaeth afonydd y fall,
yn ddiball, yn fy nychryn.

5 Pan ydoedd fwyaf braw y bedd,
a gwaedlyd ddiwedd arnaf:
Ag arfau angau o bob tu
a'm câs yn neſu attaf;

6 Yna y gelwais ar fy Nêr;
ef o'r uchelder clywodd:
A'm gwaedd a ddaeth hyd gar ei fron,
a thirion y croeſawodd.

19 Fy Nuw ei hun a'm rhoes yn rhŷdd;
fe fu waredydd ymmy:
Ac, o dra ſerch i mi, y gwnaeth
na bawn i gaeth ond hynny.

27 Can's mawr yw dy drugaredd di,
gwaredi 'r truan tawel:
Ac a oſtyngi gar dy fron
rai â golygon uchel.

30 Mor berffaith yw holl ffyrdd Duw nef!
a 'i air ef ſydd buredig:
Ac i bob dŷn yntho a grêd,
mae'n fwccled bendigedig.

46 Yr Arglwydd byw ſydd ar fy mhlaid,
fy nghraig fendigaid hefyd:
Dyrchafer Duw; yntho ef trîg
fy nerth a 'm hunig jechyd.

49 Am hyn canmolaf di yn rhwydd,
O Arglwydd Dduw y lluoedd:
Canaf dy glôd; a hyn fydd dyſg
ym myſg yr holl genhedloedd.

Adnodau eraill o SAL. XVIII.

Yn deſgrifio Mawredd Duw, yn Naeargrynfaoedd a Thymheſtloedd ofnadwy, o blaid i 'w Bobl, ac er dychryn i 'w holl Elynjon.

7 PAN ddigjodd Duw, daeth daeargryn,
a ſail pob bryn a ſiglodd:
A chyffro trwy 'r holl wlâd i gŷd,
a 'r holl fyd a gynhyrfodd.

8 O 'i enau tân, o 'i ffroenau tarth,
yn 'nynnu pob parth wybren:
9 Yr awyr dan ei draed cyffrôdd,
a duodd y ffurfafen.

10 Ac fel yr oedd ein Jôr fel hyn
uwch cerubyn yn hedeg:
Ac uwch law adenydd y gwynt,
mewn nefol helynt hoywdeg.

11 Mewn dyfroedd a chymhylau fry
mae'i wely heb ei weled:
12 Ac yn ei gyrru 'n genllyſg mân,
a marwor tân, i wared.

13 Gyrrodd daranau, dyna 'i lef,
gyrrodd o 'r nef genhadon:
14 Tân a chenllyſg a mellt yn gwau,
fel dyna ſaethau poethjon.

15 Diſtrywiwyd dy gâs: felly gynt,
gan chwythjad gwynt o 'th enau,
Gwaſgeraiſt di y moroedd mawr,
gwelwyd y llawr yn olau.

16 Felly gwnaeth Duw â mi 'r un môdd,
anfonodd o 'r uchelder:
Ac a 'm tynnodd o 'r lle yr oedd
o 'm hamgylch ddyfroedd lawer.

17 Fe a 'm gwaredodd Duw fel hyn
odd' wrth fy ngelyn cadarn:
Yn rhy drwm i mi am ei fod;
rhof finnau glôd hyd ddyddfarn.

Adnodau o SAL. XIX. ac eraill.

Am Fawredd a Dajoni Duw, yng Ngwaith y Creadigaeth a Rhagluniaeth; ag a ddylai 'n hannog i foli Duw o 'u plegid.

1 DAdgan y nefoedd fawredd Duw;
yr unrhyw gwnâ 'r ffurfafen:
2 Y dydd i ddydd, a 'r nôs i nôs,
ſy 'n dangos cwrs yr wybren.

3 Er nad oes ganthynt aïr na jaith,
da dywaid gwaith Duw lywydd:
Diau nad oes na môr na thîr
na chlywïr eu lleferydd.

4 Aeth

4 Aeth eu ſain hwynt trwy yr holl ſyd,
a'u geirjau hyd eithafoedd :
Yr haul têg, a'i gwmpas ſydd bell,
a'i babell yn y nefoedd.

SAL. xxiv.

1 Yr Arglwydd biau 'r ddaear lawr,
a'i llawnder mawr ſy 'n eiddo :
Yr Arglwydd biau yr holl fyd,
a phawb i gŷd ſydd ynddo.

2 Can's fe roes ei ſail hi a'i gwêdd
yn rhyfedd uwch y moroedd :
Ac a'i goſododd hi yn lân
yn drigfan uwch llifddyfroedd.

SAL. lxxiv.

16 Di biau'r dydd, di biau 'r nôs,
golau a hauldlos geinwedd :
17 Seiljaiſt y ddaear, llunjaiſt hâf
a gauaf, o 'th ogonedd.

SAL. xxxiii.

6 Gair yr Arglwydd a wnaeth y nef,
a'i Ysbryd ef eu lluoedd ;
7 A chaſglodd ef ynghŷd y môr,
a'i dryſor yw 'r dyfnderoedd.

SAL. ciii.

22 Bendithjwch chwi yr Arglwydd nef,
ei holl waith ef ſy hylwydd :
Ym mhob man oll o'i dreſn a'i hawl,
O f' enaid, mawl di 'r Arglwydd.

ADNODAU eraill o SAL. XIX.

Am Odidowgrwydd a Rhinwedd Gair Duw; i'n hannog i ymddigriſo ynddo, ac i geiſio Cymmorth Duw yn erbyn Pechod.

7 DYSG yr Arglwydd ſydd berffaith ddawn,
a dry i'r jawn yr enaid:
Felly y rhydd dyſtjolaeth wîr
wybodaeth i'r ffyddlonjaid.

8 Deddfau Duw Jôn ydynt unjon,
llawenant gàlon ddiddrwg:
A'i orchymmyn ſydd bur diau,
a rydd olau i'r golwg.

9 Ofn yr Arglwydd ſydd lân, ac byth
y pery 'n ddilyth hyfryd:
Barnau 'r Arglwydd ynt yn wîr llawn
i gŷd, a chyfiawn hefyd.

10 Mwy deiſyfedig ynt nag aur,
ie nâ choethaur lawer:
Meluſach hefyd ynt nâ'r mêl;
ſef, dagrau terfel tyner.

11 Can's ynthynt dyſgir fi, dy wâs,
yn addas mewn unjawnder:
A'r holl gamp ſy o'u cadw hwy;
felly ceir gobrwy lawer.

12 Er hynny i gŷd, pwy a all
jawn ddyall ei gamweddau?
O gwnâ fi'n lân (a bydd diddîg)
o'm holl guddjedig feiau!

13 Duw, attal feiau rhyfyg chwant,
na thyfant ar fy ngwarthaf:
Yno byddaf wedi 'nglanhâu
o'm holl bechodau mwyaf.

14 O Arglwydd, fy Mhrynwr a'm nerth,
bydded yn brydferth gennyd:
Fy 'madrodd, pan ddêl gar dy fron,
a'm myfyr càlon hefyd.

Adnodau o SAL. XX.

Yn cynnwys Erfyniad y Duwjol dros Gyfaill anwyl; a ddichon pob dŷn ei gymhwyſo hefyd at ei Enaid ei hun.

1 GWrandawëd di yr Arglwydd Nêr,
pan ddêl cyfyngder arnad:
Enw Duw Jacob, ein Duw ni,
a'th gadwo di yn waſtad.

2 O'r nefoedd rhoed it' help a nerth,
a braich o brydferth Sïon:
3 Cofied Duw dy ddagrau yn rhôdd,
bo'r rhai 'n wrth fôdd ei gàlon.

4 Rhoed itti, wrth dy fôdd dy hun,
dy ddymun a'th adduned:
Dy fwriad jach, a'th arfaeth tau,
a'th weddiau gwrandawëd.

5 Yn Enw ein Duw gorfoleddwn
yn hyf, a chodwn faner:
A'th ddeiſyfiadau gwnaed yn rhwydd
yr Arglwydd o'r uchelder.

6 Yr Arglwydd ddaw i waredu,
o'i annedd fry, ei anwyl:
Gwrendy ei nerth, gyr iddo rym,
yn gyflym wrth ei ddiſgwyl.

9 Cadw ni, Arglwydd, â'th law gref,
Brenin y nef fo droſom:
Gwrandawëd hwnnw arnom ni,
a'n gweddi, pan y lleſom.

Adnodau o SAL. XXII.

Yn cynnwys Cwynfan ymbilgar y Duwjol dan Anghyſſur ac Abſennoldeb Diddanwch Duw.

1 Dangos,

1 DAngos, fy Nuw, fy Nuw a'm grym,
'ba achos y'm gadewaiſt:
Pell wyt oddi wrth fy oernâd,
fy mloeddjad ni wrandewaiſt.

2 Fy Nuw, 'rwy 'n llefaîn, tithau heb
roi im' mor atteb etto:
Bob dydd a nôs mae 'nghrî 'n ddiffael,
hyd hyn heb gael fy ngwrando.

3 A thi wyd ſanct, ſanct i barhâu,
lle daw gweddiau 'n waſtad:
A holl dŷ Iſraël â 'u clôd,
a 'u pwys a 'u hyſtod arnad.

4 Ynot gobeithjai 'n tadau ni,
a thydi oedd eu bwccled:
Ymddiried ynot, Arglwydd hael,
ac felly cael ymwared.

5 Llefaſant, trwy ymddiried, gynt;
da fuoſt iddynt, Arglwydd:
Eu hachub hwynt a wnaethoſt di
rhag c'ledi, a rhag gwradwydd.

6 Minnau gyfrifir megis pryf,
nid fel gŵr cryf ei arfod;
Fel dirmyg dynjon, a gwarth gwael,
a thybjant gael eu hyſtod.

19 Tithau, fy nerth a 'm Harglwydd da,
nac ymbellhâ odd' wrthy':
O bryſia, tydi yw fy mhorth;
Duw, tyr'd â chymmorth ymmy.

11 Odd' wrthyf fi yn bell na ddôs,
tra fo yn agos flinder:
O cymmorth fi, gan nad oes neb
a drotho 'i wyneb tyner.

25 Honot ti bydd, ac i ti gwedd,
mewn uchel orſedd, foliant:
F'adduned dalaf i Dduw 'n llon
ger bron y rhai a 'i hofnant.

26 Can's Duw a wrendy gweddi 'r gwan,
a 'i duchan, yn ei adſyd:
O 's molwch ef, ſe gaiff (gwîr yw)
eich enaid ſyw yn hyfryd.

S A L. XXIII.

Am Hyder a Chyſſur y Duwjol ym Mugeiliaeth a Dajoni Duw.

1 YR Arglwydd yw fy Mugail clau,
ni âd byth eiſiau arnaf:
2 Mi gâf orwedd mewn porfa frâs
ar lan dwfr gloywlas araf.

3 Fe goledd f' enaid, ac a 'm dwg
'r hŷd llwybrau diddrwg cyfion:
Er mwyn ei Enw mawr dilŷs
ſe 'm tywys ar yr unjon.

4 Pe rhodiwn (nid ofnwn am hyn)
yn nyffryn cyſgod angau:
Wyd gyd â mi, a 'th nerth, a 'th ffon;
ond tirion ydyw 'r arfau!

5 Goſodaiſt fy mwrdd i yn frâs,
lle 'r oedd fy nghâs yn gweled:
Olew i 'm pen, a chwppan llawn;
dajonus jawn fu 'r weithred.

6 O 'th nawdd y daw y donjau hyn
i 'm canlyn byth yn hylwydd:
A minnau a breſwyljaf byth
â 'm nyth yn nhŷ yr Arglwydd.

Honot

Adnodau o SAL. XXIV.

Yn dangos Nodau'r rhai a âant i'r Nefoedd, a'r Breintjau a berthyn iddynt.

3 PA fath yw'r gŵr a ddringa 'n hŷ'
i nefoedd fry yr Arglwydd?
A phwy a ſaif â theilwng wêdd
yng ngorſedd ei ſanctaiddrwydd?

4 Dŷn â llaw lân, a meddwl da,
ac yn ddidraha'i enaid:
Diorwag, ac ni roes un tro
er twyllo'i gyfneſeifiaid.

5 Gan yr Arglwydd y caiff hwn wlîth
ei raſlawn fendith helaeth:
A chyfiawnder i bob cyfryw,
gan Dduw, er jachawdwrjaeth.

Adnodau o SAL. XXV.

Ymbiliau taer am Faddeuant Pechod, ac Ymwared oddi wrth Oſidiau blîn.

1 ARglwydd, dyrcha fy enaid i
hyd attat ti yn unjon:
2 Fy ngobaith wyt, yn warth na'm gwnâ,
na lawenhâ 'ngelynjon.

6 O cofia dy nawdd a'th ſerch di,
a'th fawr doſturi, Arglwydd:
Cofia fod ynot ti erjôed
lawn ddioed drugarogrwydd.

7 Na chofia yr enwiredd mau,
na llwybrau fy jeuengctyd:
Ond, Arglwydd, cofia 'mlinder i,
er dy ddajoni hyfryd.

11 Er mwyn dy Enw (Arglwydd mau)
Duw, maddau fy anwiredd:
Can's fy nhroſeddjad i mawr yw;
mwy ydyw dy drugaredd.

15 Tueddaf attat di, fy Nhâd,
yn waſtad, fy ngolygon:
Can's tydi'n unig (yn ddioed)
rydd fy nau droed yn rhyddjon.

16 Tro attaf, dôd im' nawdd diddîg;
can's unig wyf a rhydlawd:
17 Gofidjau 'nghàlon ynt ar lêd;
Duw, gwared fi o'm nychdawd.

18 Duw, gwêl fy mlinder a'm poen fawr,
a maddau 'n awr fy mhechod:
19 Gwêl fy ngelynjon, a amlhânt,
ac a'm casânt yn ormod.

20 Cadw f' enaid, ac achub fi,
na ddelo i mi wradwydd:
Fy 'mddiried ydwyt ti, O Dduw!
can's tydi yw fy Llywydd.

Adnodau eraill o SAL. XXV.

Yn cynnwys Dymuniad y Duwjol am gael eu harwain yn Ffordd Duw.

4 DAngos im', Arglwydd, dy ffordd di,
a phâr i mi ei dyall:
Dyſg ac arwain fi yr un wêdd
yn dy wirjonedd diball.

5 Can's tydi ydwyd Dduw fy maeth,
a'm jachawdwrjaeth unig:
Dy ddiſgwyl yr wyf 'r hŷd y dydd,
a hynny fydd im' ddiddig.

8 Yr Arglwydd ſydd unjon a da,
a 'i ffyrdd im' noddfa ydynt:
Fe arwain (fel y mae yn rhaid)
y pechadurjaid ynddynt.

9 Fe ddyſg ei lwybrau, mewn barn jawn,
i 'r rhai uſuddjawn yſtig:
Hyddyſg yw ei ffordd i bob rhai
a ſyddai oſtyngedig.

10 I 'r ſawl a gatwo ddeddfau 'r Jôn,
a 'r unjon dyſtjolaethau:
Gwirjonedd a thrugaredd fydd
ei lywydd yn ei lwybrau.

14 Ei holl ddirgelwch a ddyſg fo
i 'r ſawl a ofno 'r Arglwydd:
Ac o 'i holl gyfanneddau glân
eſo a 'i gwnâ 'n gyfarwydd.

21 Gwnâ fi yn berffaith yn dy waith,
can 's rhois fy ngobaith ynod:
22 Duw, cadw di holl Iſraël;
gwared, a gwêl ei drallod.

Adnodau o SAL. XXVII.

Am Wroldeb hyderus y Duwjol yn Nuw, a 'u mawr Serch i 'w Addoliad ef.

1 YR Arglwydd yw fy ngolau 'gŷd,
a 'm jechyd; rhag pwy 'r ofnaf?
Yr Arglwydd yw nerth f' oes; am hyn
rhag pwy doe dychryn arnaf?

3 Ni ddoe braw ar fy nghàlon gu,
pe cyrchai llu i 'm herbyn:
Neu pe cyfodai câd yn grwn,
mi ni wanffyddjwn ronyn.

4 Un

4 Un arch a erchais ar Dduw Nâf,
hynny a archaf etto:
Cael dyfod i dŷ 'r Arglwydd glân,
a bod â 'm trigfan yntho.

I gael ymwel'd â 'i demel dêg,
a 'i hyfryd oſteg ynthi,
Holl ddyddjau f'einioes: ſef wyf gaeth
o fawr hiraeth am dani.

5 Can's y dydd drwg ſe 'm cudd eſe
i 'w babell neu ddirgelfa:
I 'w breſwylfod, fel mewn craig gref,
câf gantho ef orphwysfa.

6 Yna ſe 'm codir uwch fy nghâs,
fydd mewn galanas ymmy:
Aberthaf, caraf, mola 'r Jôn
yn ffyddlon byth am hynny.

7 Gwrando arnaf, fy Arglwydd Dduw,
bryſia, a chlyw fy oernad:
Trugarhâ wrthyf, gwŷl fy nghlwyf,
y pryd y galwyf arnad.

9 Na chudd d'wyneb, na lys dy wâs;
fy mhorth a 'm hurddas fuoſt:
Duw fy jechyd, na wrthod fi;
O paid â ſorri 'n rhydoſt.

10 O gwrthod fi fy nhâd a 'm mam,
a 'm dinam gyfneſeifiaid:
Fy anwyl Jôn a 'm Duw, er hyn,
o 'i râs, a dderbyn f' enaid.

11 Duw, dyſg i mi dy ffordd yn rhwydd,
o herwydd fy ngelynjon:
Ac arwain fi, o 'th nawddol râd,
yn waſtad ar yr unjon.

Adnodau o SAL. XXVIII.

Taer Ddymuniad y Duwjol ar Dduw, i'w gwaredu rhag eu Gelynjon; a Diolch iddo am eu gwrando.

1 AT Dduw, fy nerth, y codaf lef;
Duw nef, na fydd di fyddar:
O's tewï, rhag fy myn'd mor drîſt
a bod mewn cîſt dan ddaear.

2 O Arglwydd! erglyw fy llais i,
a derbyn weddi bruddaidd:
Pan gottwyf fy nwylaw o bell,
Duw, tu a'th gafell ſanctaidd.

3 Ac na ddaroſtwng fi, fy Jôr,
i ddwylo 'r annuwjoljon:
Y rhai ſy 'n arwain mînau mêl,
a rhyfel yn eu càlon.

6 Bendigaid fyddo 'r Arglwydd nef,
ſe glybu lef fy ngweddi:
7 Yr Arglwydd yw fy nerth, a 'm rhan,
a 'm tarian, a 'm dajoni.

Ymddiriedais iddo am borth,
a chefais gymmorth ganddo:
Minnau o 'm càlon, trwy fawr chwant,
a ganaf foliant iddo.

8 Pawb oll ag ſydd trwy ffydd yn byw,
ſe edrych Duw am danynt:
A'i Enneiniog a fydd yn faeth
a jachawdwrjaeth iddynt.

9 Gwared dy blant dy hun yn dda,
bendithja d' etifeddjaeth:
Meithrina hwynt; a chyd â hyn,
dôd iddn' drag'wyddolfaeth.

Rhan.

Rhan o SAL. XXX.

Yn cynnwys Mawl i Dduw, am Ymwared oddi wrth Gyſtudd ac Angau.

1 F'Arglwydd, mi a 'th fawrygaf di,
can's myfi a ddyrchefaiſt:
A'm gelynjon i yn llawen
uwch law fy mhen ni pheraiſt.

2 Fy Nuw, pan lefais arnat ti,
y rhoddaiſt i mi jechyd:
3 Cedwaiſt fy enaid rhag y bedd,
a rhag diwedd anhyfryd.

4 Cenwch i 'r Jôn, chwi ei holl ſaint,
a maint yw gwyrthjau 'r Arglwydd:
A chlodforwch ef ger ei fron,
trwy gofion o 'i ſanctteiddrwydd.

5 Ennyd fechan y ſai 'n ei ddîg,
o gael ei fodd trig bywyd:
Dros brydnhawngwaith wylofain ſydd,
y borau ddydd daw jechyd.

7 Cuddjaiſt dy wyneb ennyd awr,
a blinder mawr a gefais:
8 Arnad (O Arglwydd!) trwy lef ddîr,
fy Arglwydd, yr ymbiljais.

9 Pa fudd (O Dduw!) ſydd yn fy ngwaed,
pan wyf dan draed yn gorwedd?
A phwy a gân it' yn y llawr
dy glôd a 'th fawr wirjonedd?

10 Clyw fi, Arglwydd, a thrugarhâ;
dôd gymmorth da i 'm bywyd:
11 Canys yn rhâd y troiſt fy mâr,
a 'm galar, yn llawenfyd.

Am ytty ddattod fy ſach grys,
rhoiſt wregys o lawenydd:
12 Molaf, a chanaf, â 'm tafod,
i 'm Harglwydd glôd dragywydd.

Adnodau o SAL. XXXI.

Yn goſod allan Ymddiried ac Erfyniau 'r Saint am Ddiogelwch yn Nuw.

1 MI ymddiriedais ynod, Nêr,
fel na 'm gwradwydder bythoedd:
Duw, o 'th gyfiawnder gwared fi,
a chlyw fy nghri hyd nefoedd.

2 Gogwydd dy gluſt attaf ar frŷs,
o 'th nefol lŷs i wared:
3 A bydd im' yn graig gadarn ſiwr,
yn dŷ a thŵr i 'm gwared.

4 Can's fy nghraig wyd, a 'm caſtell cryf;
wyf ſinnau hyf o 'th fawredd:
Er mwyn dy Enw tywys fi,
ac arwain i drugaredd.

8 Mi ymhyfrydaf ynot ti;
canfuoſt fi mewn amſer:
Ac adnabuoſt, wrth fy rhaid,
fy enaid mewn cyfyngder.

21 O mor fawr yw dy râs didrai,
a roiſt i 'r rhai a 'th ofnant:
Cai o flaen meibjon dynjon glôd,
ac ynod ymddiriedant.

23 Mi a ſendigaf Dduw o 'm bôdd,
dangoſodd im' ei gariad:
A gwnaeth ryfeddod dros ei wâs
mewn cadarn ddinas gaead.

26 O cerwch Dduw ei holl ſainct ef!
da y clyw lêf ffyddlonjaid:
Ac ef a dâl yn helaeth jawn
i bawb anghyſiawn tanbaid.

27 Cymmerwch gyſſur yn Nuw Jôn,
ef a rydd gàlon ynnoch:
Ac o 's gobeithjwch ynddo ef,
ei law yn gref bydd droſoch.

Adnodau o SAL. XXXII.

Am y Maddeuant gwynfydedig a'r Eſmwythâad ſy 'n dyfod ar Gyfaddefiad o Bechod; ag y ddylai annog pawb i weddio Duw, a llawenychu ynddo.

1 Y Sawl ſy deilwng, gwyn ei fyd,
trwy fadde' i gŷd ei droſedd:
Ac y cyſgodwyd ei holl fai,
a 'i bechod, a 'i anwiredd.

2 A'r dŷn (â gwynfyd Duw a 'i llwydd)
ni chyfri 'r Arglwydd iddo
Mo 'i gamweddau: yr hwn ni châd
dim twyll dichellfrâd ynddo.

3 Minnau, tra celwn i fy mai,
yn hên yr ai 'mhibelljon:
A thrwy fy rhuad i bob dydd,
cyſtuddjo bydd fy nghàlon.

4 Dy law dithau, y dydd a 'r nôs,
fydd drom, trwy achos, arnaf:
Troi ireidd-dra fy eſgyrn mêr
fel ſychder y gorphenaf.

5 Yna y trois innau ar gais,
addefais fy anwiredd:
6 Tyſt yn fy erbyn fy hun fum;
maddeuaiſt ym' fy nghamwedd.

7 Amſerol weddiau, am hyn,
a rydd pob glân ddŷn arno:
Canys mewn ffrydjau dyfroedd maith
ni chânt mo'r daith hyd atto.

8 Rhyw loches gadarn wyd i mi,
rhag ing y 'm cedwï'n ffyddlon:
Amgylchyni fyfi ar lêd
â cherdd ymwared gyſſon.

11 Caiff annuwjoljon, a wnânt gam,
fawr ofid am eu traha:
A ffyddlonjaid Duw, da eu gwêdd,
trugaredd a 'u cylchyna.

12 Chwithau 'r cyfion yn dirion ewch,
a llawenhêwch yn hylwydd:
A phob gàlon fydd unjon fyth,
clodforwch fyth yr Arglwydd.

Adnodau o SAL. XXXIII.

Annogaeth i lawenychu yn Nuw, o herwydd ef Ffyddlondeb a 'i Ddajoni i 'w Bobl.

1 PAr rai bynnag, yn Nuw y Jôn,
ſy gyfion, llawenychwch:
I bawb y ſy yn jawn yn byw,
gweddus yw diolchgarwch.

8 Yr holl ddaear ofned ein Duw,
a phob dŷn byw a 'i preſwyl:
9 Ei arch a ſaif, a 'i air a fydd,
a hynny ſydd i 'w ddiſgwyl.

11 Can's cyngor Duw, o 'r nefoedd fry,
a bery 'n drag wyddoljaeth:
Sef, holl galonfryd Duw ei hun,
uwch pob rhyw un genhedlaeth.

12 A phob cenhedloedd dedwydd ynt,
o's Duw iddunt ſydd Arglwydd:
A'i etholïon, efe a'u gwnaeth
yn etifeddjaeth hylwydd.

13 O'r nefoedd fry yr edrych Duw
ar lwybrau pob rhyw ddynjon:
Ac o'i breſwylfa edrych ar
y ddaear a'i thrigolion.

18 Er mwyn gwared, pan ſo yn rhaid,
rhag angau enaid adyn:
Ac i borthi y tlawd, yn glau,
rhag eiſiau, a rhag newyn.

19 Ein henaid, gan yr Arglwydd hael,
ſy'n diſgwil cael ei bywyd:
Yntef a byrth ein henaid gwan;
efe yw ein tarian heſyd.

21 Duw, dy drugaredd dôd i ni;
ſef ynnod di y credwn:
Dy drugaredd a'th nawdd yn' dôd;
can's ynnod ymddiriedwn.

Adnodau o Sal. XXXIV.

Yn annog i foli Duw, am ei Ddajoni i'w Bobl, a'i Barodrwydd i wrando eu Gweddiau.

3 MOlwch fy Arglwydd gyd â mi;
cydſolwn ni ei Enw ef:
4 Criais arno yn fy ofn caeth,
a gwrando wnaeth ſy ynglef.

5 Y ſawl a edrych arno ef,
â llewyrch nef eglurir:
Ni wradwyddir mo honunt neb,
a'u hwyneb ni ch'wilyddir.

6 Pan fo 'r truan yn codi llef,
mae Duw o 'r nef yn gwrando:
Ac ef a 'i gwared o 'i holl ddrwg,
a 'i waedd fydd amlwg iddo.

7 Angel ein Duw a dry yn gylch
o amgylch pawb a 'i hofnant:
Ceidw ef hwynt; a llawer gwell
nâ chaſtell yw eu gwarant.

8 O profwch, gwelwch, mor dda yw
yr Arglwydd byw i 'r eiddo:
A gwyn ei fyd pob dŷn a grêd,
roi ei ymddiried ynddo.

9 Ofnwch Dduw, ei holl ſaint (heb gêl)
a 'i gwnêl, ni bydd pall arnyn':
10 Nac eiſiau dim ſydd dda; er bod
ar g'nawon llewod newyn.

14 Y mae yr Arglwydd â 'i olwg.
ar y dŷn diddrwg cyfion:
A'i gluſtjau ef, o 'i lawn wîr fôdd,
egorodd i 'r rhai gwirjon.

16 Hawdd y clybu fy Nuw o 'r nef
leſerydd llef y cyfion:
A thra buan (o 'i râd a 'i rôdd)
y tynnodd o 'u trallodjon.

17 Can's agos yw ein Duw at gûr
y gàlon bur ddrylljedig:
A da y ceidw ef bob pryd
yr yſbryd cyſtuddjedig.

18 Trweh, ie aflwyddjannus jawn,
a fydd gŵr cyfiawn weithjau:
Ei ddrygau oll Duw oddi fry
a 'i tyn, a 'i try i 'r gorau.

20 Ond

20 Ond holl was'naethwyr Duw ei hun
yr Arglwydd Gûn a 'u gwared:
I 'r ſawl a 'mddiried ynddo ef,
ni all llaw gref mor nïwed.

ADNODAU O SAL. XXXIV. ac eraill.

Yn cynnwys Cynghorion duwjol i bawb a chwennycho fyw 'n ddedwydd yn Ofn Duw.

11 CHwychwi, fy meibjon, deuwch yn nês,
gwrandêwch hanes yſtyrjol:
Deuwch, a dyſgaf i chwi yn rhwydd
ofni yr Arglwydd nefol.

12 Y ſawl a chwennych fywyd hîr,
a gweled gwîr ddajoni:
Cau dy enau rhag drwg dibwyll,
a 'th ſafn rhag twyll a gwegi.

13 Gwrthod ddrwg, gwnâ dda, a chais hêdd;
hon hyd y diwedd dilyn:
A chadw 'r heddwch wedi 'i chael;
ſal dyna ddïwael deſtyn.

SAL. I.

14 Dôd dy oglud ar Dduw yn drwm,
a thâl yr offrwm pennaf:
Cân ei fawl ef, a dôd ar lêd
d' adduned i 'r Goruchaf.

15 Gweddiwch Dduw mewn amſer blîn,
bydd Duw i chwi 'n Waredydd:
Ac yna cenwch iddo glôd,
am droi y rhôd mor ddedwydd.

SAL. lxxvi.

11 Eich rhôdd i 'r Arglwydd Dduw addewch,
eich dlêd gwnewch yn ddyladwy:

A phob

A phob aelod o Sïon dêg
rhôent anrheg i 'r ofnadwy.

SAL. xcvii.

10 Pob drygjoni chwi a gasêwch ;
caru a wnèwch yr Arglwydd :
Hwn ſydd yn cadw oes ei ſaint,
i 'w dwyn o ddrygfraint afrwydd.

SAL. lv.

22 O rhowch eich gofal ar eich Duw,
o 's mynnwch fyw heb ſyrthjo :
Duw a geidw y cyfion byth,
a 'r drwg fo 'i chwyth i gwympo.

ADNODAU o SAL. XXXV.

Erfyniau am Blaid Duw yn erbyn ein Gelynjon.

1 PLeidja (O Arglwydd !) yn fy hawl
â 'r ſawl a dery 'n f' erbyn :
Pan ymryſonant hwy â mi,
Duw, gwthja di y gelyn.

2 Mae dy gymmorth ? O moes ei gael !
ymafael yn y darian :
O cyfod, cais dy aſtalch gron,
a dwg dy waywffon allan !

3 Cerydda di y rhai s' ar gam
yn f' erlid am fy mywyd :
Wrth fy enaid dywaid fal hyn,
Fyfi a fyn yt' jechyd.

4 Gwarth a gwradwydd fo i bob grâdd
a geiſio ladd fy enaid :
A thrwy g'wilydd troïd i 'w hôl
y ffals niweidjol gablaid.

5 Fel

5 Fel yr us o flaen gwynt y bôn,
Angel yr Jôn i 'w chwalu:
6 Ar hŷd ffordd dywyll, lithrig, lefn,
a hwn wrth gefn i 'w gyrru.

9 Ond am fy enaid i (Amen)
bid lawen yn yr Arglwydd:
Fe a fydd hyfryd gantho hyn,
lle daw i 'r gelyn aflwydd.

10 O Arglwydd! pwy fydd fel tydi?
pwy fydd â thi un gyflwr?
Rhag ei drech yn gwared y gwan.
a 'r truan rhag ei 'sbeiljwr?

10 Minnau a ganaf i ti glôd,
lle bo cyfarfod lluoedd:
Ac a folaf dy Enw, a 'th ddawn,
wrth lawer jawn o bobloedd.

Rhan o Sal. XXXVI.

Am Drugaredd Duw, a Hyfrydwch ei Bobl, yn ei Dŷ a 'i Addoliad ef.

5 DY drugaredd (O Arglwydd Jôn!)
fydd hyd eithafon nefoedd:
A 'th wirjonedd di fydd yn gwau
hyd y cymhylau dyfroedd.

6 Dy unjondeb fel mynydd mawr,
dy farn fel llawr yr eigion:
Dy nerth byth felly a barhâ,
i gadw dâ a dynjon.

7 O mor werthfawr (fy Arglwydd Dduw)
i bawb yw dy drugaredd:
I blant dynjon da jawn yw bod
yng nghyfgod dy adanedd.

8 Cyf-

8 Cyflawn o frafder yw 'r tŷ tau,
lle llenwïr hwythau hefyd:
Lle y cânt ddiod genyt, Jôn,
o flafus afon hyfryd.

9 Gyd â thi mae y loywffrwd hon,
a dardd o ffynnon einioes:
O 'th dêg oleuni, ac o 'th râd,
rhoift in' oleuad eifioes.

10 O eftyn etto i barhâu
dy drugareddau tirion:
Ni a 'th adwaenom di, a 'th ddawn
i 'r rhai fydd unjawn gàlon.

Adnodau o SAL. XXXVII.

Yn dyfgu na chynfigenom wrth Hawddfyd yr Annuwjol fy 'n diflannu, eithr ymddiried ac ymgyflwro yn Nuw.

1 NA ddala ddrygdyb yn dy ben,
nac o genfigen ronyn,
Er llwyddo 'r enwir, a wnai gam;
cai weled llam yn canlyn.

2 Can's hwy a dorrir fel gwellt glâs,
neu lyfiau diflas gwywon:
Hwynthwy a grinant yn ddilwydd,
a hynny 'n ebrwydd ddigon.

3 Crêd yn yr Arglwydd, a gwnâ dda,
gobeithja yr hyn gorau:
Bydd ymarhoüs yn y tîr,
di a borthir yn ddiau.

4 Bydd di gyfforus yn dy Dduw,
di gai bob gwiw ddymuniad:
5 Dy ffyrdd crêd iddo, yn ddilys
efe rydd d' ewyllys attad.

6 Crêd

6 Crêd ynddo ef, fe 'th ddwg i 'r lan,
myn allan dy gyfiawnder:
Mor olau a 'r haul hanner dydd,
fal hynny bydd d' eglurder.

18 Can's edwyn Duw ddyddjau a gwaith
pob rhai o berffaith helynt:
Ac yn dragywydd Duw a wnaeth
dêg etifeddjaeth iddynt.

19 Yntef a 'u ceidw hwynt i gŷd,
ni chânt ar ddrygfyd wradwydd
Amſer newyn hwynthwy a gânt
o borthjant ddigonolrwydd.

37 Yſtyrja hefyd y gŵr pur,
ac edrych du 'r cyfiownedd:
Di a gai wel'd y cyfryw ddŷn,
ma 'i derfyn fydd tangnefedd.

38 Ond gwŷl y rhai trwy drais ſy 'n byw,
ynghŷd i ddiſtryw cwympant:
Fe a ddïwreiddir plant y fall
i ddiwedd gwall a methjant.

39 Jechyd y cyfion ſy Dduw Nêr,
a 'u nerth mewn amſer cyffro:
40 Cymmorth, ceidw, o ddrwg y tyn,
a hyn am gredu yntho.

Adnodau eraill o SAL. XXXVII.

Yn cynnwys ychwaneg o Athrawjaethau i 'r unrhyw Yſtyr.

7 YMddiried yn Nuw, diſgwyl, taw,
ac heb ymddigjaw gronyn:
Er llwyddo drygddyn yn ei fai,
yr hwn a wnai yn gyndyn.

8 Gâd

8 Gâd heibio ddîg, na flina chwaith ;
gâd ymaith wyllt ddigllonedd :
Rhag i hynny dyfu i fod
yn bechod yn y diwedd.

9 Ond diſgwyl di wrth Dduw yr Jôn,
gwŷl ddiwedd dynjon diffaith :
Diſgwyl wrth Dduw, meddienni 'r tîr,
a 'r drwg fe 'i torrir ymaith.

10 Goddef y drygddyn dros dro bach,
ni welir mwyach mo 'no :
Ti a gai wel'd y lle y bu
heb ddim yn ffynnu gantho.

12 Y drygddyn cais, o 'i chwerw ddaint,
i ddrygu braint cyfiawnddyn :
13 Duw a 'i gwatwar, a marw fydd ;
agos yw dydd ei derfyn.

20 Y rhai traws enwir, heb ddim cwyn,
fel braſder ŵyn a doddant :
Caſeion Duw yw dynjon drwg ;
hwy gyd â 'r mwg diflannant.

35 Gwelais enwir yn llym ei bîg,
a 'i frîg fel gwyrddbren lawri :
36 Chwiliais a cheiſiais yr ail dro,
'r oedd efo wedi colli.

11 Ond y rhai ufudd a hawddgar
y ddaear a feddjannant :
A'r rheini â thangneſedd hîr
diddenir yn eu meddjant.

17 Yr Arglwydd a farn pob rhyw fai,
tyr freichjau 'r rhai annuwjol :
Ac ef a gynnal, yn ddiddîg,
y cyfion, yſtig, gweddol.

23 Fordd

23 Ffordd y cyfion ſydd hoff gan Dduw;
am hyn caiff fyw 'n galonnog:
24 Er ei gwympo, eſo ni friw,
ſe 'i deil llaw Dduw 'n ſefydlog.

28 Nid ymedy eſo â 'i ſaint,
ceidw heb haint y rheini:
Ond hâd yr annuwjoljon gau
a ddônt i angau difri.

34 Gobeithja yn yr Arglwydd tau,
a chadw 'i lwybrau 'n gywir;
Cai ſeddjannu, cai uwch o râdd,
a gweled lladd yr enwir.

Adnodau o SAL. XXXVIII.

Yn cynnwys Ymbiliau 'r Edifeiriol mewn Cyflwr gofidus dan Bwys Pechod.

1 FY Arglwydd, na cherydda fi
ym mhoethni dy gynddaredd:
Ac na choſba fi yn dy lîd
o blegid fy anwiredd.

2 Can's glŷn dy ſaethau ynof fi,
mae pennau 'r rheini 'n llymion:
A dodaiſt arnaf y llaw dau,
a rhoiſt ddyrnodjau trymion.

3 Nid oes mo 'r jechyd, gan dy lîd,
i 'm cnawd, ond gofid creulon:
Nid oes (o waith fy mhechod chwyrn)
mo 'r hêdd i 'm heſgyrn ſychjon.

4 Can's fy nghamweddau aent i 'r nen,
a thros fy mhen tyfaſant:
Un wedd a baich rhy drwm o bwys,
fel hyn mor ddwys y 'm llethant.

5 Fy

5 Fy nghleiſiau ſydd yn bwdr ddu
yn llygru gan f' ynfydrwydd:
6 Griddfan ac wylo 'rwyf bob dydd
mewn galar prudd ac aflwydd.

9 Clyw, Arglwydd, fi, 'herwydd o 'th flaen
yn hollol mae 'n nymuniad:
Ni chuddjwyd mo 'm ochenaid i
odd' wrthyt ti, ſy Ngheidwad.

17 Cloffi yn barod 'r wyf yn wîr,
a dolur hîr ſy 'm poeni:
18 Addef yr wyf mai jawn im' ſod,
ſy mhechod ſy 'n ei beri.

15 Er hyn yr wyf yn credu 'n rhwydd
i ti, Arglwydd Goruchaf:
Fy ngobaith i ſydd ynot ti;
ti a wrandewï arnaf.

21 Duw, nac ymâd, na fydd ym mhell,
pan ddelo dichell ffyrnig:
22 Bryſia, cymmorth fi yn y byd,
ſy Nuw, a 'm jechyd unig.

Adnodau o SAL. XXXIX.

Gweddi a Myfyrdod ynghylch Gwagedd a Byrdra Bywyd Dŷn.

5 O Dangos im' (ſy Arglwydd Nêr)
pa amſer y diweddaf
Rifedi 'nyddjau: a pha hŷd
o fewn y byd y byddaf!

6 Rhoddaiſt ſy nyddjau fel llêd llaw,
i 'm heinioes daw byr ddiwedd:
Diau yn d' olwg di (O Dduw!)
fod pob dŷn byw yn wagedd.

7 Can's

7 Can's mewn cyſgod y rhodia gŵr,
dan gaſglu pentwr oſer:
Odid a wŷr, wrth dyrru dâ,
pwy a'u mwynhâ mewn amſer.

8 Beth bellach a obeithjaf fi?
Duw, rhois i ti fy nghàlon:
9 Tyn fi o'm camweddau yn rhwydd;
n'âd fi'n wradwydd i ffoljon.

12 Pan goſbech di am bechod wŷr,
ſe wywa'n ſiwr ei fawredd
Fel y gwyfyn: gwelwch wrth hyn,
nad yw pob dŷn ond gwagedd.

13 Clyw fy ngweddi, O Dduw o'r nef,
a'm llef; a gwŷl fy nagrau:
Dy wâs caeth wyf (O clyw fy mloedd!)
ac felly'r oedd fy nhadau.

14 O paid â mi, gâd im' gryf hâu,
cyn darfod dyddjau 'mywyd:
13 O gwnâ â mi, ſy 'mron fy medd,
drugaredd yn fy adfyd!

Adnodau o SAL. XL.

Am Olud Grâs a Dajoni Duw; ac Ymbiliau prudd am ei Drugaredd ef.

6 MOR fawr dy wyrthjau di, fy Nuw,
i bob dŷn byw o'th boblo'dd:
A rhyfeddodau gwaith dy râs
pwy all yn addas adrodd?

7 Y rhai pe ceiſiwn i, trwy grêd,
eu rhoi ar lêd, a'u canu,
Mwy amlach ydynt nag y gall
un dŷn, heb ball, eu traethu.

14 Am

14 Am hyn, O Dduw! rhagof na chêl
dy dawel drugareddau:
Dy nawdd a'th wîr gosod ar lêd,
bônt byth i'm gwared innau.

15 Dagrau o'm hamgylch sydd uwch rhîf,
a throso 'n llîf mae pechod:
Amlach ydynt nâ 'm gwallt i'm brîg,
a'm càlon ddîg sy 'n darfod.

16 Tyred (sy Arglwydd) helpa 'n rhôdd,
a rhynged bôdd it' hynny:
Brysia i'm nawdd, na thrîg yn hŵy,
a bydd gynhorthwy ymmy.

19 Y rhai a 'th geisiant di bob pryd,
bônt lawen, hyfryd, hylwydd:
A d'weded a 'th gâr di (Dduw Nêr)
Mawryger Enw 'r Arglwydd.

20 Cofia (O Dduw!) sy mod yn wan,
ac yn druan; a dyred:
(O Dduw sy nerth!) na thrîg yn hîr,
tyr'd rhag y dîr i'm gwared.

Adnodau o SAL. XLI.
Am Wynfyd y rhai Trugarog.

1 GWYN ei syd yr ystyrjol frawd
a wnêl i'r tlawd syberwyd:
Yr Arglwydd ystyrjol o'r nef
a 'i ceidw ef rhag drygfyd.

2 Duw a 'i ceidw, a byw a sydd
yn ddedwydd yn ddaearol:
O Dduw, na ddyro ef yn rhôdd
wrth fôdd y rhai gelynol!

3 Yn ei wely pan fo yn glâf,
rhydd y Goruchaf jechyd:

A Duw

A Duw eſmwythâ oddi fry
ei wely yn ei glefyd

13 I Dduw Iſraël bôed yn flîth
y fendith (Jôn Goruchaf)
Yn oes oeſoedd: a thrwy air llen,
Amen, Amen, a draethaf.

ADNODAU O SAL. XLII. ac eraill.

Yn mynegi Hiraeth y Duwjol am Gymmundeb â DUW.

1 YR un wedd ag y bref yr hŷdd
am yr afonydd dyfroedd:
Felly y mae fy hiraeth i
am danat ti, Dduw 'r nefoedd.

2 Fy enaid i ſychedig yw
am fy Nuw byw, a 'i gariad:
Pa bryd y dof fi gar ei fron,
fy Nuw, a 'm tirion Geidwad?

4 O gofio hyn wrthyf fy hun,
fel tywallt ffûn fy einioes:
Ynghŷd â theulu Duw yr awn,
pe cawn fy meddwl eiſioes.

Hyd at dŷ Dduw, yn yſtlig jawn,
yr awn, dan ganu clodydd,
Fel tyrfa a fai 'n cadw gŵyl;
hyn bûm i 'w ddiſgwyl beunydd,

5 Trwm wyd, f' enaid o 'm mewn; pa ham
y rhoi brudd lam ochenaid?
Diſgwyl wrth Dduw, a doi gar bron
ei wyneb tirion cannaid.

SAL. xxvii.

14 Diſgwyl di ar yr Arglwydd da,
ymwrola dy gàlon:

Eſe

Ef a rydd nerth i 'th gàlon di,
o 's iddo credi 'n ffyddlon.

SAL. xliii.

2 Can's ti yw Duw fy nerth i gŷd,
pa ham y 'm bwryd ymaith?
A pha 'm yr âf mor drwm a hyn,
gan bwys y gelyn diffaith?

3 Gyr dy olau, a moes dy wîr,
ac felly t'wyſir finnau:
Arweinjant fi i 'th breſwylf'ydd,
i 'th fynydd, ac i 'th demlau,

4 Yna yr âf at allor Duw,
at fy Nuw anwyl hyfryd:
Ac â 'm genau y canaf fawl,
Duw, Duw, fy hawl a 'm gwynfyd.

ADNODAU o SAL. XLV.

Am Odidowgrwydd CRIST; ac Annogaeth i 'r Eglwys, fel Priodferch, i ymroddi iddo.

2 UWCH meibjon dynjon tegach wyd,
tywalldwyd rhâd i 'th enau:
Herwydd i Dduw roi arnat wlîth
ei ſendith byth, a 'i radau.

7 Ceraiſt unjohdeb, caſe'iſt gam;
o achos pa 'm, Duw Lywydd,
Dy Dduw, rhoes arnat ragor fraint;
ſef, ennaint o lawenydd.

8 Aroglau myrr, ac aloes da,
a chaſia, s' ar dy ddillad:
Pan ddelych di o 'th ifyrn dai,
lle y 'th lawenai 'r hollwlad.

10 Clyw hyn, O fereh, a hefyd gwêl,
ac â chluſt iſel gwrando:

Mae'n rhaid it' ollwng pawb o'th wlâd,
a thŷ dy dâd, yn angof.

11 A hoff fydd gan y Brenin gwych
gael edrych ar dy degwch:
Dy Arglwydd yw; gwnâ iddo foes,
i gael i'th oes hyfrydwch.

13 Can's merch y Brenin, glân o fewn,
anrhydedd llawn ſydd iddi:
A gwiſg o aur a gemmau glân,
odd' allan, ſydd am dani.

14 Mewn gwaith gwe nodwydd y daw hon
yn wych gar bron ei Harglwydd:
Ac, â'i gwyryfon gyd â hi,
daw attad ti yn ebrwydd.

15 Ac mewn llawenydd mawr a hêdd,
ac mewn gorfoledd dibrin,
Hwynthwy a ddeuant, wrth eu gwŷs,
i gŷd i lŷs y Brenin.

17 Coffâf dy Enw ym mhob oes,
tra caffwyf einioes ymmy:
Am hyn y bobloedd a rydd fawl
byth yn drag'wyddawl ytty.

Adnodau o SAL. XLVI. a LXIX,

Yn mynegi Hyder gyſſurus a Diogelwch Eglwys Dduw a'i Bobl, er gwaethaf pob Terfyſgoedd.

1 GObaith a nerth in' yw Duw hael;
mae help i'w gael mewn cyfwng:
2 Daear, mynydd, aent hwy i'r môr,
nid ofnaf f' angor deilwng.

3 Ped ymgymmyſgai'r tîr a'r dwfr,
nid ofnwn gynnwrf rhuad:

Ped ai 'r mynyddoedd i 'r môr mawr,
a 'r bryniau 'lawr y gwaſtad.

4 Dinas Dduw lle llawen a fydd,
cyfagos glennydd afon:
Cyſſegr preſwylfa y rhâd,
gan ddyfal rediad Cedron.

5 Duw ſydd yn trigo o 'i mewn hi;
ni âd hi 'ſgogi unwaith:
Duw a 'i cymmyrth ar y wawr ddydd,
a' i phreſwylfëydd perffaith.

7 Y mae yr Arglwydd gyd â ni
Jôr annifeiri luoedd:
Y mae Duw Jago ar ein plaid;
gyr help wrth raid o 'r nefoedd.

SAL. lxix.

35 Can's Duw a geidw Sïon dêg,
a threfna 'u hardd-deg Juda:
Adeilada ddineſydd hon
i ddynjon yn breſwylfa.

36 Can's ei holl weiſion ef, a 'u hîl,
a 'u heppil, a 'i meddjannant:
'Rhai a hoffa ei Enw fo
yn honno a breſwyljant.

ADNODAU o SAL. XLVII. ac eraill.

Yn dyſgu i ni glodfori Duw ein Brenin, am Lywodraeth ei Ragluniaeth ef dros bob peth.

6 O Cenwch, cenwch glôd ein Duw!
ein Brenin yw, O cenwch:
7 Duw dros y byd ſy Frenin call,
trwy ddyall ymhyfrydwch.

SAL.

SAL. lxxv.

6 Yn ddiau, nid o 'r dwyrain draw
i ddŷn y daw dyrchafiad:
Nid o 'r gorllewin, na 'r dehau,
y daw i chwithau godiad.

7 Can's ar law Dduw y mae pob barn;
na fid gŵr cadarn rygry':
Goſtwng heddyw y naill heb ball,
a chodi 'r llall yfory.

SAL. xxxiii.

10 Ti ſy 'n diddymmu, Arglwydd Jôr,
holl gyngor y cenhedloedd:
A 'th allu mawr y gwnai 'n ddirym
amcanjon llym y bobloedd.

SAL. lxxvi.

10 Can's poethder dŷn a 'th fola di;
tydi oſtegi drallod:
Eu gwrês, i 'r da, a fâg gref ffydd;
i 'r drwg, a fydd yn ddyrnod.

12 Tydi oſtyngi uchel frŷd
ac yſbryd gwŷr rhyfelgar:
Ti yrri ofn ynghanol hêdd
ar holl frenhin'edd daear.

SAL. cvii.

9 Ti ſy 'n dïwallu einioes dŷn
rhag newyn a rhag ſyched:
Ac o 'th fawr râs eu cadw i gŷd,
pan fytho 'r byd yn galed.

25 Ti ſy 'n cyffrôi tymheſtloedd gwynt,
y rhai a godynt angau:
26 Hyd awyr fry, hyd eigion llawr,
bob awr yn bygwth angau.

29 Ti wnei 'r yſtorm yn dawel dêg,
a 'r tonnau 'n oſteg gwaſtad:
30 I ddwyn dy blant yn jach i 'r lan,
i 'r man y bai 'u dymuniad.

SAL. XC.

3 Weithjau i ddiſtryw y troi ni;
troi dithau wedi 'n rhydda:
A d'wedi, cyn ein myn'd i 'r llwch,
Dychwelwch, meibjon Adda.

SAL. CXLIX.

2 Bôed Iſraël lawen a ffraeth
yn Nuw, a 'i gwnaeth yn ddibrin:
A byddant hyſryd blant Sïon
yn Nuw, eu tirion Frenin.

SAL. CIII.

19 Uchel yw ei orſeddfa ef,
ſef yn y nef drag'wyddol:
O 'r nef y llywja Duw bob peth
yn ei raglunjaeth raſol.

ADNODAU O SAL. XLVIII.

Am Ogoniant DUW yn ei Eglwys, a 'i Rhagoriaeth hi.

1 UChel yw braint dinas ein Duw,
a hynod yw yr Arglwydd:
A 'i drigfan ef yno y ſydd
ym mynydd ei ſanctеiddrwydd.

2 Tegwch bro, a llawenydd gwlâd,
yw Sïon lathrjad fynydd:
Yn yſtlyſau y gogledd lawr,
tre 'r Brenin mawr tragywydd.

3 Adweinir Duw ym mhlaſau hon
yn gymmorth digon hynod:

4 Ac

4 Ac wele nerth brenhinoedd byd
ddônt yno 'gydgyfarfod.

8 Cadarn yw dinas ein Duw ni;
ſicrhâ Duw hi byth bythoedd:
9 Duw, diſgwyljaſom am dy râs
i 'th deml; ac addas ydoedd.

11 A bryn Sïon a lawenhâ,
a merched Juda hefyd:
A'u llawenydd fydd yn parhâu
am drugareddau hyfryd.

13 Can's ein Duw ni byth yw 'r Duw hwn;
hyd angau credwn yntho:
A hyd angau hwnnw a fydd
yn dragywydd i 'n t'wyſo.

Adnodau o SAL. XLIX.

Yn dyſgu nac ofnom Drallodau 'r Byd hwn, o blegid ſod i bawb farw; ond y bydd Adgyfodiad gorfoleddus i 'r Cyſiawn.

1 GWrandêwch, chwi y bobloedd i gŷd,
trigolion byd, dyellwch:
2 Gwerin, tlawd, bonheddig, a chryf,
cyſoethog, hyf, yſtyrjwch.

5 Pa ham yr ofnaf ddrygau 'r byd
yn amſer adfyd atgas,
Pan ſo anwiredd wedi cau
wrth fy ſodlau o 'm cwmpas?

10 Gweli mai 'r bedd yw lletty 'r doeth,
y ffôl a 'r annoeth unwedd:
Marw yw 'r naill, marw yw 'r llall,
i arall gâd ei annedd.

12 Ni phery dŷn o gnawdol drâs
mewn urddas, er ei adail:

Diau pob dŷn, pan ddêl ei ddydd,
a dderfydd fel anifail.

13 Dyma eu ffordd, ffordd ffoledd fydd,
na welant ddydd yn paſſio:
Er hyn eu hîl a ddaw i 'w hôl
fydd yn eu canmol etto.

14 Angau yw terfyn pob dŷn byw;
i hwn nid yw ond tammaid:
Myned ſydd raid o 'r tŷ i 'r bedd
yn rhwym un wedd a defaid.

15 Daw dydd i 'r cyfion drannoeth têg;
daw im' ychwaneg yſtyn:
Daw im' o 'r bedd godiad i fyw;
deheulaw Duw a 'm derbyn.

Adnodau detholedig o SAL. L. ac eraill.

Am Ddyfodiad Duw i 'r Farn.

1 DUW y duwjau, yr Arglwydd cu,
gan lafaru a alwodd,
O godiad haul hyd fachlud hwn
yr holl fyd crwn cyffroodd.

2 O fryn Sïon y daw Duw Nâf,
hon ſydd berffeithjaf ddinas,
Mewn tegwch, a goleuni mawr
a llewyrch gwawr o 'i gwmpas.

3 Ein Duw a ddaw, ni fydd fel mûd,
o 'i flaen fflàm danllyd yſed,
A mawr dymheſtloedd i 'w gylch ef,
pan ddêl o 'r nef i wared.

4 Geilw ef am y nefoedd fry,
a 'r ddaear obry iſom,
I gael barnu ei bobloedd ef:
fel hyn rhydd lef am danom:

5 O ceſglwch attaf fi fy ſaint,
y rhai, trwy ryddfraint brydferth,
A wnaethant ammod âmyfi,
a 'i rhwymo hi trwy aberth.

6 A phan ddangoſo mintai nef,
ei farnau ef fydd unjon:
Can's Duw a farna bawb ei hun,
yr unig Un ſydd gyfion.

SAL. xi.

6 Ar bechadurjaid marwor tân
a brwmſtan a ddaw 'n gawod,
A gwynt tymheſtlog uchel jawn,
i roi tâl llawn am bechod.

SAL. xxi.

8 A thydi, Arglwydd, â 'th law lân,
cai allan dy elynjon:
Rhag dy ddeheulaw (er a wnânt)
ni ddiangant dy gaſeion.

9 Di a 'u goſodi 'n nydd dy ddîg
fel ffwrnais ffyrnig danllyd:
Yr Arglwydd i 'w lîd a 'u difa,
a 'r tân a 'u hyſa 'n enbyd.

SAL. lxii.

12 O Arglwydd! ti heſyd a fêdd
drugaredd a dajoni:
I bawb, dan gwmpas wybren faith,
yn ôl eu gwaith y teli.

ADNONAU o SAL. L. ac eraill.

Yn dangos Cyflwr echrydus Rhagrithwyr a drwg Ddynjon; ond y bydd Gorfoledd i 'r Duwjol.

16 WRTH yr enwir dywaid Duw hyn;
Ai 'ti perthyn fy neddfau?

Pa ham y cym'ri di na 'm clôd
na 'm hammod yn dy enau?

17 Can's câs fu genyt ti jawn ddyſg,
ac addvſg ni chymmeraiſt:
A'm geirjau i (fel araith ffôl)
i gŷd o 'th ôl a deflaiſt.

SAL. lii.

3 Ni hoffaiſt dda, gwnait ddrwg yn hawſ,
a 'r traws yn fwy nâ 'r unjon:
4 Hoffaiſt eirjau diſtryw a bâr,
ti elyn twyllgar, creulon.

5 Duw a 'th ddiſtrywja dithau byth;
ſe dyn dy chwyth o 'th gaban:
Ac a dyn dy wrâidd di i gŷd
o dîr y bywyd allan.

7 Gwelwch y gŵr ni rodd yn ddwys
ar Dduw na 'i bwys na 'i oglud:
Ond ar ddrygjoni yn rhoi nerth,
a rhif a gwerth ei olud.

SAL. lv.

23 Terfyſg angau arnaw a ddêl,
i 'r pwll yr êl yn lledfyw:
Can's ym mherfedd ei gartreff cau
nid oes ond angau diſtryw.

SAL. lxxv.

8 Can's yn llaw 'r Arglwydd phiol ſydd,
cymmyſgwin prudd ſydd ynddi:
Fe dywallt hon; drwg ddynjon byd
yfant i gŷd o honi.

SAL. lxviii.

3 Ond llawenycher gér bron Duw
y cyfion, i 'w orfoledd:
A'u hyfrydwch hwynthwy a fydd
yn llawenydd cyfannedd.

SAL.

SAL. l.

23 Gwrandêwch: a pheidiwch tra foch byw
a gollwng Duw yn ango',
Pan ni bo neb i 'ch gwared chwi,
rhag ofn i mi eich rhwygo.

ADNODAU o SAL. LI.

Yn cynnwys Cyffes a Gweddi 'r Edifeiriol.

1 TRugaredd dôd i mi,
Duw, o 'th ddajoni tyner:
Ymaith tyn fy enwiredd mau
o 'th drugareddau lawer.

2 A golch fi yn llwyr ddwys
odd' wrth fawr bwys fy meiau:
Fy Arglwydd, gwnâ 'n bur lân fyfi
rhag brynti fy nghamweddau.

3 Can's adwain fy nghamwêdd,
a 'm brwnt anwiredd yfig:
Sef beunydd maent gar fy mron i.
4 Yn d' erbyn di yn unig

Y gwneuthym hyn oedd ddrwg,
yn dy lân olwg diſtrych:
Fel y 'th gyfiowner, yn ôl d' air,
yn burair pan y bernych.

5 Mewn pechod llunjwyd fi,
ac mewn drygjoni dygas:
Felly yr wyf, o grôth fy mam,
yn byw bob cam yn atgas.

7 Ag iſop golch fi 'n lân,
ni byddaf aflan mwyach:
Byddaf fi, o 'm golchi fal hyn,
fel eira gwyn, neu wynnach.

8 Pâr i mi weled hêdd,
gorfoledd, a llawenydd:
I adnewyddu f' eſgyrn i,
a ddrylljaiſt di â cherydd.

9 O cuddja d'wyneb prŷd,
rhag fy mhechodau i gŷd:
Fy anwireddau tyn eu lliw,
O Arglwydd, bid gwiw gennyd!

10 Duw, crea gàlon bur,
dôd i mi gyſſur beunydd:
I fyw yn well tra fwy 'n y byd,
dôd ynof yſbryd newydd.

ADNODAU detholedig o SAL. LV. ac eraill.

Yn cynnwys Ymbiliau am Gyſſur dan Ofidiau blîn.

1 O DDUW! gwrando fy ngweddi brudd,
nac ymgudd rhag fy nghwynfan:
2 Erglyw a gwŷl fy ngwael yſtâd,
a llais fy nâd a 'm tuchan.

4 Fy ngofid ſydd yn treuljo f' oes,
fel angau loes yw 'ngwaſgfa:
5 Ofn ſydd arnaf, ac arſwyd caeth,
a dychryn ddaeth ar f' ucha'.

6 Gan ofn y d'wedwn yn fy nghri,
Gwae fi am eſgyll c'lommen:
Yna 'r ehedwn i le rhŷdd,
i gael im' lonydd amgen.

16 Ond mi weddiaf ar Dduw byw,
yr hwn a 'm clyw mewn amſer,
17 Hwyr a borau, a chanol dydd;
a hyn a fydd trwy daerder.

SAL.

SAL. lxx.

1 Duw, pryſura i 'm gwared i ;
Jôn, bryſia di i 'm cymmorth :
2 Gwarth a gwradwydd a ddaw i 'r blaid
a gais i 'm henaid ammorth.

4 Y ſawl a 'th gais, calonnog fydd,
o dra llawenydd ynod :
D'weded y ſawl a 'th gâr di, Nêr,
Mawryger ein Duw hynod.

5 Minnau 'n dlawd ac yn druan ſydd ;
Duw, bryſia, bydd yn agos :
Fy mhorth a 'm ceidwad wyt yn wîr ;
(O Arglwydd !) na hîr aros.

SAL. xcvii.

11 Mewn daear yr egina 'r hâd ;
goleuad ddaw i 'r cyſion :
Yn ôl triſtwch ſe dry y rhôd
i 'r lân gydwybod unjon.

SAL. cxxvi.

6 Y rhai ſy 'n hau mewn dagrau blîn,
hwynthwy dan chwerthin medant :
Felly, f'Arglwydd, dan droi y byd,
dwg ni i gŷd i 'r meddjant.

SAL. xlii.

9 Pa ham y 'm gedyt dros gôf c'ŷd ?
Duw, wrthyd yr achwynaf :
Er gorthrymder y gelyn cam
mewn galar pa 'm y rhodiaf ?

ADNODAU O SAL. LVII. ac eraill.

Yn cynnwys Ymbiliau 'r Duwjol, o blegid eu Trallod, a Malais eu Gelynjon.

1 DY râs, dy nawdd (fy Nuw) ym' dôd,
can's ynod ymddiriedaf:
Nes myned heibio 'r aflwydd hyn
dan d' edyn ymgyſgodaf.

2 Ymddiried f' enaid ar Dduw ſydd;
ar Dduw, trwy ffydd, y galwaf:
Ac a gwblhâf ei air yn jawn;
can's cyfiawn yw 'r Goruchaf.

3 O 'r nef yr enfyn geidwad ym',
rhag nerth dŷn llym a 'm llyngcai:
Enfyn fy Nuw ei nawdd, a 'i hêdd,
a 'i lân wirjonedd didrai.

4 Ym myſg y llewod mae fy oes,
plant dynjon poethfoes eirjau:
Eu dannedd ſydd yn llym fel faeth,
a 'u tafod gwaeth nâ 'r cleddau.

SAL. lix.

8 Ond tydi, fy Arglwydd a 'm Duw,
a 'u gwêl, a 'u clyw, a 'u gwatwar:
Am ben eu gwaith y chwerddi di,
y cenhedlaethi twyllgar.

12 Am bechod eu tafodau hwy,
a 'u geirjau 'n chwydd o falchedd,
Duw dâl iddynt; ni rônt air têg,
ond celwydd, rhêg, a choegedd.

SAL. lx.

5 Ond fe waredir, trwy lân hwyl,
bob rhai o 'th anwyl weiſon:
O achub hwynt â 'th law ddeau,
a gwrando finnau 'n ffyddlon!

ADNODAU

Adnodau o SAL. LXI. a LVI.

Yn cynnwys Gweddi a Diolch y Duwjol am Ymwared oddi wrth eu Gelynjon.

1 ERglyw (O Dduw!) fy llefain i,
ac ar fy ngweddi gwrando:
2 Rhof lef o eitha 'r ddaear gron,
a 'm càlon yn och'neidjo.

Dwg fi i dalgraig uwch nâ mi,
ac iddi bydd i 'm derbyn:
3 Can's craig o obaith, tŵr difôſt,
im' fuoſt rhag y gelyn.

4 O fewn dy babell y bydd byth
fy nhrigfan dilyth dedwydd:
A'm holl ymddiried a fyn fod
yng nghyſgod dy adenydd.

5 Can's ti, O Dduw! glywaiſt yn glau
fy addunedau puraidd:
Rhoiſt etifeddjaeth i bob rhai
a ofnai d' Enw ſanctaidd.

Sal. lvi.

9 Y dydd y llefwyf, gwn yn wîr
dychwelir fy ngelynjon:
Am fod drofof fy Nuw â 'i law,
mi wn y daw yn unjon.

10 Gorfoleddaf yng ngair fy Nuw;
gair f'Arglwydd byw a folaf:
11 Yn Nuw y rhof ymddiried ſiwr;
beth a wnêl gŵr nid ofnaf.

12 O Dduw! mae arnaf fi yn ddlêd
lawer adduned ffyddlon:
Ac mi a 'u talaf hwynt yn rhwydd
i ti, fy Arglwydd cyſion.

Adnodau o SAL. LXII.

Am Hyder a Chyſſur yn Nuw dan Gyſtudd a Gorthrymder.

1 FY unig Dduw ydyw fy mhlaid,
mae f' enaid yn ei ddiſgwyl:
O honaw ef, a thrwy ei rym,
daw jechyd ym' o 'm hanhwyl.

3 Caſeion f' enaid ſy 'n parhâu
i fwrw maglau aflwydd:
Ebrwydd y ſyrthjant hwy yn llwyr
fel magwyr ar ei gogwydd.

4 Dych'mygant dwyll ac anwir mawr,
i dynnu 'lawr f' anrhydedd:
Ar eu tafodau rhoi bendith,
a melldith dan eu dannedd.

5 Fy enaid, dôd (er hyn i gŷd)
ar Dduw dy fryd yn ddyfal:
Ynddo gobeithja fi er hyn,
efo a 'm tyn o 'm gofal.

6 Can's craig amddiffyn yw ef ym',
fy nhŵr, a grym fy mywyd:
Am hyn y credaf fi yn wîr
na 'm mawr yſgogir ennyd.

7 Yn Nuw yn unig mae i gŷd
fy jechyd, a 'm gogoniant:
Fy nghraig yw, a 'm cadernid maith,
a 'm gobaith, yn ddilyſiant.

8 Gobeithjwch ynddo; ger ei fron
tywelltwch gàlon berffaith:
Ac yn ddiriedwch tra foch byw,
a d'wedwch, Duw yw 'n gobaith.

Rhan

Rhan o SAL. LXIII.

Yn mynegi Hiraeth y Duwjol am Dduw mewn Cyflwr anghyſſurus, a 'r Hyfrydwch ſydd yng Nghariad Duw.

1 TYDI, O Dduw! yw y Duw mau,
mi geiſia 'n forau attad:
Y mae fy enaid yn dra ſych,
a 'm cnawd mewn nych, am danad.

2 Mewn lle heb ddwfr, mewn crinder crâs,
ceiſiais, o 'th râs, dy weled,
Fel y 'th gwelſwn yn y deml gynt,
ar helynt nerth gogoned.

3 Can's dy drugaredd (O Dduw byw!)
llawer gwell yw nâ 'r bywyd:
A 'm gwefuſau y rhof it' fawl,
a cherdd ogonawl hyfryd.

4 Felly tra fwyf fi byw y gwnâf,
ac felly 'th folaf etto:
Ac yn dy Enw di, ſydd gu,
y câf ddyrchafu 'nwylo.

5 Digonir f' enaid fel â mêr,
a chyflawn fraſder hefyd:
A 'm genau gân y moliant tau
â phur wefuſau hyfryd.

6 Tra wyf fi yn ſy ngwely clŷd
dôd yn fy mrŷd dy gofio:
Ac yng ngwiliadwrjaethau 'r nôs
dôd achos im' fyfyrio.

7 Ac am dy fod yn gymmorth ym',
trwy fawr rym dy drugaredd,
Fy holl orfoledd a gais fod
dan gyſgod dy adanedd.

Rhan

Rhan o SAL. LXV.

Mawl i Dduw yn ei Eglwys, am ei fawr Ddajoni-i 'w Bobl.

1 ITI (O Dduw!) y gweddai mawl
yn y ſanctteiddjawl Sïon:
I ti y telir, trwy holl grêd,
bob gwîr adduned càlon.

2 Pawb ſydd yn pwyſo attad di,
a wrendy weddi doſtur:
Ac attad di y daw pob cnawd,
er mwyn gollyngdawd llafur.

3 Pethau trawſion, a geirjau mawr,
myfi i 'r llawr bwriaſant:
Ond tydi, Dduw, rhoi am gamwedd
drugaredd a maddeuant.

4 Dy etholedig dedwydd yw,
caiff neſnes tyw i 'th babell:
Trîg i 'th gynteddau, ac i 'th lŷs,
a 'th ſanctaidd weddus gangell.

5 Duw 'n Ceidwad, ti a 'n dyſgi ni
i 'th ofni yn gyfiownedd:
Holl obaith wyd trwy 'r ddaear hon,
a 'r môr cynhyrſdon rhyfedd.

Rhan o SAL. LXV. a CV.

Yn cynnwys Diolchgarwch i Dduw, am wlawio ar y Ddaear, i 'w dyfrhâu a 'i ffrwythloni.

8 HOLL breſwylwyr eithafoedd byd
ſy 'n ofni 'gŷd d' arwyddjon:
I ti, gan forau a chan hwyr,
y canant laſwyr ffyddlon.

9 Dyſr-

9 Dyfrhâu y ddaear ſech yr wyd,
y gwlaw dywalldwyd droſti:
Darperaiſt liſddwfr 'r hŷd ei llawr,
i 'w thramawr gyfoethogi.

SAL. CV.

41 Pan rôech di 'r gair, daw 'r dwfr yn llîf
i chwyddo 'r prîf afonydd:
Yn ôl dy air y rhoddir gwlych
i bob lle ſych o 'r gwledydd.

SAL. lxv.

10 Pob rhych yr wyd yn ei ddyfrhâu,
a 'i chŵyſau 'r wyd i 'w goſtwng:
Frwythlonaiſt hi â chafod wlith,
i 'w chnwd rhoiſt fendith deilwng,

11 Coroni 'r ydwyd ti ſal hyn
y flwyddyn â 'th ddajoni:
Y ffordd hyn a 'r modd (Duw ſy Nêr)
diferaiſt fraſder arni.

12 Ti ſy 'n diſeru ffrwyth dy ſerch
ar bob rhyw lannerch ddyrys:
Pob mynydd ſydd yn uchder gwlâd
o ffrwyth dy râd a ddengys.

13 Trwy dy fendith y gwaſtad dîr
a guddir oll â defaid:
Crechwenant, canant bawb ynghŷd,
a 'r wlâd ag ŷd ei llonaid.

RHAN O SAL. LXVI.

Yn annog i lawenychu yn Nuw, a 'i foli, o herwydd ei Allu a 'i Weithredoedd rhyfedd ar ran ei Bobl.

1 Yn

1 YN Nuw ymlawenhêwch i gŷd
yr hollfyd, a dadgenwch
2 Ogoniant 'i Enw hyd y nef,
a'i foliant ef a draethwch.

3 Wrth Dduw d'wedwch, Fe bair dy law
i 'th elyn oerfraw anfad :
Rhag amled yw nerth y llaw hon,
â dy gaſeion danad.

4 Felly 'r holl fyd i gŷd a 'u rhi
i ti a ymoſtyngant :
Canant it' fawl, ac ânt hyd lawr ;
i 'th Enw mawr y canant.

5 O dowch, edrychwch ofnus yw
gweithredoedd ein Duw cyfion :
Ofn ei weithredoedd a rydd ddyſg
ym myſg holl feibjon dynjon.

6 Fe droes y môr Coch yn dîr ſych,
ai 'i wŷr yn droedſych trwyddo,
A thrwy yr afon : llawen fu
eu bod heb wlychu yno.

7 Ef byth bydd Lywydd cadarn gwych,
a 'i olwg edrych beunydd
Ar y cenhedloedd trwy'r holl fyd ;
ni chyfyd rhai anufudd.

8 O bobloedd, molwch Dduw ar gais,
a moeſwch lais ei foliant :
9 Hwn ſy 'n dal bywyd yn y gwaed,
a ddeil ein traed na lithrant.

S A L. LXVII.

Yn cynnwys Gweddi am Fendith Duw, a Mawl am ei Lywodraeth ef.

1 Tru-

1 TRugaredd Duw i 'n plîth,
a rhôed ei fendith drosom:
A thywynned ei wyneb prŷd,
a 'i nawdd, a 'i jechyd, arnom.

2 Fel y gwypper dy ffyrdd
trwy 'r ddaear gydwyrdd gnydoedd:
A'th jachawdwrjaeth di (O Dduw!)
ym mysg pob rhyw genhedloedd.

3 Duw, moled pobloedd di;
rhônt fawl a brî trwy 'r hollfyd:
4 A'r holl genhedloedd îs wybren
byddant lawen a hyfryd.

Can's ti a ferni 'n jawn
y bobl trwy lawn wybodaeth:
Ac a roi 'r holl genhedloedd ar
y ddaear mewn llywodraeth.

5 Duw, moled pobloedd di;
rhônt fawl a brî trwy 'r hollfyd:
6 Yna rhydd y tîr ffrwyth i 'n plîth,
a Duw ei fendith hefyd.

7 A Duw, sef Duw ein Tâd,
a rotho 'i râd a thycciant:
A therfynau y ddaear gron,
a phawb ar hon, a 'i hofnant.

Adnodau o SAL. LXVIII.

Yn cynnwys Clôd am Ddajoni Duw, a Donjau 'r Prynedigaeth.

4 CEnwch, a molwch Enw Duw,
yr hwn yw 'n uwch nâ 'r nefoedd
Yn marchogaeth, megis ar farch;
rhowch iddo barch byth bythoedd.

5 A gorfoleddwch gar ei fron,
Duw tirion, Tâd amddifaid:
Ac i 'r gweddwon mae 'n Farnwr da
yn ei breſwylfa gannaid.

18 I 'r uchelder y dyrchefaiſt,
a chaethgludaiſt gaethiwed:
Darperaiſt, dodaiſt ddonjau, Jôn,
i ddynjon oedd wargaled.

19 Bendigaid fyth fo 'r Arglwydd mau
am ddonjau ei ddaioni:
A'i jachawdwrjaeth i ni 'n llwyth
o bêrffrwyth ei haeljoni.

20 Efe ei hun yw 'n Duw ni i gŷd,
ſef Duw ein jechyd helaeth:
Trwy 'r Arglwydd Dduw cawn yn ddiſwrth
ddiangc odd' wrth farwolaeth.

28 Dy Dduw a drefnodd i ni nerth,
a 'i law fydd brydferth geidwad:
Duw, cadarnhâ etto yn faith
arnom ni waith dy gariad.

32 Holl deyrnaſoedd y ddaear lawr
i Dduw mawr cenwch foliant:
Cenwch, cenwch ei glôd yn rhwydd;
ſef, Arglwydd y gogoniant.

Adnodau o SAL. LXIX.

Yn cynnwys taer Weddi 'r Duwjol o blegid eu Herlidwyr.

1 A Chub fi, Dduw (y Duw a 'm gwnaeth),
dros f' enaid daeth llifddyfroes:
Yr wyf mewn dyfnder tom ynglŷn,
heb le i 'mddiffyn f' einioes.

4 A hyn wrth ddiſgwyl Duw a'i tâs;
wele fy nghâs yn amlach
Nâ 'r gwallt ar ben fy nghoppa fry,
a 'r trawſion ſy 'n gadarnach.

7 (Duw Iſraël) ſef er dy fwyn
yr wyf yn dwyn gwarthrudd-deb:
A thrwy gywilydd ymarhôis,
mewn chwŷs y tôis fy wyneb.

8 Heb gâr, fel alltud wyf (gwn pa'm)
i blant fy mam yn eſtron:
9 Am fod fy ſerch a' m zêl i'th dŷ
i 'm hyſu hyd fy nghàlon.

13 Ond, f' Arglwydd Dduw, gwnâf attad ti
fy ngweddi yn amſerol:
O gwrando fi, o 'th wirfawr hêdd,
ac o 'th wirjonedd graſol!

16 Gwrando fi bellach, Arglwydd Dduw,
can's da yw dy drugaredd:
Yn amlder dy doſturi mawr
edrych i lawr rhag trawſedd.

17 O 'm cyfyngder odd' wrth dy wâs
na chudd mo râs dy wyneb:
'Rwyf yn gweddio yn fy ngloes;
Duw, bryſia, moes im' atteb.

29 Can's pan yr wyf ofidus wan,
a phan wyf druan hefyd:
Dy jachawdwrjaeth di (O Dduw!)
eilchwyl i fyw a'm cyfyd.

30 Moliannaf d' Enw, Dduw, ar gân;
fel dyna f'amcan innau:
31 A hynny fydd gwell gan Dduw deyrn
nag ŷch â chyrn a charnau.

32 A phob truan, pan weler hyn,
a ennyn o lawenydd:
A'ch càlon chwi ſy 'n ceiſio Duw,
cyfyd i fyw o newydd.

Adnodau o SAL. LXXI.

Gweddi a Myfyrdod hên Ddiſgybl.

1 MI ymddiriedais ynod, Nêr,
na'm gwradwydder byth bythoedd:
2 Duw, o 'th gyfiawnder gwared fi,
a chlyw fy nghri hyd nefoedd.

3 Duw, bydd yn graig o nerth i mi
i gyrchu atti 'n waſtad:
A phâr fy nghadw i yn well;
ti yw fy nghaſtell caead.

4 Duw, gwared fi o law 'r trahâus,
a 'r gŵr trofâus, a 'r trawſddyn:
5 Ynot ti, Dduw, bu 'ngolud maith,
a'm gobaith, er yn grynddyn.

6 O grôth fy mam y tynnaiſt fi;
rhoiſt ynof egni etto:
I tithau byth, am hyn o hawl,
y canaf fawl heb beidio.

9 Nac eſgeuluſa fi, na'm braint,
yn amſer henaint truan:
Er pallu nerth, na wrthod fi;
Duw, edrych di ar f'oedran.

14 Canys fy ngobaith a ſaif byth
yn ddilyth a ſafadwy:
Ymddiried ynot, Dduw, a wnâf,
ac a'th foliannaf fwyfwy.

16 Yng nghadernid yr Arglwydd Dduw,
tra fwyf fi byw, y credaf:

A'th gyfiawnder di hyd y brîg,
yn unig hyn a gofiaf.

17 Duw, di a ddyſgaiſt i mi hyn,
do, er yn blentyn bychan:
A hyd yn hyn 'r wyf yn parhâu
i oſod d' wyrthjau allan,

18 O Dduw! na wrthod fi yn hên,
a'm pen a'm gên yn llwydo:
Nes im' ddangos i 'r rhai ſy 'n ôl
dy wyrthjau nerthol etto.

19 Dy gyfiawnder yn uchel aeth,
yr hwn a wnaeth bob mawredd:
Duw, pwy y ſydd debyg i ti?
nid ydym ni ond gwagedd.

Adnodau o SAL. LXXIV. a LXXXV.

Yn cynnwys Ymbiliau 'r Duwjol, pan fo Cyſſuron Duw ynghûdd oddi wrthynt.

1 PA ham (O Dduw!) odd' wrthym ni
y cili yn dragywydd?
Pa ham y digi mor danbaid
wrth ddefaid dy borfëydd?

2 Cofia dy bobl a brynaiſt gynt;
rhoiſt iddynt etifeddjaeth:
Mynydd Sion, dy breſwylfa,
i 'r rhai 'n yn drigfa helaeth.

SAL. lxxxv.

5 Ai byth y digi wrthym ni?
a ſorri di hyd ddiwedd?
A ſaif dy lîd o oes i oes?
Duw, gwrando, moes drugaredd.

6 Pa'm? oni throi di, a'n bywhâu,
a llawenhâu yr eiddod?

7 O dangos in' dy nawdd mewn pryd!
felly cawn jechyd ynod.

9 I 'r rai a ofnant Arglwydd nef,
mae 'i jechyd ef yn agos:
Felly y caiff gogoniant hîr
o fewn ein tîr ni aros.

Adnodau o SAL. LXXV. a LXXII.

Yn cynnwys Mawl am Grist, a Donjau 'r Prynedigaeth.

1 CLodforwn ni ein Criſt a'n Duw,
ei Enw yw yn agos:
Faint yw ei fawl, a nerth ei hynt,
ei wyrthjau ynt yn dangos.

Sal. lxxii.

3 Hêdd a chyfiawnder, yn ôl hyn,
cair ym mhob bryn a mynydd:
4 Y gwan a'r lleſg achub a wnâ;
Fe ddryllja y gorthrymmydd.

5 Hwy a'th folant byth ar bob tro,
tra treiglo haul a lleuad:
6 Fe ddiſgyn grâs fel gwlaw ar lâs,
neu gafod frâs ar waſtad.

7 Trwy Griſt y 'n dygir ni i 'r jawn,
a'r cyfiawn a flodeua:
Ei hêdd a dan dros ddaear gron
tra fo 'r lloer hon yn para.

11 Brenhinoedd byd a ddônt yn llu,
a than ymgrymmu, atto:
A'r holl genhedloedd, fel yn gaeth,
a wnânt wafanaeth iddo.

12 Can's y dŷn rheidus, a'r gŵr gwan,
Fe 'i gweryd pan weddio:

Bydd i bob dŷn yn nerthol dŵr
a'r ni bo pleidjwr gantho.

13 Ef a erbyd y tlawd wrth raid;
fe achub enaid glanddyn:
14 Ef a'u gweryd rhag twyll a drwg;
gwerthfawr i 'w olwg ydyn.

17 O's haul cylch wybren byth a dry,
byth pery Enw iddo:
Pawb a'i bendithja ef yn wîr;
pawb a fendithir ynddo.

18 Bendigaid fo yr Arglwydd Dduw,
(ſef Duw yr Iſrael dirjon)
Fe 'n unig byth ſydd yn parhâu
i wneuthur gwyrthjau mawrjon.

19 Bendigaid fytho 'i Enw byth,
gogonedd dilyth iddo:
A 'i glôd llenwïr y ddaearen.
Amen, Amen, hyn fytho.

Rhan o SAL. LXXVII.

Yn cynnwys Atgoffa diolchgar o Ddajoni Duw yn amſer Trallod.

1 FY llais at Dduw, pan roddais lef,
fy llais o 'r nef fe 'i clybu:
A 'm llais gweddiais ar Dduw Nêr
pan oedd blinder yn tarddu.

2 Y dydd y rhedai 'mriw, a'r nôs
ni pheidjai, 'achos llafur:
Mewn blîn gyfyngder gwn fy mod,
a'm hoes yn gwrthod cyſſur.

3 Yna y cofiwn Dduw, a'i glôd,
pan ſyrthjai drallod enbyd:

Yna gweddiwn dros fy mai,
pan derfyſgai fy yſbryd.

4 Tra fawn yn effro, ac mewn sàn,
heb allel allan dd'wedyd:
5 Yſtyrjais yna'r dyddjau gynt,
a'r helynt hên o'r cynfyd.

6 Cofiwn fy ngherdd y nôs fy hun;
heb gael amrant hun, chwiliwn:
A chàlon effro, genau mûd,
â 'm hyſbryd ymddiddanwn;

7 Ai 'n dragywydd y cilja'r Jôn?
a fydd ef boddlon mwyach?
8 A ddarfu byth ei nawdd a'i air?
a gair ei 'ddewid bellach?

9 A anghofiodd Duw drugarhâu?
a ddarfu cau ei gàlon?
A baid efe byth (dywedwn i)
fal hyn â ſorri 'n ddigllon?

10 Marwolaeth im' yw 'r meddwl hwn;
a throis yn grwn i gofio
Ei fawr nerth gynt: a chofio wnâf
waith y Goruchaf etto.

13 O Dduw! pa Dduw ſydd fel ti, Dduw?
dy ffordd di yw 'n ſanctteiddjol:
14 Dy waith 'ddengys dy nerth i'r byd;
pair in' i gŷd dy ganmol.

Adnodau o SAL. LXXVIII.

Am hyfforddi a chateceiſio Plant.

5 GOrch'mynnodd Duw ei hun, fod côf
yn Jagof: ac i 'r hynaf
Yn Iſraël ddyſgu i 'w blant
ogoniant y Goruchaf.

6 Fel

6 Fel y gwyppyd, o oes i oes,
y rhoes ef ei dyſtjolaeth,
O dâd i ſâb, o ſâb i ŵyr,
i gadw llwyr wybodaeth.

7 Adnabod Duw, a dyſgu 'i waith,
ſydd ddyled maith a buddjol:
I gofio Duw a'i orchymmyn,
rhoes Duw 'r wers hyn yn rheidjol.

8 Rhag myned o'r genhedlaeth hyn
yn gyndyn ac anufudd:
A chàlon wan, ac yſbryd gwael,
heb afael gyd â 'u Llywydd.

Adnodau o SAL. LXXIX. a LXXX.

Yn cynnwys Ymbiliau taer am Faddeuant a Chymmorth Duw.

8 NA chofia gamwedd gynt i 'n hoes;
Duw, bryſia, moes drugaredd:
Dy nodded a'n rhagflaeno ni,
ſy mewn trueni 'n gorwedd.

9 O Dduw ein jechyd! cymmorth ni,
er mwyn dy fri gogonol:
Gwared, er mwyn dy Enw tau,
ni rhag pechodau marwol.

11 Duw, doed ochenaid gar dy fron
dy garcharorjon rhygaeth:
Ac yn dy ddirfawr ogoniant
amddiffyn blant marwolaeth.

13 Ninnau, dy bobl a'th ddefaid mân,
a wnawn it' gân ogonawl,
O oes i oes byth i barhâu,
ac i 'th fawrhâu 'n drag'wyddawl.

SAL. lxxx.

18 Tros Griſt tra rhoddych di dy law,
odd' wrthaw ni ddychwelwn:
O Dduw! deffrô, a bywhâ ni;
ar d' Enw di y galwn.

19 Dadymchwel di nyni i fyw,
O Arglwydd Dduw y lluoedd!
Tywynna arnom d' wyneb prŷd,
ſel 'caffom jechyd bythoedd.

ADNODAU o SAL. LXXXIV.

Yn mynegi mor hyfryd yw Tŷ ac Addoliad Duw i 'r Duwjol.

1 DY babell di mor hyfryd yw,
(O Arglwydd Dduw y lluoedd!)
2 Mynych chwennychais weled hon,
rhag mor dra thirion ydoedd.

Mae f' enaid i (fy Jôn) mewn blŷs
i 'th gyſſegr lŷs 'dueddu:
Fy nghàlon i, a'm holl gnawd, yw
yn Nuw byw 'n gorfoleddu.

4 Gwyn fyd y neb a drîg i 'th dŷ,
caiff dy foliannu ddigon:
5 Ac ynot ti ſy 'n cadarnhâu,
a'th lwybrau yn eu càlon.

6 Pe rhôn a gorfod ar y rhai'n
'rhŷd glyn wylofain dramwy:
Goſodant ffynnon iddyn nhw,
a'r gwlaw a leinw fwyſwy.

7 A'nt rhagddynt bawb o nerth i nerth,
nes cael yn brydferth ddyſod
I 'mddangos i Dduw gar ei fron
yn Sïon ei breſwylfod.

10 Gwell

10 Gwell yw nâ mîl un dydd i 'th dŷ:
am hynny mwy dewiſol
Im' fod ar riniog y drws tau
nâ phlaſau yr annuwjol.

11 Sef. haul a tharian yw Duw mâd,
a rydd râd a gogoniant:
Nid attal ef ddaioni maith
i'r rhai a berffaith rodiant.

12 O Arglwydd Dduw y lluoedd mawr!
anfon i lawr dy gymmod:
Dedwydd yw 'r dŷn a rotho 'i grêd,
a'i holl ymddiried, ynod.

Adnodau o SAL. LXXXV.

Mawl am Heddwch Duw, a Maddeuant Pechod.

1 DAwyd i'th dîr (Jehofah Nêr)
dychwelaiſt gaethder Jago:
2 Maddeuaiſt droſedd dy blant di;
mae 'u camwedd wedi'i guddjo.

3 Tynnaiſt dy lîd odd' arnom ni;
troiſt dy ddigiloni awchlym:
4 O Dduw ein nerth! tro ninnau 'n well,
a'th lîd bydd bell odd' wrthym.

9 I'r rhai a ofnant Arglwydd nef
mae 'i jechyd ef yn agos:
Felly y caiff gogoniant hîr
o fewn ein tîr ni aros.

13 Unjondeb oedd o flaen Duw nef,
a'r cyfion ef' aed rhagddo:
A Duw a rodia yn ei waith,
fel i'r un daith ag efo.

Rhan o SAL. LXXXVI.

Yn cynnwys taer Ymbiliau 'r Duwjol, yn pleidio â Duw am Gymmorth o herwydd ei Ddajoni.

1 GOſtwng, O Arglwydd! y gluſt dau,
clyw fy ngweddiau trymion:
Gwrando fi, ſy druan a thlawd,
o'th barawd drugareddjon.

2 Cadw fy oes, can's truan wy',
ac itti 'r ydwy 'n credu:
Duw, bydd Achubwr da i 'th wâs;
o'th râs tyr'd i 'm gwaredu.

3 Trugarhâ wrthyf, Arglwydd mâd,
can's arnad llefa 'n ddibaid:
4 Einioes dy wâs, Duw, llawenhâ,
can's attad coda f' enaid.

5 Can's ti, O Arglwydd! ydwyd dda
i 'th bobloedd a thrugarog:
I 'r rhai a alwant arnat ti
mae dy ddajoni 'n bleidjog.

6 O Arglwydd! clyw fy llais mor llym,
fy ngweddi y 'm myfyrdod:
7 Clywï fy llais, gweli fy nghlwyf,
y dydd y bwyf i 'm trallod.

8 Ym myſg y duwjau nid oes un
fel tydi, Gûn gogoned:
Ym myſg gweithredoedd cymmain un
nid oes yr un un weithred.

10 Can's tydi ydwyd fawr a phur,
yn gwneuthur rhyfeddodau:
A thydi 'n unig ydwyd Dduw;
ni cheiſiwn amryw dduwjau.

11 Dyſg

11 Dyſg i mi dy ffordd (O Arglwydd !)
câf yn rhwydd dy wirjonedd :
Gwnâ fy nghàlon yn un â thi,
ac ofnaf fi dy Fawredd.

13 Can's mawr jawn yw 'th drugaredd di
t'ag attaf fi yn barod :
Gwaredaiſt f' einioes i o'r bedd,
ac o'r gorddyfnedd iſod.

ADNODAU o SAL. LXXXVII. ac eraill.
Am Odidowgrwydd Eglwys Duw, i 'n cymmell i foli Duw am dani.

1 SEilfeini hon (ſef Sïon) ſydd
ar gyſſegr fynydd ucho' :
2 Ac ar dy byrth rhoes Duw ei ſerch
uwch pob triglannerch Jago.

3 Oddinas Duw, preſwylfa'r Jôn !
mawr ydyw 'r sôn am danad :
A gogoneddus air it' ſydd
uwch trigfennydd yr hollwlad.

5 Can's d'wedir hyn am Sïon bêr,
Fe aned llawer ynddi,
Nid ambell un : can's ſwccwr da
yw Duw Gorucha' iddi.

7 Cantor tafod, a cherddor tant,
pob rhai it' canant ſawrglod :
A thrwy lawenydd mae' n parhâu
fy holl ffynhonnau ynod.

SAL. xcii.

13 Y rhai a blannwyd yn nhŷ Dduw,
yn goedwydd byw y tyfant :
Ac yng nghynteddau ein Duw ni
y rheini a flodeuant.

14 A dwyn eu ffrwyth a wnânt o faint
yn amſer henaint etto:
Tirfion, iraidd, a phrofadwy,
a fyddant hwy yn hiljo.

SAL. lii.

8 Minnau, fel oliwydden werdd
yn nhŷ Dduw, cerdd a ganaf:
Ymddiriedaf iddo yn hawdd,
byth dan ei nawdd y byddaf.

9 Mi a'th glodforaf, Arglwydd, byth,
tr'o ynof chwyth yn waſtad:
Da yw dangos ger bron dy ſaint
d' Enw, a maint dy gariad.

SAL. lxxx.

14 O Dduw y lluoedd! edrych, gwel,
a dychwel i amg'leddu
Dy eglwys hon a blennaiſt di:
rho'th fendith i chynhyddu!

ADNODAU o SAL. LXXXVIII. ac eraill.

Yn cynnwys taer Lef y Duwjol am Gymmorth Duw mewn Cyflwr blîn ymron marw.

1 O DDUW fy jechyd! nôs a dydd
mae 'ngweddi 'n ufudd arnad:
2 Goſtwng dy gluſt, O Arglwydd nef!
a doed fy llef hyd attad.

3 Can's mae fy enaid mewn dull caeth,
a'm heinioes aeth i 'r beddrod:
4 Fel gŵr marw y rhiſwyd fi,
a'm nerth oedd wedi darfod.

14 Duw, anfon borth yn awr wrth raid
i 'm henaid yn ei drallod;

Pa'm

Pa'm y cuddi dy wyneb prŷd?
fy nghrêd i gŷd ſydd ynod.

15 Truan ymron marwolaeth wyf,
yn dôſt fy nghlwyf o'm jeu'ngctid:
A'th ofni bum mewn cyſtwr gwael,
gan ammau cael mo'r jechyd.

SAL. lxxxix.

46 Pa hŷd, ſy Nuw, y byddi 'nghûdd?
ai byth, ſy Llywydd neſol?
A lŷſg dy lîd ti fel y tân
yn gyſan yn drag'wyddol?

47 O cofia f' oes ei bod yn fèr!
ai'n ofer gynt y gwnaethoſt
Holl blant dynjon? O dal dy law!
ac in' ni ddaw yn rhydoſt.

48 Pa ŵr y ſydd â 'i oes dan sêl,
na ddêl marwolaeth atto?
Pwy a all ddiangc, ac ni ddaw
y gaib a 'r rhaw i 'w guddjo?

SAL. liv.

1 O Dduw! o'th râs cadw fi 'n dda;
nertha fi â 'th gadernid:
2 Duw, clyw fy ngweddi, gwrando 'nghwyn,
a'm lleſ, yn achwyn wrthyd.

ADNODAU o SAL. LXXXIX.

Yn cynnwys Mawl am Drugaredd a Ffyddlondeb DUW.

1 MYfyriaf gerdd, byth i barhâu,
am drugareddau 'r Arglwydd:
Dy glôd, O Dduw! ddadganaf fi,
heb dewi, yn dragywydd.

2 Can's d'wedais hyn ; Cair byth yn wîr,
bydd ſiccir dy drugaredd :
I barhâu byth mae yn y nef
dy gadarn gref wirjonedd.

5 Am dy ffyddlondeb trag'wyddawl
y nef a fawl dy wyrthjau :
Yng ngorſedd ſaint, yng nghyrchfa hêdd,
am bur wirjonedd d'eirjau.

6 Pwy ſydd cyſtal a'n Harglwydd cu,
pe chwilid llu'r wybrennau ?
Ym myſg angyljon pwy fel Jôn,
ſef ym mhlith meibjon duwjau ?

7 Trwy gynnulleidfa ei ſaint ef
Duw'r nef ſydd yn ofnadwy :
A thrwy'r holl fyd o'n hamgylch ni
ei ofni ſydd ddyladwy.

8 Pwy ſydd debyg i ti, Dduw byw,
O Arglwydd Dduw y lluoedd !
Yn gadarn Jôr, a'th wîr i'th gylch
o amgylch yr holl nefoedd ?

13 I'th fraich mae grym, mae nerth i' th law,
a'th gref ddeheulaw codi :
14 Nawdd a barn yw dy orſedd hîr ;
can's nawdd a gwîr a geri.

15 Eu gwynfyd i'r holl bobl a ſydd
a fo'u llawenydd ynod :
Ac yn llewyrch dy wyneb glân
y rhodian' i'th gyfarfod.

16 I'th Enw, O Dduw ! y canant
fawl a gogoniant beunydd :
Yn dy gyfiawnder codi wnânt,
ac felly byddant ddedwydd.

52 Moler yr Arglwydd byth, Amen,
a byth Amen, hyn fytho:
Moler yr Arglwydd byth, Amen,
a byth Amen, hyn fytho.

Adnodau eraill o SAL. LXXXIX.

Am Gymmorth dajonus Duw, a Ffyddlondeb ei Gyfammod â ni yng Nghrist.

18 O'R Arglwydd Dduw, a'i ddajoni,
y daw i ni amddiffin:
O'th gariad di, a thrwy law gref,
daeth Criſt o'r nef yn Frenin.

19 Ti roiſt am hyn yn forau jawn
fyn' digaeth raſſlawn nefol:
Goſodaiſt gymmorth ar gryf Gûn,
dyrchefaiſt Un dewiſol.

20 Ti a'i henneiniaiſt ef, yn ôl
dy wâs dewiſol Dafydd,
21 Ag olew ſanct: a thrwy law gref
i ni rhoiſt ef yn Llywydd.

27 Myfi a'i gwnâf, eb' Duw, yn Fâb,
yn Gynfab, ac Etifedd:
Ar frenhinoedd y ddaear lâs
yn uwch ei râs a'i fawredd.

28 Mi gadwaf iddo, medd Duw hêdd,
drugaredd yn drag'wyddol:
A'm cyfammod iddo yn llawn,
yn ffyddlawn, ac yn nerthol.

29 Goſodaf hefyd-byth i'w hâd
nerth a mawrhâd uwch bydoedd:
A'i orſeddfaingc ef i barhâu
un wedd a dyddjau 'r nefoedd.

31 Ac o's ei hîl a halogant,
ac ni chadwant, fy eirchjon:
32 Ymwelaf fi â hwynt o'r nef;
cânt oddef fy ngheryddon.

33 Ond ni thorraf ag ef un nôd
o'm hammod a'm trugaredd:
Ac ni byddaf fi ddim yn ôl
o'm hyſtyrjol wirjonedd.

34 Ni thorraf fy nghyfammod glân
a ddaeth allan o'm genau:
Ac ni newidjaf air o'm llŵ;
mi a rois hwnnw 'n ddiau.

52 Moler yr Arglwydd byth, Amen,
a byth Amen, hyn fytho:
Moler yr Arglwydd byth, Amen,
a byth Amen, hyn fytho.

Adnodau o SAL. XC.

Am Dragywyddoldeb Duw, a Byrdra Einioes Dŷn.

1 DUW! buoſt in' yn Arglwydd da,
yn breſwylfa i drigo,
O bryd i bryd: felly yr aeth
pob rhyw genhedlaeth heibio.

2 Er cyn rhoi ſail un mynydd mawr,
cyn llunjo llawr cwmpasfyd:
Duw! o drag'wyddol wyd cyn neb,
hyd drag'wyddoldeb hefyd.

3 Weithjau i ddiſtryw y troi ni;
troi dithau wedi 'n rhydda:
A d'wedi, cyn ein myn'd i'r llwch,
Dychwelwch, meibjon Adda.

4 Can's

4 Can's deg can mlynedd ſel doe ynt,
pan elo'i helynt heibio:
O'th flaen di megis gwylfa nôs,
ni chaiff ymddangos etto.

5 Oes dŷn ſydd megis hûn, neu ail
i addail, neu lifeiriant:
Neu megis glâs lyſieuyn gwan;
mor ſuan y newidjant.

6 Yr hwn y borau gwyrddlas ſydd,
a gwawr o newydd arno:
Ond pan y torrer ef brydnhawn,
yn ſuan jawn mae 'n gwywo.

12 Dyſg'ſelly 'n' rifo'n dyddjau gwael,
i 'n càlon gael doethineb:
13 Tyred, O Dduw! a dôd yn hawdd
i 'th weiſion nawdd ac undeb.

17 Arnom ni doed rhâd Duw, a'i nerth,
ei allu prydferth weithjaw:
Duw, dôd ein gwaith mewn trefnjad dda;
Duw, trefna waith ein dwylaw.

Adnodau o SAL. XCI.

Am Ddiogelwch y Duwjol rhag pob Drwg, trwy Amddiffyniad Duw.

1 Y Sawl a drigo, dôed yn nês,
yn lloches y Goruchaf:
Ef a ymerys i gael bod
yng nghyſgod hwn ſydd bennaf.

2 Fy holl amddiffyn wyt, a'm llwydd,
wrth fy Arglwydd y d'wedaf:
A'm holl ymddiried, tra fwyf byw,
ſydd yn fy Nuw Goruchaf.

3 Can's

3 Can's ef a weryd yr oes dau
odd' wrth faglau yr heljwr:
A hefyd odd' wrth blâ, a haint,
echryſhaint, ac anghyflwr.

4 Ei eſgyll droſod ef a rydd;
dan ei adenydd byddi
Yn ddiogel: a'i wiredd grêd
fydd gylch a bwccled iti.

5 Ni ddychryni er twrf y nôs,
na'r dydd o achos hedſaeth:
6 Er haint, neu blâ, mewn tywyll ſydd,
neu hanner dydd marwolaeth.

10 Ni ddigwydd niwaid it', ond da,
na phlâ, na dim echryſlon:
11 Can's Duw orch'mynodd yn ddiffâl
dy ofal i 'w angyljon.

14 Mi'th waredaf, medd Duw, rhag brâd,
am roi dy gariad arnaf:
Am it' adnabod f' Enw i,
yn ddiau mi 'th ddyrchaſaf.

15 Mewn ing y gwrendy Duw dy lef,
a Duw o'r nef a'th weryd:
Cai fyw 'n y byd yn ddigon hîr,
a'th ddwyn i dîr y bywyd.

Adnodau o SAL. XCII.

I foli Duw, yr hwn ſydd yn diwreiddio 'r Anwir, ac yn gwneuthur y Cyfiawn yn ffrwythlawn yn ei Dŷ.

1 MOliannu 'r Arglwydd da jawn yw,
a chyfarch Duw yn bennaf:
A chanu 'th Enw glôd a mawl,
a'th ganmawl (y Goruchaf.)

5 Dy

5 Dy holl weithredoedd mawrjon ynt.
6 Dy helynt ni 's gŵyr angall:
Bwriadau maith dy feddwl frŷd
ni fedr ynfyd eu dyall.

7 Pan flodeuo yr enwir ddŷn
megis llyſieuyn iraidd,
Pan fo'r rhai drwg yn gref eu plaid,
Duw yna rhaid eu dïwraidd.

12 Y cyfion blodeua i 'r nen
fel y balmwydden unjon:
Cynnyddu yn iraidd y bydd
fel cedrwydd yn Libanon.

13 Y rhai a blannwyd yn nhŷ Dduw,
yn goedwydd byw y tyfant:
Ac yng nghynteddau ein Duw ni
y rheini a flodeuant.

14 A dwyn eu ffrwyth a wnânt o faint
yn amſer henaint etto:
Tirfion, iraidd, a phrofadwy,
a fyddant hwy yn ffrwytho.

Adnodau o SAL. XCIV.

Cyfaddefiad diolchgar o Ddajoni Duw mewn Cyfyngder.

11 Gŵyr yr Arglwydd feddyljau dŷn
mai gwagedd ydyn' diffaith:
12 Duw, dedwydd yw a goſbech di,
a'i ffforddi yn dy gyfraith.

14 Can's ein Jôr ni ei blant ni âd,
a'i wîr dreſtâd ni wrthyd:
15 Ef at farn jawn a gadarnhâ,
a phob dŷn da a'i dilyd.

17 On'

17 On' bai i Dduw ſod i mi'n borth,
ac yſtyn cymmorth imi,
Braidd ſu na ddaethai im' y loes
a roiſai f' oes i dewi.

18 Pan fawn yn cwyno dan drymhâu,
rhag bod i 'm camrau lithro,
Fy Arglwydd, o'th drugaredd drud,
di a'm cynhelyd yno.

19 Pan ſo ynof amlaf yn gwau
bob rhyw feddyljau trymion,
Doe dy ddiddanwch di ar dro
i gyſſuro fy nghàlon.

22 Fy unig Dduw y ſydd fal hyn
yn llwyr amddiffyn f' enaid:
Ef yw fy nerth, o'm hôl a'm blaen,
a ſylfaen fy ymddiried.

Rhan o SAL. XCV.

Yn cynnwys Cymhelliad i foli Duw, a llawenychu ynddo.

1 O Dowch, a chanwn i 'r Arglwydd,
can's ef yw llwydd ein bywyd:
Ac ymlawenhâwn yn ei nerth;
ef yw ein prydferth jechyd.

2 O down yn unfryd ger ei fron
â chàlon bur ddiolchgar:
Bryſiwn at Dduw, dan lawenhâu,
a chanwn ſalmau 'n llafar.

3 Herwydd yr Arglwydd nef a llawr
y ſy Dduw mawr yn ddiau:
Tywyſog mawr yw ef mewn trîn,
a Brenin yr holl ddawjau.

4 Efe

4 Ef biau yr holl ddaear gron,
a'r dyſnder eigion danaw:
Uchelder hefyd, eithafoedd,
mynyddoedd, ſydd yn eiddaw.

5 Ef biau 'r moroedd uwch pob traeth,
ac ef a'u gwnaeth i ruo:
Ei ddwylaw ffurfiaſant yn wîr
y ſychdir, ac ſydd ynddo.

6 Dowch, addolwn, cydymgrymmwn,
ac ymoſtyngwn iddaw:
Ef yw ein Harglwydd uchel fri,
ef a'n gwnaeth ni â 'i ddwylaw.

7 Can's ef i ni y ſydd Dduw da,
a phobl ei borfa ydym:
A'i ddefaid ŷm, o's chwi a glyw
ei air ef heddyw 'n gyflym.

Adnodau o SAL. XCVI.

Yn cynnwys Clôd i Dduw, am ei Jachawdwriaeth ef, a'i Oruchafiaeth dros bob peth.

1 O Cenwch glôd i 'r Arglwydd mâd,
a moeſwch ganiad newydd:
Yr holl ddaear dadgenwch fawl
i 'r Arglwydd nefawl beunydd.

2 Cenwch chwi glôd i 'r Arglwydd nef,
a'i Enw ef bendigwch:
A'i jachawdwrjaeth, trwy grefydd,
o ddydd i ddydd cyhoeddwch.

3 Dadgenwch byth ei glôd a'i râd
yng ngwlâd y cenhedlaethoedd:
A'i ryfeddodau ef ym mhlith
pob amryw, amrith bobloedd.

4 Can's

4 Can's ein Harglwydd ni ſydd Dduw mawr,
a rhagawr canmoladwy :
Uwch yr holl dduwjau y mae ef
yn Frenin nef ofnadwy.

5 Duwjau y bobl eulynod ynt,
ni ellynt mwy nâ chyſgod :
Ein Duw ni wnaeth y nef a'r llawr ;
ſef dyna ragawr hynod.

6 Can's mawr ydyw gogoniant nef,
ac o'i flaen ef mae harddwch :
Yn ei gyſſegr ef y mae nerth,
a phrydferth yw 'r hyfrydwch.

7 Chwi dylwythau y bobloedd, trowch,
yn llawen rhowch i 'r Arglwydd,
I 'r Arglwydd rhowch ogonedd fry,
a nerth ; a hynny 'n ebrwydd.

10 I 'r holl genhedloedd d'wedwch hyn ;
Yr Arglwydd ſy 'n teyrnaſu :
Nid yſgog y byd ſy 'n ſiwr jawn ;
ef a ŵyr unjawn farnu.

ADNODAU O SAL. XCVII. a XCVI.

Yn ſon am Lywodraeth Duw, a'i Ddyfodiad i'r Farn, er Cyſſur i'w Bobl, a Dychryn i eraill.

1 LLywodraeth Duw a'i deyrnas ef
ſy dros y nef a'r ddae're n :
Ynyſoedd cedyrn yr holl fyd
bônt hwy i gŷd yn llawen.

SAL. XCVI.

11 O llawenhâed nefolaidd dô !
i 'r ſeintjau bo gorfoledd :
Deffrôed yn glau holl gyrrau 'r byd,
a phawb yn gydgyfannedd.

13 Am

13 Am fod ein Duw ni yn dyfod,
a'i farn ſydd hynod jawnwedd:
Fe farn yn gyfiawn yr holl fyd,
a'r bobl â 'i gydwirjonedd.

SAL. xcvii.

3 Tân â o'i flaen ef, ac a lyſg
ym myſg ei holl elynjon:
4 A'i fellt yn fflammio trwy 'r holl fyd,
fydd olwg enbyd ddigllon.

5 O flaen Duw, fel y tawdd y cwyr,
y bryniau 'n llwyr a doddent:
O flaen yr hwn ſydd Arglwydd ar
y ddaear y diflannent.

6 Y nefoedd fry a'r nefol lŷs
a ddengys ei gyfiawnedd:
A'r holl genhedloedd a welant
ei fawr ogoniant rhyfedd.

8 Dy farnedigaeth (O Dduw Jôn!)
a glybu Sïon ddedwydd:
Merched Juda (o herwydd hyn)
ſy 'n ennyn o lawenydd.

12 Yn yr Arglwydd, o'r achos hon,
chwi gvfion llawenychwch:
Trwy goffa ei ſancteiddrwydd ef,
â llais hyd nef moliennwch.

ADNODAU o SAL. XCVIII. a XCIX.

Mawl i DDUW, am ddadguddio ei Jachawdwriaeth i 'r Cenhedloedd.

1 CEnwch i 'r Arglwydd newydd gân,
ei waith fu lân ryfeddod:
Ei law ddeau a'i fraich a wnaeth
in' jachawdwrjaeth barod.

2 Yr

2 Yr Arglwydd hyſbys in' y gwnaeth
ei jachawdwriaeth gyhoedd:
A'i gyfiawnder ef yn dra hawdd
dadguddjawdd i'r cenhedloedd.

3 Fe gofiodd ei drugaredd hîr,
a'i wîr i dŷ Iſraël:
Fel y gwelodd terfynau 'r byd
ei jechyd yn ddiymgel.

SAL. xcix.

9 Dyrchefwch ein Duw Jôr, am hyn,
yn Sïon fryn cyſſegraidd:
Ymgrymmwch iddo yn eich byw,
yr unig Dduw ſydd ſanctaidd.

5 Clodforwch byth yr Arglwydd Dduw,
can's ſanctaidd yw ei Fawredd:
Ymgrymmwn o flaen ei 'ſtoldraed,
felly parhâed ei fawledd.

SAL. C.

Cymhelliad i foli Duw, o herwydd mai efe a'n gwnaeth ac a'n piau ni.

1 I'R Arglwydd cenwch lafar glôd,
a gwnewch ufudd-dod llawen frŷd:
2 Dowch o flaen Duw â pheraidd dôn,
trigolion y ddaear i gŷd.

3 Gwybyddwch mai'r Arglwydd ſydd Dduw,
a'n gwnaeth ni'n fyw fel hyn i fod;
Nid ni 'n hunain: ei bobl ŷm ni,
a defaid rhi' 'i borfa a'i nôd.

4 O ewch i 'w byrth â diolch brau!
yn ei gynteddau molwch ef:
Bendithjwch Enw Duw hynôd;
rhowch iddo glôd trwy lafar lef.

5 Can's

5 Can's da yw 'r Arglwydd, Awdur hêdd,
da ei drugaredd a dilyth:
A'i wirjonedd i ni a roes,
o oes i oes, a bery byth.

Adnodau o SAL. CII.

Ynghylch Byrdra Oes Dŷn, a Thragywyddoldeb Duw.

1 O Arglwydd! erglyw fy ngweddi,
a doed fy nghri hyd attad:
2 Na chudd d' wyneb mewn ing tra fwyf;
clyw, clyw, pan alwyf arnad.

11 Fy nyddjau droiſant ar y rhôd,
ac fel y cyſgod ciljant:
Minnau wywais, o achos hyn,
fel y glaſwelltyn methjant.

12 Ond tydi, Dduw, fy Arglwydd da,
ſydd yn parhâ 'n drag'wyddol:
O oes i oes dy Enw aeth
mewn coffadwrjaeth graſol.

24 O Dduw! na thòr fy oes yn frau
yng nghanol dyddjau f' oedran:
Dy flynyddoedd di ſydd erjôed,
o oed i oed y byddan.

25 Di yn y dechrau dodaiſt ſail
odd' iſod adail daear:
A chwmpas wybren, uwch ein llaw,
yw gwaith dy ddwylaw hawddgar.

26 Darfyddant hwy, parhêi di byth;
treuljant fel llyth drwſiadau:
27 Troi hwynt fel gwiſg, llygru a wnânt;
felly newidjant hwythau.

Tithau, Arglwydd, yr un wyt ti,
a'th flwyddau ni ddarfyddant:
28 Holl blant dy weifion gar dy fron,
a'u hwyrjon, a breswyljant.

Adnodau eraill o SAL. CII.

Gweddi dros yr Eglwys, a Mawl am Ddajoni Duw iddi.

13 O Cyfod, bellach trugarhâ,
O Dduw! bydd dda wrth Sïon:
Can's daeth y pryd it' drugarhâu;
fef, dyddjau 'th 'fengyl dirion.

15 Yna yr holl genhedloedd byw
yr Arglwydd Dduw a ofnant:
A'r holl frenhinoedd trwy y byd
a rônt it' gŷd ogoniant.

16 Pan adeilader Sïon wych,
â hon yn ddrych i 'r gwledydd:
Pan weler gwaith yr Arglwydd ne',
y moler e 'n dragywydd.

17 Edrychodd hwn ar weddi 'r gwael,
rhoes iddynt gael eu harchau:
18 'Sgrifennir hyn; o'r oes yn ôl
a gaiff ei ganmol yntau.

19 Can's Duw edrychodd o'r nef fry
ar ei gyffegr dŷ Sïon:
20 Clybu ei griddfan, er rhyddhâu
plant angau 'i garcharorjon.

21 Fel y cydleifient hwy ar gân,
yn Sïon lân, ei foliant:
Ac yng Nghaerfalem, yr un wêdd,
ei fawredd a'i ogoniant.

22 I Sïon daw y ſeintjau 'nghŷd
yn unfryd i 'w foliannu:
A'r holl deyrnaſoedd dônt yn rhwydd
yr Arglwydd i 'w was'naethu.

Adnodau o SAL. CIII.

Yn cynnwys Mawl i Dduw, am ei fawr Ddajoni yn maddau ein Pechodau, ac yn dïwallu ein holl Eiſiau.

1 FY enaid, mawl Sanct Duw yr Jôn,
a chwbl o'm heigion ynof:
2 Fy enaid, n'âd fawl f'Arglwydd nef,
na'i ddonjau ef, yn angof.

3 Yr hwn ſy'n maddau dy holl ddrwg,
yr hwn a'th ddwg o'th leſgedd:
4 Yr hwn a weryd d'oes yn llon,
trwy goron o'i drugaredd.

5 Hwn a ddiwalla d' enau di
â 'i lawn ddajoni pybyr:
Trwy adnewyddu it' dy nerth
mor brydferth a'r hên eryr.

7 I'w ſanct y dengys Duw ei ddawn.
8 Mae Duw yn llawn trugaredd:
Hwyr yw ei lîd, parod ei râd;
fel dyna gariad rhyfedd!

9 Nid ymryſon ef â ni byth;
nid beunydd chwyth digofaint:
10 Nid yn ôl ein drygau y gwnai
â ni; ni 'n coſbai cymmaint.

11 Cyhyd ag yw 'r ffurfafen fawr
odd' ar y llawr o uchder:
Cymmaint, i 'r rhai a'i hofnant ef,
ſydd nawdd Duw nef bob amſer.

12 O's pell yw 'r dwyrain olau hîn
odd' wrth orllewin fachlud:
Cyn belled ein holl bechod llym
odd' wrthym ef a'i ſymmud.

13 Ac fel y bydd nawdd, ſerch, a chwant,
tâd da i 'w blant naturjol:
Felly cawn ſerch ein Tâd o'r nef,
o's ofnwn ef yn dduwjol.

22 Bendithjwch chwi yr Arglwydd nef,
ei holl waith ef ſy hylwydd:
Ym mhob man oll o'i dreſn a'i hawl,
O f' enaid, mawl di 'r Arglwydd!

Adnodau eraill o SAL. CIII.

Am Fyrdra Oes Dŷn, a mawr Drugaredd Duw.

14 FE adwaen Duw ni 'gŷd yn llwyr;
ſe ŵyr mai llwch yw 'n defnydd:
15 Oes dŷn fel gwellt glâs ſy 'n teghâu,
neu ddail, neu flodau maeſydd.

16 Yr hwn, cyn gynted ag y dêl
y gwynt â'i awel droſodd,
A chwythir ymaith o'i drigle,
na wyddys p' le y tyfodd.

17 Ond graſlawn drugaredd a fydd
yn lân dragywydd feddjant,
O oes i oes, heb drangc, heb drai,
gan Dduw i 'r rhai a'i hofnant.

18 A'i gyfiawnder i blant eu plant
a gadwant ei gyfammod:
O's cofiant ei orch'mynion ef,
mae teyrnas nef yn barod.

19 Yno mae ei orſeddfa ef;
ſef, yn y nef drag'wyddol:

A llywjo

A llywjo y mae ef bob peth
trwy ei frenhinj'eth nefol.

21 Bendithjwch chwi yr Arglwydd Nêr,
ei luoedd tyner tirion:
Ei 'wyllys gwnewch, canlynwch wîr,
chwychwi ei gywir weiſion.

Adnodau o SAL. CIV.

I glodfori Mawredd Duw, o herwydd ei Dreſn ddajonus a'i Ragluniaeth yng Ngwaith y Creadigaeth. 1, 5, 6, 9——14, 19, 25, 27, 24.

1 FY enaid, mola'r Arglwydd byw;
O f'Arglwydd Dduw y mawredd!
Mawr wyt, gogoniant a gai di,
ymwiſgi ag anrhydedd.

5 Cref y rhoiſt ſail y ddaear gron,
fel na 'ſgog hon odd' yno c
Yr hon a bery fel y rhoes,
o oes i oes, heb ſiglo.

6 Tydi, O Dduw! ddilledaiſt hon
â 'r eigion yn fantellau:
Ac oni bai dy ddehau law,
ai 'r dyfroedd uwch law'r bryniau.

9 Goſodaiſt derfyn lle 'r arhônt,
ac fel nad elont droſdo:
Ac na ddelont hwy fyth dros lawr
y ddaear fawr, i 'w chuddjo.

10 Fe roes Duw ffynnon i bob nant,
a phawb a yfant beunydd:
Duw roes y ffrydjau 'r hŷd pob glyn,
a rhwng pob bryn a'i gilydd.

11 Yfant yno 'nifeiljaid maes,
aſynod mynglaes gwylltjon:

Heb ymadael odd' wrth y nant
hyd onid yfant ddigon.

12 Ac adar awyr ddônt ger llaw
i leiſiaw rhwng y coedydd:
Yn canu mawl o bren i bren,
clodforedd lawen ufudd.

13 Dwfr ar fynyddoedd lle ni ddaw,
ſe wlych â glaw odd' arno:
A'r gwaſtad dîr y gwlîth a'i gwlŷch,
bob grwn a rhych i ffrwytho.

14 Parodd i'r gwellt dyfu wrth raid
i 'r 'ſgrubljaid oll; a llyſiau
Er da i ddŷn: lle rhoes o'r llawr
ymborthjant mawr rhag angau.

19 Fe roes i 'r lleuad ei chwrs clau,
a'i chyfnewidjau hefyd:
A'r haul o amgylch y byd crwn,
ſe edwyn hwn ei fachlud.

25 A'r llydan fôr, y dwfr ym myſg,
lle mae pob pyſg yn llemmain:
Yno'r ymluſgant, rif yr ôd,
bwyſtfilod mawr a bychain.

27 Hwynt oll ddiſgwiljant, yn ei bryd,
am gael odd' wrthyd borthjant:
I gael dy rôdd ymgaſglu 'nghŷd,
bawb am eu bywyd, byddant.

24 O Dduw, mor rhyfedd yw dy waith!
o'th ſynwyr berffaith tradoeth
Gwnaethoſt bob peth â doethder dawn;
a'r tîr ſy'n llawn o'th gyfoeth.

ADNODAU eraill o SAL. CIV.

I glodfori Duw, am ei Ddajoni i 'w Greadurjaid. a Mawredd ei Ogoniant. 1, 28——35.

1 FY enaid, mola'r Arglwydd byw;
O f'Arglwydd Dduw y mawredd!
Mawr wyt, gogoniant a gai di,
ymwiſgi ag anrhydedd.

28 Duw, pan agorech di dy law,
odd' yno daw dajoni:
Pob aniſail, a phob rhyw beth,
a ddaw yn ddiſeth ini.

29 Pan guddjech di dy wyneb prŷd,
a chaſglu d' yſbryd allan:
Crynant, trengant, ac ânt i'w llwch,
mewn diwedd trwch a thrwſtan.

30 Duw, pan ollyngech di dy râd,
fel rhoddi cread newydd:
Y modd hyn wyneb yr holl dîr
a adnewyddir beunydd.

31 Yr Arglwydd gogoneddus fydd,
trwy fawr lawenydd, bythoedd:
Yr Arglwydd, yn ddiau, a fedd
orfoledd yn y nefoedd.

32 Ein Duw o'r nef a edrych ar
y ddaear, hi a ddychryn:
O's cyffwrdd â 'r mynyddoedd draw,
y mŵg a ddaw o honyn'.

33 Canaf i 'r Arglwydd yn fy myw,
canaf i 'm Duw tra fyddwyf:
34 Mi a lawenaf yn fy Jôn;
bydd ffyddlon hyn a wnelwyf.

35 Y trawſion oll o'r tîr ânt hwy,
ni bydd mwy annuwjoljon:
Fy enaid, mola Dduw yn rhôdd:
mae hyn wrth fôdd fy nghàlon.

ADNODAU o SAL. CV. ac eraill.

Yn cynnwys Cymhelliad i glodfori Dajoni Duw, yn gwaredu ei Bobl oddi wrth eu Pechodau. CV. 1——5, 42, 43. XVIII. 19. XCVII. 12.

1 CLodfored pawb yr Arglwydd nef,
ar 'i Enw ef y gelwch:
A'i weithredoedd ym myſg pobloedd
yn gyhoedd a fynegwch.

2 Cenwch ei gerdd, clodforwch hwn,
a'i ddidwn ryfeddodau:
3 Y rhai a gais 'i Enw (y Sant)
llawenant â 'u calonnau.

4 Ceiſiwch yr Arglwydd, a'i nerth mawr,
a'i fodd bob awr, yn rhadlawn:
5 Cofiwch ei hoil ryfeddodau,
a barn ei enau cyfiawn.

42 Cofio a wnaeth ei air a'i râs
i Abram, ei wâs ffyddlon:
43 A thrwy fawr nerth yn rhŷdd o gaeth
y gwnaeth ei ddewiſoljon.

SAL. xviii.

19 Fy Nuw ei hun a'm rhoes yn rhŷdd,
Fe fu Waredydd ymy:
Ac, o dra ſerch i mi, y gwnaeth
na bawn i gaeth ond hynny.

SAL. xcvii.

12 Yn yr Arglwydd, o'r achos hon,
chwi gyfion, llawenychwch:
Trwy goffa ei ſancteiddrwydd ef,
â llais hyd nef molienwch.

ADNODAU o SAL. CVI.

Mawl a Gweddi 'r Cyſtuddiol. 1——8, 43—45, 47, 48.

1 Molwch

1 MOlwch yr Arglwydd, can's da yw;
moliennwch Dduw y Llywydd:
O blegid ei drugaredd fry
a bery yn dragywydd.

2 Yr Arglwydd pwy all draethu 'i nerth,
a'i holl dirionferth foliant?
3 A wnêl gyfiawnder gwyn eu byd,
ei farn i gŷd a gadwant.

4 O Arglwydd! cofia fi dy wâs,
yn ôl dy râs i 'r eiddod:
Ymwêl â mi, y 'm cyſtudd caeth,
â 'th jachawdwrjaeth barod.

5 Fel y gwelwyf orfoledd mawr
dy werthfawr etifeddjaeth:
Ac y cydganwyf fawl un dôn
â 'th ddewiſoljon odjaeth.

6 Torri dy holl gyfreithjau di
a wnaethom ni a'n tadau:
Fe a gaed arnom ormod gwall,
heb ddyall dy fawr wyrthjau.

7 A thrwy 'n holl ymdaith yn y byd
y buom 'gŷd anufudd:
Heb gofio amled fu dy râs,
haeddaſom gâs a cherydd.

8 Etto, er mwyn ei Enw 'i hun,
Duw Cun a ddaeth i 'n gwared:
I beri 'r byd gydnabod hyn,
ei fod ef cyn gadarned.

43 Mynych waredodd Duw ei blant;
hwy a'i digjaſant yntau
A 'u cwrs ei hun: daeth cyſtudd hîr
am waith eu henwir feiau.

44 Pan welai arnyn' ing na thrais,
Fe glywai lais eu gweddi:
45 Gan gofio 'i air, rhoi nawdd a wnaeth,
o'i helaeth fawr ddaioni.

47 Dwg ninnau dan d'adenydd di,
i foli d' Enw hynod:
O Arglwydd Dduw! cymmell ni 'n gu,
i orfoleddu ynod.

48 Duw Iſraël bendigaid fydd,
yn dragywydd Jehofah:
A d'weded yr holl bobl, Amen.
Molwch Dduw llen Gorucha'.

Adnodau o Sal. CVII.

Yn cynnwys Mawl i Dduw, am ein hachub oddi wrth ein Gelynjon a'n holl Drueni. 1, 2, 9, 14, 20—22, 32.

1 MOlwch yr Arglwydd, can's da yw;
moliennwch Dduw ein Llywydd:
O blegid ei drugaredd fry
a bery yn dragywydd.

2 Y gwarediggjon canent fawl
i Dduw, gerdd nodawl gyſſon:
Y ſawl 'achubed, caned hyn,
o law y gelyn creulon.

9 Fe ſy 'n diwallu einioes dŷn
rhag newyn a rhag ſyched:
Ac o i fawr râs eu cadw i gŷd
pan fyddo'r byd yn galed.

14 Ef a'n gwaredodd ni o'n drwg,
ſef o dywyllwg caethglud:
O gyſgod angau ein rhyddhâu,
a thorri 'n rhwymau heſyd.

20 Ei

20 Ei air a yrrodd i 'n jachâu,
ac i 'n rhyddhâu yn fuan :
Nyni, â 'i air, tynnu a wnaeth
o'n methedigaeth allan.

21 Addefwn ninnau, ger ei fron,
ei fwynjon drugareddau :
Ac i blant dynjon fel y gwnaeth,
yn helaeth, ryfeddodau.

22 Aberthwn hefyd aberth mawl
i 'w ogoneddawl Fawredd :
A mynegwn ei waith a'i wyrth ;
bôed yn ei byrth orfoledd.

32 Holl gynnulleidfa ei bobl ef
clôd Duw hyd nef dyrchafant :
Holl eiſteddfêydd pennaethjaid hên
yn llawen a'i moliannant.

SAL. CXI.

Clôd i Dduw, am Wyrthjau rhyfedd ei Ddajoni, a'i ffyddlon Gyfammod.

1 CLodforaf fi fy Arglwydd Jôn
o 'wyllys càlon hollol :
Mewn cynnulleidfa (ger ei fron)
mewn tyrfa gyfion raſol.

2 Mawr jawn yw gwyrthjau 'n Harglwydd ni,
hyſbys i bawb a'i hofnant :
3 Ei waith a'i jawnder pery byth,
hyd byth y bydd ei foliant.

4 Fe ddylai Duw gael ei goffâu
am ryfeddodau nerthol :
Can's Arglwydd noddfawr yw i ni,
llawn o doſturi graſol.

5 Ef i bob rhai a'i hofnant ef
rhydd gyfran gref at fywyd:
Cyfammod Duw fydd byth mewn côf;
'd â 'n angof un addewyd.

6 Mynegodd ef i 'w bobl i gŷd
gadernyd ei weithredoedd:
A rhoddi iddynt hwy a wnaeth
'tifeddjaeth y cenhedloedd.

7 Gwirjonedd a barn ydyw gwaith
ei ddwylaw berffaith efo:
Holl eirchjon Duw fydd ffyddlon jawn,
a da y gwnawn eu gwrando.

8 Y rhain fy gwedi eu ficrhâu
dros byth yn ddeddfau cyfion:
Gwedi eu gwneuthur hwy mewn hêdd,
a thrwy wirjonedd unjon.

9 Anfonodd gymmorth i 'w bobl ef,
cyfammod gref fafadwy:
Archodd hyn; bo i 'w Enw fawl,
fanctteiddjawl ac ofnadwy.

10 Dechreuad pob doethineb ddofn,
i bawb, yw ofn yr Arglwydd:
Da yw dyall y fawl a'i gwnai;
ei fawl a fai 'n dragywydd.

Adnodau o SAL. CXII.
Am Ddedwyddwch gwynfydedig y Cyfiawn.
1——9.

1 Dedwyddol yw mewn buchedd dda
y fawl a ofna'r Arglwydd:
A'i orchymynion anwyl ynt,
bydd iddo helynt hylwydd.

2 Ei hâd fydd nerthol yn y tîr;
bendithir hîl rhai unjon:

3 Golud

3 Golud a chyfoeth yn ei dŷ
dros byth y pery 'n gyfion.

4 Yr unjon yn y tywyll cau
caiff fodd i olau weled:
Yſtyrjol, a thoſturjol jawn,
a chyfiawn, fydd ei weithred.

5 Gŵr da a fydd trugarog fwyn,
rhydd echwyn a chymmwynas:
A'i air mewn pwyll a barn a rydd,
a'i weithred fydd yn addas.

6 Ni 'ſgogir byth y cyfiawn; gwnâ
ei goffa yn dragywydd:
7 A chàlon ddifigl, ddwys, ddiofn,
a ſail ddofn yn yr Arglwydd.

8 Hwn yn nerth Duw diofnog fydd,
trwy râs bydd gryf ei gàlon:
Hyd oni chaffo, trwy lân wŷs,
ei 'wyllys o'i elynjon.

9 Rhannodd a rhoes i 'r tlawd yn hŷ';
byth pery ei gyfiawnedd:
Grym ei wynfyd a'i barch, yn wîr,
dyrchefir mewn gogonedd.

SAL. CXIII.

Mawl i Dduw, am ei Ardderchowgrwydd goruwch pob peth, a'i Drugaredd i 'r Tlawd a'r Gorthrymmedig.

1 CHWI weiſion Duw, molwch yr Jôn,
Molwch ei Enw â llafar dôn.
2 Bendigaid fytho ei Enw ef.
3 O godiad haul hyd fachlud dydd
Mawr Enw 'r Jôn moliannus fydd,
yn y byd hwn ac yn y nef.

4 Dyrchafodd Duw uwch yr holl ſyd,
A'i ſoliant aeth uwch nef i gŷd.
5 Pwy ſy gyffelyb i 'n Duw ni,
Yr hwn a breſwyl yn y nef?
6 I 'r ddaear hon daroſtwng ef';
gwêl ef ein cam, clyw ef ein cri.

7 Yr hwn ſy 'n codi 'r tlawd o'r llwch,
A'r rheidus o'i ddiyſtyrwch,
8 i 'w goſod uwch pennaethjaid byd:
9 I 'r ammhlantadwy mae 'n rhoi plant,
Hîl têg, a thylwyth, a llwyddjant,
Am hyn moliennwch Dduw i gŷd.

I 'r Tâd, a'r Mâb, a'r Yſbryd Glân,
Cydrown, bob genau, fawl ar gân,
o fawr i fân, tra bythom byw:
Yn unfryd â 'r gogoned lu
O ſeintjau ac angyljon fry,
ſy ſyth heb dewï 'n moli Duw.

Adnodau o SAL. CXV.

Yn annog i roddi ein Bryd ar Dduw, a'i foli ef. 9, 11, 13—15, 18.

9 O Iſraël, dôd ti yn rhwydd
ar yr Arglwydd dy hollfryd:
Ef yw eich nerth a'ch dwg i 'r lan,
eich porth a'ch tarian hefyd.

11 'Rhai a ofnwch yr Arglwydd Jôn,
rhowch arno'ch unjon hollfryd:
Ef yw y neb a'ch dwg i 'r lan,
eich porth a'ch tarian hefyd.

13 'Sawl a'i hofnant, bendithjant ef,
yr Arglwydd nef canmolan':
A'i Enw ſanct, o'r nef i 'r llawr,
bendithjed mawr a bychan.

14 Yr

14 Yr Arglwydd arnoch, arnoch chwi,
a wnâ ddajoni amlach:
Ac a chwanega ar eich plant
ei fwynjant yn rymmuſach.

15 Y mae iwch' fendith, a mawr lwydd,
gan y gwîr Arglwydd cyſiawn:
Yr hwn a wnaeth y nefoedd fry,
a'r ddaear obry 'n gyflawn.

18 Am hynny daljwn yn ein cô'
fyth fyth fendithjo'r Arglwydd:
Molwch yr Arglwydd, yn un wêdd,
â mawl gyſannedd ebrwydd.

Adnodau o SAL. CXVI.

Yn cynnwys Atgoffa diolchgar am Ymwared allan o Gyfyngder. 1, 2, 5, 6, 8, 13, 17—20.

1 DA genyf wrand'o'r Arglwydd nef
ar lais fy llef a'm gweddi:
2 Am iddo 'nglywëd i yn hawdd,
byth archaf ei nawdd imi.

5 Cyfion yw'r Jôn, trugarog jawn;
ein Duw ſy lawn o nodded:
6 Duw yn fy ing a'm cadwodd i,
mewn cyni daeth i 'm gwared.

8 'Herwydd i Dduw wared fy oes,
a'm cadw rhag loes angau:
Fy nhraed rhag llithro i lam drwg,
a'm golwg i rhag dagrau.

13 Mi a gymmeraf, gan roi mawl,
y phiawl jachawdwrjaeth:
Ac a alwaf, er mwyn fy llwydd,
ar Enw'r Arglwydd Bennaeth.

17 Dattodaiſt di fy rhwymau 'n rhŷdd;
fy offrwm fydd dy foliant:
18 Enw 'r Arglwydd nid â o'm cô',
i hwnnw bo gogoniant.

19 I 'r Arglwydd, bellach, tala'n frau
fy addunedau cyſion:
20 Yng Nghaerſalem, dy ſanctaidd dŷ,
o flaen dy deulu ffyddlon.

S A L. CXVII.

Mawl am Ddajoni Duw, a Gwirjonedd ei Air.

1 O Cenwch fawl i 'r Arglwydd nef!
moliennwch ef genhedloedd:
Molwch ei Enw ef trwy 'r byd
chwithau i gŷd y bobloedd.

2 Am ei fod i ni yn dda jawn,
yr Arglwydd llawn trugaredd:
A'i air ef ſydd yn parhâu byth,
ſef ei ddilyth wirjonedd.

Adnodau o S A L. CXVIII.

Yn eynnwys Mawl am Drugaredd Duw, yn gwrando ac yn gwaredu ei Bobl. 1, 4——9, 21, 28.

1 M Olwch yr Arglwydd, can's da yw
moliannu Duw y Llywydd:
O herwydd ei drugareddau
ſydd yn parhâu 'n dragywydd.

4 Y rhai a'i hofnant ef yn lân
a ganan' yr un cywydd:
Rhôn i 'w drugaredd yr un clôd,
ſef ei bod yn dragywydd.

5 I 'm

5 I'm hing y gelwais ar Dduw cu,
hawdd ganddo fu fy nghlywed:
Ef a'm gollyngodd i yn rhŷdd,
o'i lân dragywydd nodded.

6 Yr Arglwydd Dduw ſydd gyd â mi,
nid rhaid im' ofni dynjon:
7 Yr Arglwydd ſydd ynghŷd â mi,
gorchfygodd fy ngelynjon.

8 Gwell yw gobeithjo yn Nuw Cûn
nag mewn un dŷn o'r ablaf:
9 Gwell yw gobeithjo yn yr Jôn
nâ'r tywyſogjon pennaf.

21 Minnau a'th folaf yn dy dŷ,
o herwydd iti 'nghlywëd:
A chanaf iti nefol glôd,
am it' ddyfod i'm gwared.

28 Tydi, O Dduw! wyt Dduw i mi;
am hynny ti a folaf:
Da gwedd it' fawl, fy Nuw wyt ti;
hyd byth tydi a garaf.

Adnodau eraill o SAL. CXVIII.

Yn cynnwys Mawl am Gariad Duw yng Nghrist, Penconglfaen ein Jachawdwriaeth, a'r Oen a aberthwyd droſom. 16, 22—25, 27, 29.

16 DYrchafodd Duw dde'ulaw ei râd
i dywallt cariad arnom:
A deheulaw yr Arglwydd Nêr
a wnaeth rymmuſder droſom.

22 Y maen fy bencongfaen i ni
a ddarfu 'r ſeiri wrthod:
23 O'r Arglwydd Dduw y tyfodd hyn,
i ddŷn y mae 'n rhyfeddod.

24 Yr Arglwydd a'i gwnaeth, dyma'r dydd,
er mawr lawenydd yny:
Yndo cym'rwn orfoledd llawn,
ymlawenhâwn am hynny.

25 Attolwg, Arglwydd, y pryd hyn
rho gymmorth yn' a thycciant:
Attolwg, Arglwydd Dduw, pâr yn'
y pryd hyn gaffael llwyddjant.

27 Llewyrched arnom gariad Duw;
ei Fâb yw Oen yr aberth,
A rwymwyd drosom ni yn jawn;
Fe dalodd gyflawn bridwerth,

29 O molwch Dduw! can's da jawn yw
moliannu Duw y Llywydd:
O herwydd ei drugaredd fry
a bery yn dragywydd.

Adnodau o SAL. CXIX.

Yn sôn am Wynfyd y rhai a rodiant yng Nghyfreithjau Duw; a Dymuniad y Duwjol am gael eu dysgu ynddynt. 1——6, 9, 11, 12, 118, 155, 112.

1 POB cyfryw ddŷn y sydd â 'i daith
yn berffaith mae fe 'n ddedwydd:
Y rhai 'n fucheddol a rodian'
yng nghyfraith lân yr Arglwydd.

2 Y rhai i gŷd gwynfyd a gânt
a gadwant ei orch'mynion:
Ac a'u ceisiant hwy yn ddilys
â holl ewyllys càlon.

3 Diau yw nad â y rhai hyn
i ganlyn llwybrau gwammal:
4 Ond cadw d' air (a erchaist yn')
a dilyn hyn yn ddyfal.

5 Och

5 Och fi! na chawn unjawni 'n glau
fy llwybrau at dy ddeddfod:
6 Byth ni 'm gwradwyddid y modd hwn
tra cadwn dy gyfammod.

9 Pa fodd (O Dduw!) y ceidw llangc
fydd jeuangc ei holl lwybrau?
Wrth ymgadw yn ôl dy air,
pob llwybr a gair yn olau.

11 I 'm càlon cuddjais dy air cu,
rhag imi bechu 'n d' erbyn:
12 O Arglwydd! bendigaid wyt ti;
O dyfg i mi d'orchymyn!

118 Sethraift, O Arglwydd! yr holl rai
a ai odd' wrth dy ddeddfau:
Am mai oferedd ger dy fron
oedd eu dych'mygjon hwythau.

155 Ffordd jachawdwrjaeth fydd bell jawn
odd' wrth anghyfiawn ddynjon:
Am nad ydynt yn ceifio'n glau
mo ffyrdd dy ddeddfau unjon.

112 Duw, dôd di ynof càlon bur,
i wneuthur, trwy orfoledd,
Dy ddeddfau di tra fwy'n y byd;
a hynny hyd y diwedd.

ADNODAU eraill o SAL. CXIX.

Yn dangos Hoffder y Duwjoljon yng Nghyfreithjau Duw, a'u Dymuniad o gael eu dyfgu ynddynt. 33——38, 14, 168, 55, 116, 71, 72, 76, 162, 80.

33 DUW, ffordd dy ddeddfau dyfg i mi,
dros f'einioes hi a gadwaf:
34 O pâr im' ddyall y ddeddf hon!
o'm càlon mi 'i cyflawnaf.

35 Pâr

35 Pâr im' fyn'd lwybr dy ddeddf ar frŷs;
hyn yw fy 'wyllys deilwng:
36 A'm càlon at dyſtjolaeth dda,
nid at gybydd-dra, goſtwng.

37 Tro fi rhag gweled gwagedd gwael;
bywhâ fi 'gael dy ffordd di:
38 Cyflawna d'air â mi dy wâs,
i gaffael grâs i 'th ofni.

14 Dy dyſtjolaethau di i gŷd
uwch holl dda'r byd a hoffais:
168 Am fod fy llwybrau ger dy fron,
d'orch'mynion nid anghofiais.

45 Cofiaf dy Enw ddydd a nôs,
o ſerch i 'th ddiddos gyfraith:
116 Cynnal fi â 'th air, a byw wnâf;
ni wridaf am fy ngobaith.

71 Mewn blinder maith da jawn im' fu
i ddyſgu dy 'ſtatudoedd:
72 Gwell im' gyfraith dy enau glân
nag aur ac arian filoedd.

76 Dôd nawdd, er cyſſur im' dy wâs,
o'th râs a'th addewidjon:
162 O blegid d'air wyf lawen jawn,
fel pe cawn dlyſau mawrjon.

80 Bydded fy nghàlon yn berffaith
yn dy lân gyfraith, Arglwydd:
Fel na's gorchuddjer yn y byd
fy wyneb prŷd â gwradwydd.

ADNODAU ychwaneg o SAL. CXIX.

Yn cynnwys amryw o Ddymuniadau, &c. i 'r unrhyw Ytſtyr. 29, 30, 65, 66, 105, 135, 143, 144, 103, 50, 97, 111, 124, 125, 169, 170.

29 Duw,

29 DUW, tyn odd' wrthyf bob ffordd gau,
a dyſg im' ddeddfau crefydd:
30 Dewiſais ffordd gwirjonedd; hon
boed ger fy mron i beunydd.

65 Arglwydd, gwnaethoſt yn dda â 'th wâs,
yn ôl dy râs yn addo:
66 Dyſg im' ddyall dy air yn jawn;
'r wy'n credu 'n gyflawn iddo.

105 Dy air i 'm traed i lluſern yw,
a llewyrch gwiw i 'm llwybrau:
135 Llewyrcha d'wyneb ar dy wâs;
dyſg imi flâs dy ddeddfau.

143 Mewn adfyd a chyſtuddjau maith
dy gyfraith yw f' hyfrydwch:
144 Dôd ynof rym dy air, O Dduw!
fel 'byddwyf byw mewn heddwch.

103 Mor beraidd genyf d' eirjau jach!
nâ 'r mêl meluſach ydynt:
50 Bywyd f'enaid; a phan wyf glaf,
mi a gâf gyſſur ynddynt.

97 Mor gu (O Arglwydd!) genyf fi
dy ddeddf di a'th gyfammod!
Ac ar y rhain, o ddydd i ddydd,
y bydd fy holl fyfyrdod.

111 Cym'rais yn etifeddjaeth lân,
byth weithjan, dy orch'mynion:
O herwydd mai hwynt hwy y ſydd
lawenydd mawr i 'm càlon.

124 Yn ôl trugaredd i 'th wâs gwnâ;
dyſg i mi 'n dda dy ddeddfau:
125 Dŷ wâs wyf fi; dyall im' dôd
i wybod dy ammodau.

169 O'th

169 O 'th flaen, Arglwydd, nesâed fy nghri;
dyſg imi ddyall d'eirjau:
170 Gwared fi 'n ôl d' ymadrodd rhâd;
dêl attad fy ngweddiau.

SAL. CXXI. Ac Adnodau o SAL. CXXIV. a CXXV.

Ynghylch Hyder a Diogelwch y Duwjol yn Amgeledd Duw, cxxiv. 8. cxxv. 1, 2, 4.

1 DIſgwyljaf o'r mynyddoedd draw,
lle daw im' help 'wyllyſgar:
2 Yr Arglwydd rydd im' gymmorth gref,
hwn a wnaeth nef a daear.

3 Dy droed i lithro ef ni 's gâd,
a'th Geidwad fydd heb huno:
4 Wele, Ceidwad Iſraël lân,
heb hûn na heppian arno.

5 Ar dy law dd'au y mae dy Dduw,
yr Arglwydd yw dy Geidwad:
6 Dy lygru ni chaiff haul y dydd,
a'r nôs nid rhŷdd i 'r lleuad.

7 Yr Jôn a'th geidw rhag pob drwg,
a rhag pob cilwg anfad:
8 Cai fyn'd a dyfod byth yn rhwydd,
yr Arglwydd fydd dy Geidwad.

Sal. cxxiv.

8 Ein holl gynhorthwy ni, a'n llwydd,
ſy 'n nerth yr Arglwydd hawddgar:
Yr hwn, trwy waith ei ddwylaw ef,
a greawdd nef a daear.

Sal. cxxv.

1 'Sawl a 'mddiriedant yn Nuw Jôn
byddant fel Sïon fynydd,

Yr

Yr hwn ni ſyfl: a'i ſylwedd fry
a bery yn dragywydd.

2 Fel y ſaif ſail Caerſalem fry,
a'i chylchu mae mynyddoedd:
Felly yr Arglwydd yn gaer ſydd
tragywydd cylch ei bobloedd.

4 O Arglwydd Dduw! yn bryſur gwnâ
i bob dŷn da ddajoni;
Can's unjon attat ti 'n ddiau
y bydd calonnau 'r rheini.

S A L. CXXII.

Am Orfoledd y Duwjol yn Eglwys Duw, a'u Dymuniad o Heddwch ac Undeb ynddi.

1 I Dŷ 'r Arglwydd pan dd'wedent, Awn,
im' llawen jawn oedd gwrando:
2 Sai 'n traed o fewn Caerſalem byrth,
yr un ni ſyrth odd' yno.

3 Caerſalem lân, ein dinas ni,
ei ſail ſydd ynddi 'i hunan:
A'i phobl ſydd ynddi yn gyttun,
a Duw ei hun â'i drigſan.

4 Yno daw y llwythau ynghŷd,
yn unfryd, llwythau 'r Arglwydd:
Tyſtjolaeth Iſrael, a'i drigfod,
a chlôd i 'w fawr ſancteiddrwydd.

5 Can's yno cadair y farn ſydd,
eiſteddfod Dafydd yno:
6 Erchwch i 'r ddinas hedd a mawl,
a llwydd i 'r ſawl a'th garo.

7 O fewn dy gaerau heddwch bôed,
i 'thlyſoedd dôed yr hawddfyd:

8 Er

8 Er mwyn fy mrodyr mae'r arch hon,
a'm cymmydogjon hefyd.

9 Ac er mwyn tŷ 'r Arglwydd ein Duw,
hwn ynot yw 'n rhagorol:
O achos hyn yr archaf fi
i ti ddajoni rhadol.

ADNODAU O SAL. CXXVII. ac eraill.

Yn dangos mai ar Law Duw y mae holl Lwyddiant a Gwynfyd ei Bobl ef. CXXXII, 1—3. CXXVIII. 1——4. CXLIV. 15.

1 Y Tŷ nid adeilado'r Nêr,
â 'n ofer waith y ſeiri:
A'r ddinas hon ni 's ceidw fo,
ni thyccia gwilio ynddi.

2 O's borau godi, o's hûn hwyr,
a byw trwy lwyr ofidjo,
Ofer i gŷd: Duw a rydd hûn
i bob rhyw un a'i caro.

3 Wele, y plant a roir i ddŷn,
hiljogaeth ŷn' i 'r Arglwydd:
Ac o'i rôdd ef daw ffrwyth y bru,
i 'w magu mewn ſanctteiddrwydd.

SAL. CXXVIII.

1 A ofno'r Arglwydd gwyn ei fyd,
a rodio 'rhŷd ei lwybrau:
2 Bwytâi o ynnill gwaith ei law,
a bendith ddaw i tithau.

3 Dy wraig ar du dy dŷ îs nen
fel pêr winwydden ffrwythlon:
Dy blant ynghylch dy fwrdd a fydd
fel olewydd blanhigion.

4 Wele,

4 Wele, fel dyma'r modd yn wîr
bendithir y gŵr cyfion:
A ofno'r Arglwydd Dduw yn ddwys,
rhydd arno bwys ei gàlon.

SAL. cxliv.

15 Dedwydd ydyw y bobl y ſy
â phob peth felly ganddynt:
Bendigaid yw 'r bobl y rhain yw
â 'r Arglwydd yn Dduw iddynt.

SAL. CXXX.

Gweddi am Drugaredd Duw, a Diſgwyliad y Duwjol wrtho.

1 O'R dyfnder gelwais arnat, Jôn.
2 O Arglwydd tirion! goſtwng
Dy gluſt; yſtyrja fy llais i,
a chlyw fy ngweddi deilwng.

3 Duw, pwy a ſaif yn d'wyneb di,
o's creffi ar anwiredd?
4 Ond, fel y 'th ofner di yn jawn,
yr wyt yn llawn trugaredd.

5 Diſgwyljais f'Arglwydd, wrth fy rhaid,
diſgwyljodd f'enaid arno:
Rhoes fy holl obaith yn ei air.
6 F'enaid a gair yn effro;

Ac am yr Arglwydd gwilio 'bydd
fwy nâ gwiliedydd difri',
A ddiſgwyl blygain bob pen awr
a welo'r wawr yn codi.

7 Un wedd diſgwyljed Iſraël
yn ddirgel am yr Arglwydd:
Can's mae nawdd gyd â 'r Arglwydd nef;
mae ynddo ef gar'digrwydd.

Ei drugareddau ânt ar lêd;
fe 'rydd ymwared ini:
8 Fe 'weryd Iſraël; fel hyn
fe 'i tyn o'i holl ddrygjoni.

ADNODAU o SAL. CXXXII. a CXXXIV.

Yn cynnwys Erfyniau a Mawl am Ddajoni Duw i'w Eglwys. CXXXII. 8, 9, 13 —— 16. CXXXIV. 3.

8 F'Arglwydd, cyfod i 'th eſmwyth lŷs,
a'th arch o rymmus fawredd:
9 Gwiſged d'offeiriaid gyfion fraint,
gwiſged dy ſaint wirjonedd.

13 Can's fy Arglwydd, o ſerch a bodd,
a ragddewiſodd Sïon:
I drigo ynddi rhoes ei fryd,
gan dd'wedyd geirjau tirjon.

14 Hon fyth fydd fy ngorphwyſfa i,
o hoffder ynddi triga':
15 Bendithjaf hi â bwyd diball,
a'i thlawd diwall o fara.

16 A jachawdwrjaeth (medd Duw Nâf)
y gwiſgaf ei heglwyſwyr:
A rhoddaf yng ngenau pob ſant
o'i mewn, ogoniant, ſallwyr.

SAL. CXXXIV.

3 Yr Arglwydd, â 'i ddeheulaw gref,
hwn a wnaeth nef a daear,
A roddo ei fendith a'i râs
i Sïon, ddinas hawddgar.

SAL.

SAL. CXXXIII.

Am Undeb heddychol a Chymmundeb y Seintjau.

1 WELE, fod brodyr yn byw 'nghŷd,
mor dda, mor hyfryd ydoedd!
2 Tebyg i olew o fawr werth,
mor brydferth ar y gwiſgoedd;
Fel pe diſgynai draw o'r nen,
'hŷd barf a phen offeirjad,
Sef barf Aaron, a'i wiſg i gŷd;
mor hyfryd ei arogljad.
3 Fel pe diſgynai gwlith Hermon
yn dô dros Sïon fynydd:
Lle rhydd Duw ddonjau, rif y gwlith,
o'i fendith, yn dragywydd.

ADNODAU o SAL. CXXXV.

Yn annog i glodfori DUW, am ei Fawredd, a Gweithredoedd ei Ragluniaeth. 1—3, 5—7, 13, 14, 31.

1 O Molwch Enw'r Arglwydd nef!
ei weiſion, ef molienwch:
2 Y rhai a ſaif i'w dŷ a'i byrth,
i'n Duw a'i fawr wyrth cenwch.
3 Molwch yr Arglwydd, can's da yw;
clôd i'r Duw byw a berthyn:
Cenwch ei glôd dros yr holl fyd,
a hyfryd yw y teſtyn.
5 Can's mawr yw 'r Arglwydd yn ei lŷs;
mi wn yn hyſbys hynny:
Ym mhell uwch law 'r holl dduwjau mân
mae'r Arglwydd glân a'i allu.

6 Hyn oll a fynnodd a wnaeth ef'
yn uchder nef eithafon:
Trwy'r ddaear, a'r holl foroedd cau,
a holl ddyfnderau'r eigion.

7 O eithaf daear cyfyd tarth;
daw'r mellt o bob parth hwythau:
Ac oer dymheſtloedd, gwlaw a gwynt,
a godynt o'i dryſorau.

13 Dy Enw (Arglwydd) a'th nerth cry'
a bery yn dragywydd:
Ac o genedl i genhedlaeth
dy goffadwrjaeth, Lywydd.

14 Can's ar ei bobl y rhydd ef farn,
yr Arglwydd cadarn cyſion:
Ac yn ei holl lywodraeth bur
bydd doſtur wrth ei weiſion.

21 Bendithjer fyth mawr Enw'r Jôn,
o Sïon hên a barchem:
Bendithjer, moler ei Enw ſo,
ſy'n trigo yng Nghaerſalem.

Adnodau o SAL. CXXXVI.

Yn cynnwys Mawl i Dduw, o herwydd Gweithredoedd ei Ragluniaeth, a'i Drugaredd i Blant Dynjon. 1——8, 23——27.

1 Molwch yr Arglwydd, can's da yw;
molienwch Dduw y Llywydd:
Can's ei drugaredd oddi fry
a bery yn dragywydd.

2 Molwch chwi Dduw y duwjau'n rhwydd,
3 ac Arglwydd yr arglwyddi:
4 Hwn unig a wnaeth wyrthjau mawr,
trwy ei ddirfawr ddajoni.

5 Gwnaeth

5 Gwnaeth â 'i ddoethineb nef uwch ben,
6 a'r ddaearen, a'r dyfredd:
Sylweddau 'r byd a lunjodd Duw;
can's mawr yw ei drugaredd.

7 'Rhwn a wnaeth oleuadau mawr,
o'r nef hyd lawr, â 'i fawredd:
8 Yr haul y dydd, a'r lloer y nôs,
i ddangos ei drugaredd.

23 Hwn i 'n cyſtudd a'n cofiodd ni,
o'i fawr ddajoni tirion:
24 Ac a'n hachubodd yn ddiſwrth
oddiwrth ein holl elynjon.

25 Yr hwn a ymbyrth bob rhyw gnawd,
yn ddidlawd, o'i drugaredd:
26 Clodforwch Dduw, Brenin y nef;
rhowch iddo ef ogonedd.

27 Molwch Arglwydd yr arglwyddi,
uwch ben pob rhi o fawredd:
Duw 'r duwjau, Jôr uwch ben pob jôn,
a Ffynnon pob trugaredd.

Rhan o SAL. CXXXVII.

Am Brudd-der Iſraël ym Mabilon, o Hiraeth am Eglwys Dduw. 1——6.

1 PAN oeddym gaeth ym Mabilon,
ar lan prif afon groyw,
Mewn coffadwriaeth am Sïon
hidlaſom ddagrau chwerw.

2 Rhoddaſom ein telynau 'nghrôg
ar goed canghennog irjon:
Lle yr oedd prennau helyg plan
o ddeutu glan yr afon.

3 Y rhai a'n dug i garchar caeth
i ni 'n ffraeth gofynen,
Pan oeddym brûdd, am gerdd Sïon;
yſywaeth! beth ni 's galle'n'.

4 O Dduw! pa ſodd y canai neb
(rhoem atteb yn yſtyrjol)
I chwi o gerdd ein Harglwydd Dâd,
a ni mewn gwlâd eſtronol?

5 O's Sïon â dros gôf, tra fwyf,
na fedrwyf mwy i ganu:
6 Na thrôed fy nhafod, oni bydd
hi 'n ben llawenydd imi.

S A L. CXXXVIII.

Mawl i Dduw, am ei Doſturi i'r Truenus mewn Cyfyngder.

1 RHOF fawr glôd i ti, fy Nuw Jôn;
o ddyfnder càlon canaf:
Yngŵydd holl angyljon y nef,
â 'm holl lef, y 'th foliannaf.

2 Ymgrymmaf tu a'th ſanctaidd dŷ,
dan ganu o'th drugaredd:
A'th Enw mawr, uwch law pob peth,
a'th air diſeth wirjonedd.

3 Y dydd y gelwais arnat ti,
gwrandewaiſt fi yn fuan:
Yno y nerthaiſt, â chref blaid,
fy enaid i oedd egwan.

4 Doed brenhinoedd y ddaear hon,
a rhôn yt' unjon foliant:
Addolent oll ein gwîr Dduw ni;
can's d'eirjau di a glywſant.

5 Yn

5 Yn ffyrdd yr Arglwydd, yr un wedd,
ac am ei fawredd, canant:
Gan ddangos trwy 'r holl fyd ei fraint,
a maint yw ei ogoniant.

6 Uchel yw 'r Jôn; etto fe wêl
yr ufudd iſel ddynjon:
A gwêl o hirbell, er ei plâu,
y beilch a'r gwarrau ſythjon.

7 Pe bai yn gyfyng arnai 'r byd,
ti a'm bywhëid eilwaith:
Gan yſtyn llaw i ddwyn dy wâs
oddiwrth rai atgas ymaith.

8 Yr Arglwydd a gyflawna â mi,
Duw, dy ddajoni rhagllaw:
Ac yn dragywydd i mi dôd;
na wrthod waith dy ddwylaw.

Rhan o SAL. CXXXIX.

Am Hollbreſennoldeb Duw. 1——13, 23, 24.

1 ARglwydd, manwl y chwiliaiſt fi;
da y 'm hadwaeni hefyd:
2 F' eiſteddjad, codjad, gwyddoſt hyn,
a'm meddwl cyn ei dd'wedyd.

3 Yr wyt ynghylch fy lloches i,
a'm ffyrdd ſydd i ti 'n hyſbys:
4 Nid oes air na's gwyddoſt ei ſod
ar flaen fy nhafod p'rablus.

5 O'm hôl a'm blaen ti 'm hamgylchaiſt,
a'th law oſodaiſt arnaf:
6 Wybodaeth hon ſydd uwch nâ mi,
ei dyall hi ni 's medraf.

7 I ba le 'r âf fi, i roi tro,
i 'mguddjo rhag dy Yſbryd?

I ba le ffoaf rhag dy ŵydd,
trwy gael ffordd rwydd i lathlyd?

8 O's dringaf tu a'r nefoedd fry,
yno preſwyli 'n berffaith:
O's tu a'r dyfnder goſtwng tro,
yr wyt ti yno eilwaith.

9 Pe cawn adenydd borau wawr,
a myn'd i fôr mawr anjal:
10 Yno bydd dy ddeheulaw di
i 'm tywys i a'm cynnal.

11 A phe meddyljwn, yr ail dro,
ymguddjo mewn tywyllwg:
Canol y nôs fel hanner dydd
mor olau bydd yn d'olwg.

12 Nid dim tywyllach nôs i ti
nag yw goleuni hafddydd:
A'r ddau i ti maent yr un ddull,
y tywyll a'r goleuddydd.

13 Pob dirgeljon a wyddoſt di,
f'arennau i a brofaiſt:
Yng nghrôth fy mam pan oeddwn i,
yno tydi a'm llunjaiſt.

23 Duw, praf fy meddwl yn fy mol;
24 Oes ffordd annuwjol genny':
Gwêl fi. tywys, dwg fi yn f'ôl,
dôd ffordd drag'wyddol ymy.

ADNODAU o SAL. CXXXIX. ac eraill.

Yn cynnwys Mawl i DDuw, am ein Cenhedliad, a'n Cynnydd, ac amrywjol Ddonjau Duw i ni. CXXXIX. 14—16. XXII. 9, 10. XVIII. 35, 36. CXL. 7. LXIII. 8. XVIII. 49.

14 Duw,

14 DUW, rhyfedd jawn y gwnaethoſt fi,
a'th waith di ſy ryfeddod:
Fy enaid a ŵyr hynny 'n dda,
a hon a wnâ it' fawrglod.

15 Fy ſylwedd a adwaenit ti,
pan wnaethoſt fi yn ddirgel:
Fel llunjo dŷn o'r ddaear hon,
o fewn pridd eigion iſel.

16 Dy lygaid welſant fy nhrefn wael,
cyn i mi gael perffeithlun:
'Roedd pob peth yn dy lyfr yn llawn,
cyn bod yn jawn un gronyn.

SAL. xxii.

9 Duw, tynnaiſt fi o grôth fy mam,
rhoiſt ynof ddinam obaith:
Pan oeddwn i yn ſugno hon,
rhoiſt ym' o'i bron fagwriaeth.

10 Arnat ti bwriwyd fi o'r bru;
ynot ti bu fy 'mddiried:
Fy Nuw wyt ti o grôth fy mam,
clôd itti am fy ngwared.

SAL. xviii.

36 Ehengaiſt imi lwybrau têg,
i redeg buan gamrau:
Nid oes ynof un aelod gwan,
ni weggian fy nghymhalau.

35 Daeth o'th ddajoni hyn i gŷd,
rhoiſt darian jechyd ymy:
A 'th law ddeau 'rwyd yn fy nwyn,
o'th fwynder yr wy'n tyfu.

SAL. cxl.

7 Fy jachawdwriaeth wyt a'm Duw;
ti wnei im' fyw 'n ddiogel:

Rhag llîd fy nghâs a'u cenfigen
toiaiſt fy mhen mewn rhyſel.

SAL. lxiii.

8 Mae f'enaid wrthyd ti ynglŷn;
dy law ſydd yn fy nghynnal!
F'oes i'r gelyn, fy Nuw, ni roiſt;
ti 'm cym'raiſt dan dy ofal.

SAL. xviii.

49 Am hyn canmolaf di yn rhwydd,
O Arglwydd Dduw y lluoedd:
Canaf dy glôd; a hyn ſydd dyſg
i bawb ym myſg y bobloedd.

ADNODAU o SAL. CXLI. a CXL.

Yn cynnwys Ymbiliau ar i DDUW gadw ein Genau a'n Càlon rhag Pechod, a rhag holl Ffyrdd twyllgar y rhai drygjonus. CXLI. 1—4, 8—10. CXL. 12, 13.

1 O Bryſia, Arglwydd! clyw fy llais;
o bryſur gelwais arnad:
O'r man lle bwyf gwrando fy llef,
a doed i'r nef hyd attad.

2 Fy ngweddi ger dy fron a ddaw,
gan godi dwylaw 'n uchel:
Yn arogldarth ac aberth hwyr,
fel unjon ddiŵyr lefel.

3 O Arglwydd! goſod, rhag gair ffraeth,
gadwraeth ar fy ngenau:
Rhag im' gamdd'wedyd, goſod ddôr
ar gyfor fy ngwefuſau.

4 Na phwyſa 'nghàlon at ddrwg beth,
ynghydbleth â 'r annuwjol:

Nac

Nac mewn cydfwriad gwaith neu wêdd,
rhag twyll eu gwlêdd ddanteithjol.

8 Mae 'ngolwg a'm holl obaith i,
Duw, arnat ti dy hunan:
Duw, bydd di 'n unig yn fy mhlaid,
na fwrw f'enaid allan.

9 Cadw fi, Arglwydd, rhag y rhwyd
hon a oſodwyd ymy:
Telm yr annuwjol, hoenyn main,
rhag ofn i 'r rhain fy maglu.

10 Yr anwireddwyr, 'b ado un,
cwympant eu hun i 'w rhwydau:
Ymddiried ynot ti a wnâf,
ac felly diangaf innau.

SAL. cxl.

12 Da gwn y rhydd yr Arglwydd dâl
i ddial cam y truan:
Ac y jawn farna y dŷn tlawd,
ſy 'n byw ar gardawd fechan.

13 Y rhai cyfiawn trwy yr holl fyd
dy Enw a gydfoliannant:
A'r holl rai unjon, heb ofn neb,
o flaen dy wyneb trigant.

ADNODAU o SAL. CXLIII.

Yn cynnwys taer Weddi 'r Duwjol am Drugaredd Duw, ac Ymwared oddi wrth Orthrymder eu Caſeion. 1—3, 6——10.

1 ERglyw fy arch, O Arglwydd mâd!
wyf arnad yn gweddio:
O 'th ffyddlondeb, fy Nuw, fy Nâf,
dymunaf it' fy ngwrando.

2 Na ddwg fi 'r farn, 'rhwn wyf wâs gwael,
(pa les im' gael cyfiawnder?)
Am nad oes dŷn byw ger dy fron
yn gyfion pan y teimler.

3 Y gelyn flinodd f'oes yn drom,
a'm rhoes ymron i orwedd:
Fel y rhai meirwon a fai 'n hîr
îs tywyll dîr a'u hannedd.

6 Fy nwylaw attat rhois ar lêd,
lle mae f' ymddiried unig:
Am danad f'enaid ſydd, yn wîr,
un wedd â'r tîr ſychedig.

7 Yn ebrwydd gwrando fi yn rhôdd,
O Arglwydd! pallodd f' yſbryd:
Rhag i mi fyned i 'r pwll du,
fel rhai a ddarfu 'bywyd.

8 Pâr im' ar frŷs glywed dy nawdd,
can's ynot hawdd y credais:
A dyſg im' rodio dy ffyrdd rhâd,
can's f'enaid attad codais.

9 A gwared fi, fy Nuw a'm Jôn,
rhag fy ngelynjon aſtrus:
Am ſod fy lloches gyd â thi.
10 O dyſg i mi d'ewyllys!

Can's tydi ydwyt fy Nuw i;
boed d' yſbryd ti i 'm tywys
Ar yr unjondeb yn y tîr;
can's hyn yw 'th wîr ewyllys.

ADNONAU o SAL. CXLIV. ac eraill.

Yn dyſgu i ni ryfeddu Dajoni Duw, yn mawrhâu Dŷn; ac Ymbiliau am Blaid Duw yn erbyn ein Gelynjon. CXLIV. 3—7, 11. LXXXIII. 18. LXIV. 1.

3 Pa

3 PA beth yw dŷn, O Arglwydd Dduw!
pan fyddit i 'w gydnabod?
A mâb dŷn pa beth ydyw fo,
pan fych o hono'n darbod?

4 Pa beth yw dŷn? peth yr un wedd
a gwagedd heb ddim 'hono:
A'i ddyddjau 'n cerdded ar y rhôd
fel cyſgod yn myn'd heibio.

5 Goſtwng y nefoedd, Arglwydd da,
ac edrych draha dynjon:
Duw, cyffwrdd â 'r mynyddoedd fry,
gwnâ iddynt fygu digon.

6 I 'w gwaſgar hwynt gyr fellt i wau,
i 'w braw gyr ſaethau tanbaid:
7 Tyred, tyn fi o'r dyfroedd mawr,
ſef o ddwylaw 'r eſtronjaid.

11 Duw, gwared, achub fi wrth raid,
rhag plant eſtronjaid digus:
A'u ſafn yn llawn o ffalſder gau,
a'u dehau yn dwyllodrus.

SAL. lxxxiii.

18 Tor rym eu llîd, fel gwypo'r byw
mai d' Enw yw JEHOFAH:
Ac mai ti 'n unig Dduw ſydd ar
y ddaear yn orucha'.

SAL. lxiv.

1 O Arglwydd Dduw! erglyw fy lleſ,
a chlyw o'r nef fi 'n erfyn:
O Dduw! cadw fy einioes i;
na âd im' ofni 'r gelyn.

Rhan o SAL. CXLV.

Yn cynnwys Ymroad y Duwjol i foli Duw, o herwydd ei Fawredd, a'i raſlawn Ddajoni. 1—4, 7—10.

1 MI a'th fawrygaf di, fy Nuw;
can's tydi yw fy Llywydd:
Bendithjo d'Enw byth a wnâf;
mi 'th folaf yn dragywydd.

2 Dy Enw fólaf fi bob dydd,
a'th glôd a fydd heb orphen:
3 Yr Arglwydd ſydd glodfawr heb wêdd,
a'i fawredd ſydd heb ddiben.

4 Cenedl wrth genedl a rônt fawl
i 'th ogoneddawl wyrthjau:
Gan dannu dy nerth 'rhŷd y byd,
a d'wedyd dy gynheddfau.

7 Llwyr goffadwriaeth 'honot ti,
a'th fawr ddajoni, 'draethant:
Ac o'th gyfiawnder, fy Nuw Jôn,
â llafar dôn y canant.

8 Can's graſlawn yw ein Harglwydd ni,
ac o doſturi rhyfedd:
Hwyr ac anniben yw i ddîg:
llawnfrydig i drugaredd.

9 Da yw yr Arglwydd i bob dŷn,
a'i nodded ſy 'n dycciannol:
Ac ar ei holl weithredoedd ef
daw nawdd o'r nef yn raſol.

10 Dy holl weithredoedd di i 'th lwydd,
O Arglwydd! a'th glodforant:
Dy wyrth pan welo dy ſaint di,
y rheini a'th fendithjant.

Rhan

Rhan arall o SAL. a CXLV.

Am Lywodraeth Duw, a'i Nodded i'w Bobl a'i holl Greadurjaid.

13 BRenhinjaeth Duw o'r nefoedd fry
a bery yn waſtadol:
A'i lywodraeth o oed i oed,
hon a roed yn drag'wyddol.

14 Yr Arglwydd gynnal bawb yn llon,
ag ſydd ym-mron eu cwympod:
Ac ef a gyfyd bawb, yn wîr,
a'r a oſtyngir iſod.

15 Wele, mae llygaid yr holl fyd
yn diſgwyl wrthyd, Arglwydd:
Tithau a'u porthi hwynt i gŷd,
bawb yn ei brŷd yn ebrwydd.

16 A phan agorech di dy law,
o honi daw diwalifaeth:
D'ewyllys da yw ymborth byw;
a hynny yw eu llunjaeth.

17 Holl ffyrdd yr Arglwydd cyfion ynt,
a'i wyrthjau ydynt ſanctaidd:
18 Agos jawn i bawb ydyw ſo
a eilw arno'n bruddaidd.

19 Sef at y gwŷr a'i hofnant ef,
fo glyw eu llef i'w gwared:
Fo rydd eu h'wyllys hwynt a'u harch,
o'i wîr barch, Jôn gogoned.

20 Pob dŷn a garo'r Arglwydd nef,
caiff ganddo ef ei 'mddiffyn:
A chan ddifetha, rhydd oes ſer
i bob yſgeler cyndyn

21 Fy enaid traethed fendith rwydd,
a mawl, i'r Arglwydd nefol:
A phob cnawd rhoed i'w Enw, y Sant,
ogoniant yn drag'wyddol.

S A L. CXLVI.

Ymroad y Duwjol i foli Duw, ac i ymddiried ynddo: Canys efe yw Creawdwr pob peth, a Chynhorthwywr y Trueinjaid.

1 FY enaid, mola'r Arglwydd nef;
2 moliannaf ef i 'm bywyd:
Dangoſaf glôd i 'm Harglwydd Dduw
tra gallwyf fyw na ſymmud.

3 Na wnewch hyder ar dywyſogjon,
nac ar blant dynjon bydol:
Am nad oes ynddynt hwy i gŷd
na help na jechyd nerthol.

4 Pan êl y ffûn o'r genau gwael,
a'r corph i gael daearlan:
Felly dychwyl; fel dyna'r dydd
y derfydd ei holl amcan.

5 Y pryd hwn gwyn ei fyd efo
a roddo ei holl obaith
Ar Dduw Jago yn gymmorth da,
pan êl oddiyma ymaith.

6 Hwn Dduw a wnaeth nef, daear, môr,
a'r holl yſtôr ſydd ynddynt:
Hwn a ſaif yn ei wîr ei hun,
pryd na bo un o honynt.

7 Yr hwn i'r gwael a rydd farn dda,
a bara i'r newynllyd:
Fe ollwng Duw y rheidus gwâr
o'i garchar ac o'i gaethfyd.

8 Yr

8 Yr Arglwydd egyr lygaid dall;
ef a dyr wall gwael ddynjon:
Ymg'leddu 'r gwan mae n Harglwydd ni,
a hoffi y rhai cyfion.

9 Dieithrjaid, a'r amddifaid gwan,
a'r weddw druan unig,
Duw a'u pyrth; ond dyryfu wnai
holl ffyrdd pob rhai cythreulig.

10 Yr Arglwydd yn teyrnafu a fydd,
dy Dduw tragywydd, Sïon:
O oes i oes pery dy lwydd;
molwch yr Arglwydd tirion.

Adnodau o SAL. CXLVII. a XLIV.

Mawl am Diriondeb Duw i'w Eglwys a'i Bobl.
CXLVII. 1—3, 5, 6, 11. XLIV. 8.

1 MOlwch yr Arglwydd; can's da yw
canu i Dduw yn llafar:
O herwydd hyfryd yw ei glôd,
a da yw bod yn ddiolchgar.

2 Caerfalem dinas gyflawn fydd,
yr Arglwydd fydd i 'w darpar:
Gan gafglu Ifrael ynghŷd,
a fu trwy 'r byd ar wafgar.

3 Yr unig Arglwydd fy 'n jachâu
yn rhŷdd o friwjau 'r gàlon:
Yr Arglwydd rwym eu briwjau 'n jawn,
y rhai dolurlawn cleifion.

5 Mawr yw ein Harglwydd ni o nerth,
a phrydferth o rafoldeb:
Ac mae'n bell jawn nwch ben pob rhif
sôn am ei brif ddoethineb.

6 Yr

6 Yr Arglwydd unig ſydd yn dal
i gynnal y rhai gweinjaid:
Ac ef a oſtwng hyd y llawr
y dorf fawr annuwjoljaid.

11 Yr Arglwydd roes ei ſerch ar ddŷn,
yr hwn y ſy 'n ei hoffi:
Ac ſydd yn diſgwyl eael ei nawdd,
caiff hwn yn hawdd ddajoni.

SAL. xliv.

8 Am hynny molwn di bob dydd,
cai yn dragywydd fawredd:
Canwn i 'th Enw gerdd gan dant
o glôd a moliant rhyfedd.

ADNODAU o SAL. CXLVII. ac eraill.

Yn cynnwys Mawl i DDUW, am ei Ddajoni i 'w Eglwys, a 'i Ofal droſti. CXLVII. 12—14. LXVIII. 9, 10. CXLVII. 19, 20. XCIX. 9.

12 O Caerſalem, gyflawn o lwydd,
molianna 'r Arglwydd eiddod:
O Sïon ſanctaidd, dôd un wedd
i 'th Dduw glodforedd barod.

13 Herwydd yr Arglwydd, â 'i fawr wyrth,
a wnaeth dy byrth yn gryfion:
A rhoes ei fendith, a thycciant,
ym mhlith dy blant a 'th wyrjon.

14 Hwn a roes heddwch yn dy fro,
ſel y cynnyddo llwyddjant:
Ac a dywalltodd yn eich plith,
o fraſder gwenith, borthjant.

SAL. lxviii.

9 'Tifeddjaeth Jôn yw eglwys Dduw;
10 y ſaint ſydd i 'w phreſwyljo:

O 'i

O'i râs darparodd i 'r tylawd
i gael digondawd yno.

SAL. cxlvii.

19 Grym ei air, a'i ddeheulaw gref,
a ddengys ef i Jago:
A'i ffyrdd a'i farn i Iſraël,
a'r rhai a ddêl o hono.

20 Ni wnaeth efe yn y dull hwn
â neb rhyw naſiwn arall:
Ni wyddent farnau 'r Arglwydd nef;
O molwch ef yn ddiball!

SAL. xcix.

9 Dyrchefwch ein Duw Jôr, am hyn,
yn Sïon fryn cyſſegraidd:
Ymgrymmwch iddo yn eich byw,
ſef unig Dduw fydd ſanctaidd.

ADNODAU o SAL. CXLVII. a CL.

Clôd am Ragluniaeth Duw, yn trefnu Lluniaeth i 'r Creadurjaid, a phob Tywydd yn ôl ei Ewyllys. CXLVII. 7—9, 15—18. CL. 6.

7 CEnwch i 'r Arglwydd ſel y gwedd;
clodforedd iddo 'berthyn:
O cenwch, cenwch gerdd i Dduw!
da ydyw, gyd â 'r delyn.

8 Rhoes Duw 'r cymmylau 'n dô i 'r nen;
â gwlaw 'r ddaearen gwlychodd:
Gwnaeth wellt i dyfu ar y fron,
a llyſiau 'i ddynjon parodd.

9 Hwn i 'r anifail ar y bryn
a rydd yr hyn a'i portho:
Fe bortha gywjon y cigfrain,
pan font yn llefain arno.

15 Fe ddenfyn Duw, o'r nef i 'r llawr,
nerth mawr ei arch alluog:
Hwn ar y ddaear â ar lêd,
ac yno rhêd yn fywjog.

16 Eirch i 'r eira, fe ddaw fel gwlân;
eirch rew fe'i tân, fel lludw:
17 Eirch ja, fe ddaw yn defyll cri;
a llym yw oerni hwnnw.

18 Wrth ei air eilwaith, ar ei hynt,
fe bair i 'r gwynt och'neidjo.
I doddi 'r rhain; ac felly bydd
i 'r holl afonydd lifo.

SAL. cl.

6 Molianned pob peth ein Duw byth,
fydd ynddynt chwŷth y bywyd:
Rhoent gŷd gerdd foliant i barhâu;
clodforwn ninnau hefyd.

SAL. CXLVIII.

Cymhelliad i 'r holl Greadurjaid i foli Duw am eu Creadigaeth, a Llywodraeth Duw droftynt. 1——13.

1 O Molwch yr Arglwydd o'r nef!
rhowch lef i 'r uchel leoedd:
2 Molwch hwn, holl angylion nef;
molwch ef, ei holl luoedd.

3 Yr haul, a'r lleuad, a'r holl sêr,
y gloywder, a'r goleuni:
4 Nef y nefoedd, a'r ffurfafen,
a'r dwfr uwch ben y rheini.

5 Moliannant Enw 'r Arglwydd nef,
hwynt â 'i air ef a wnaethpwyd:
D'wedodd y gair, a hwy fel hyn,
ar ei orchymyn, crëwyd.

6 Rhoes

6 Rhoes reol iddynt i barhâu,
fel deddfau byth i 'w dilyn:
Rhoes bob peth yn ei le'n ddi-o's,
nad elo dros ei derfyn.

7 Molwch yr Arglwydd o'r ddaear,
chwychwi yſtrywgar ddreigjau:
8 Y tân, a'r cenllyſg, eira, a tharth,
a'r gwynt o bob parth yntau.

9 Mynyddoedd, bryniau, ffrwythlon wŷdd,
a'r tirion gedrwydd brigog:
10 An'feiljaid, ac ymluſgjaid maes,
a'r adar llaes aſgellog.

11 Brenhinoedd daear, barnwyr byd,
ſwyddwyr, ynghŷd â 'r bobloedd:
12 Gwŷr jeuaingc, gwyryfon, gwŷr hên,
pob bachgen, ym mhob oeſoedd.

13 Molant ei Enw ef ynghŷd;
uchel a hyfryd ydoedd:
Ei Enw ef ſydd uchel ar
y ddaear oll, a'r nefoedd.

Adnodau o SAL. V. ac eraill.

Yn cynnwys Gweddi a Mawl Boreuol. v. 1—4, iii. 5. xviii. 28. cviii. 3, 12, 13. lix. 16, 17.

1 CLYW 'ngweddi, Arglwydd, yn ddiball;
Duw, dyall fy myfyrdod:
2 Erglyw fy llais, a'm gweddi flîn,
fy Nuw, a'm Brenin hyglod.

3 Yn forau gwrando fi, fy Nâf;
yn forau galwaf arnad:
4 Can's nid wyd Dduw i garu drwg;
ni thrîg i 'th olwg anfad.

Sal.

SAL. iii.

5 Mewn diogelwch y cyſgais,
yn fyw y codais gwedi:
Canys yr Arglwydd oedd i 'm dal,
i 'm cynnal, ac i 'm codi.

SAL. xviii.

28 Ti a oleui 'nghanwyll i:
am hynny ti a garaf:
Tydi a droi fy nôs yn ddydd,
a'm tywyll fydd goleuaf.

SAL. cviii.

3 Mawl iti, f'Arglwydd, pan ddeffrôf,
a rôf ym myſg y bobloedd:
A chlodfori d'Enw a wnâf,
lle amlaf y cenhedloedd.

12 Yr unig Dduw ſo imi 'n borth,
mae'n ofer cymmorth undyn:
13 Yn Nuw y gwnawn wrolaeth fawr,
fe ſathr i lawr ein gelyn.

SAL. lix.

16 Minnau a ganaf o'r nerth tau,
dy Enw 'n forau folaf:
Fy nawdd a fuoſt, O Dduw Nêr!
pan fu gorthrymder arnaf.

17 Moliannaf di, fy Nuw, fy nerth,
fy jechyd prydferth graſol:
Can's tydi yw fy Nuw, fy Nâf,
fy nhŵr, fy noddfa raſol.

ADNODAU o SAL. XCII. ac eraill.

Yn cynnwys Mawl y nôs. XCII. 1, 2, 4. XLII. 8. CIV. 20, 23. XXXI. 6. IV. 8. LXIII. 6. XVII. 15.

1 MOliannu Duw ein dyled yw,
a charu Duw yn bennaf:
I'th Enw di y canwn fawl
i ganmawl (y Goruchaf.)

2 Hwyr a borau, y dydd a'r nôs,
rônt achos i'th foliannu:
4 Yng ngweithredoedd yr Arglwydd Jôn
mae'nghàlon yn llawenu.

SAL. XLII.

8 Ein Duw a roes y dydd in' hêdd,
a'r nôs gyfannedd ganu:
I ganmawl Duw, yr hwn a roes
in' einioes i'w foliannu.

SAL. CIV.

20 Tywyllwch nôs a roiſt wrth raid
i'th greadurjaid orphwys,
23 Ar ôl ymdreuljo'r dydd yn gaeth
mewn blîn lafurwaith boenus.

SAL. XXXI.

6 Dodaf fy yſbryd yn dy law,
ac âf gar llaw i orwedd:
Da y gwaredaiſt fi yn fyw,
O Arglwydd Dduw 'r gwirjonedd!

SAL.

SAL. iv.

3 Gorweddaf yn dy goel trwy ffydd;
hyn rydd im' felus heddwch:
Can's ti. O Dduw! o'th râs a'th rym,
a bair ym' ddiogelwch.

SAL. lxiii.

6 Tra fwy fi yn fy ngwely clud,
dod yn fy mryd i 'th gofio:
Ac yng ngwiliadwriaethau 'r nôs
câf achos i fyfyrio.

SAL. xvii.

15 Pair im' mewn myfyr, fel mewn hûn,
i weled llun d'wynebpryd:
Fel pan ddihunwyf o'r hûn hon
y byddwyf ddigon hyfryd.

HYMNAU.

HYMNAU.

Cân Sanct Ambros; ſef, Ti, Dduw, a folwn.

TYdi, O Dduw! a folwn ni,
addefwn di yn Arglwydd:
Y ddaear oll (drag'wyddol Dâd)
wnâ it' addoliad hylwydd.

Arnat ti holl angyljon nef
a rônt eu llef heb dewi:
Y nefoedd hefyd oddiar hyn,
a'r nerthoedd ſy 'n y rheini.

Nefoedd a daear ſydd yn llawn
o'th hael-ddawn, a'th ogoniant:
Ardderchog lu 'r holl ſanctaidd hâd
yn waſtad a'th foliannant.

Dy eglwys lân a'th addef di,
yn Un a Thri 'r un fawredd:
Ti, Griſt, a ddoiſt yn Brynwr yn',
a'n Barnwr yn y diwedd.

Dy bobol ŷm, O Arglwydd mâd!
pridwerth dy wâd ſanctеiddjol:
O gwnâ ni fod o rif dy ſant
mewn gogoniant trag'wyddol!

Cadw dy bobl, O Arglwydd da!
bendithja d'etiſeddjaeth:

Dyrcha

Dyrcha hwynt, byth gwnâ iddynt fod
dan gyſgod dy lywodraeth.

I'th Enw di ein mawl a fydd
o ddydd i ddydd yn waſtad:
Rhag pechod cadw ni 'r dydd hwn,
ni attolygwn arnad.

Duw, dy drugaredd ini doed,
fel mae'n hymddiried ynod:
Mi a 'mddiriedais ynod, Nêr,
fel na'm gwradwydder bythod.

Llef y Sainct am YSBRYD DUW.

TYR'D, Yſbryd Glân, i 'n c'lonnau ni,
a dôd d'oleuni neſol:
Tydi wyt Yſbryd Criſt; dy ddawn
ſydd fawr jawn a rhagorol.

Llawenydd, bywyd, cariad pur,
ydynt dy eglur ddonjau:
Dôd eli 'n llygaid, fel i 'th ſaint,
ac ennaint i 'n hwynebau.

Gwaſgara di 'n gelynjon trŵch,
a heddwch dyro ini:
O 's T'wyſog i ni fydd Duw Nêr,
pob peth fydd er dajoni.

Dyſg in' adnabod y Duw Tâd,
y gwîr Fâb rhâd, a thithau:
Yn un trag'wyddol Dduw i fod,
yr hynod dri Pherſonau.

Fel y molianner ym mhob oes
y Duw a roes drugaredd:
Y Tâd, y Mâb, a'r Yſbryd Glân,
da dadgan ei anrhydedd.

Neu fel hyn.

TYR'D, Yſbryd Glân, trag'wyddol Dduw,
yr unrhyw â 'r Tâd nefol:
Yr unrhyw hefyd â 'r Mâb rhâd,
Duw cariad tangnefeddol.

Llewyrcha'n c'lonnau ni â 'th râs,
fel byddo gâs in' bechu:
A dyſg ni, mewn ſanctteiddrwydd prudd,
bob dydd dy wîr addoli.

Diddanydd ydwyt ti, yn wîr,
ym mhob rhyw hîr orthrymder:
Dy holl ddajoni di, a'th glôd,
â thafod ni adrodder.

Y Ffynnon o'r Llawenydd glân,
y gloywlwys Dân cariadol:
Ac îr Enneiniad mawr ei lês,
ſy 'n rhoddi gwrês yſbrydol.

Dy ddonjau di ŷnt fawr a dwys,
y rhai i 'th eglwys rhoddi:
Yng ngh'lonnau pur dy ddeddf dilŷs
tydi â 'th fys 'ſgrifenni.

Tydi addewaiſt ddyſgu, Jôn,
dy weiſion i lafaru:
Fel ym mhob man y caffo'n rhwydd
yr Arglwydd ei foliannu.

O Yſbryd Glân! i 'n c'lonnau ni
y gwîr oleuni danfon:
A hefyd zêl, tra fôm ni byw,
i garu Duw yn ffyddlon.

Ein

Ein gwendid nertha di, O Dduw!
(mawr ydyw ein breuolder)
I'r fall, i'r byd, na chwaith i'r cnawd,
na fyddom wawd un amſer.

Gyr ein gelynjon yn eu hôl,
bydd di heddychol â ni:
Gwnâ i bob dŷn ein caru 'n bur;
can's cyſſur mawr fydd hynny.

Ein T'wyſog wyt, O Arglwydd mau!
rhag maglau pob rhyw bechod:
A rhag llithro oddiwrthyt mwy,
cynhorthwy bydd in' barod.

Dôd feſur mawr o'th râs yn rhwydd,
O Arglwydd Dduw goruchaf!
Diddanwch i ni felly bydd
yn y brawd-ddydd diweddaf.

I ffoi ymbleidjau ceccreth câs
dôd i ni râs, Duw nefol:
Dôd gariad a thangnefedd mâd
ym mhob rhyw wlâd griſt'nogol.

I'r Tâd, i'r Mâb, i'r Yſbryd Da,
Un gogyd a gogyfuwch,
Bid moliant: hwn yw 'r gwîr Dduw nef;
ei Enw ef bendithjwch.

Galarnad Pechadur.

NA thro dy wyneb, Arglwydd glân,
oddiwrth un truan agwedd,
Y ſydd o flaen dy borth yn awr
mewn cyſtudd mawr yn gorwedd.

Yr wyf yn gorwedd wrth dy ddôr,
attolwg egor imi:
Er bod fy muchedd yn ddirôl,
'rwy'n edifeiriol gweli.

Na alw mo'nof ger dy fron,
i roddi unjon gyfri':
Yr wy'n cydnabod, fy Nuw hael,
y bywyd gwael oedd genny'.

Nid rhaid i mi addef ychwaith,
bob enwir waith fu rydoſt:
Y ſut a'r modd yr oedd fy nghlwyf,
ac ſel yr wyf, ti wyddoſt.

Ti wyddoſt ſydd yn awr, Duw cu,
a'r hyn a fu yn fanwl:
Ti wyddoſt hefyd beth a ddaw;
mae ar dy law di'r cwbwl.

Ti wnaethoſt nefoedd yn un man,
a daear dan wybrenau:
Ti wyddoſt beth fydd gwedi hyn,
a pheth oedd cyn y dechrau.

Ac felly fy holl feïau i
byth rhagot ti ni chuddiwyd:
Oh ti a'u gwyddoſt oll i gŷd,
y lle a'r pryd y gwnaethpwyd!

Trwy ddagrau hallt y dof am hyn
i erfyn a dymuno:
Megis y plentyn a wnai ddrwg
yn ofni gŵg a'i guro.

Felly y deuaf at dy borth,
i ddiſgwyl cymmorth graſlon:
Sef dy drugaredd, i lanhâu
fy holl weïau pydron.

Y peth a geiſiaf ſydd rôdd wych,
nid rhaid mo'i mynych henwi:
Tydi a'i gwyddoſt, ſy Nuw gwyn,
cyn darfod gofyn iti.

Trugaredd, f'Arglwydd, heb ddim mwy,
yw 'r cwbl 'rwy'n ei geiſio:
Trugaredd yw ſy newis lwydd,
trugaredd, f'Arglwydd, dyro.

Yr HYMN appwyntiedig gan yr Eglwys i'w chanu ar ôl y Cymmun.

IDDUW gogoniant ſyth a ſo,
ſy fry 'n y goruchafion:
Bid ar y ddae'r dangnefedd rhâd,
ewyllys mâd i ddynjon.

Tydi, O Dduw! a folwn ni,
bendithjwn di'n dragywydd:
Addolwn, gogoneddwn byth
dy Enw dilyth dedwydd.

I ti diolchwn, Dduw, bob awr,
am dan dy fawr ogoniant:
O nefol Dâd, Jôr Frenin cu,
Duw Hollalluog feddiant!

Duw Arglwydd Jeſu Griſt Fâb rhâd,
unig y Tâd anedig:
Oen Duw Fâb Nêr, ſy 'n tynnu i gŷd
bechodau 'r byd yn ddiddig.

Ti ſy 'n dilêu pechodau 'r byd,
maddau ni 'gŷd ein beiau:
Dilêu pechodau 'r wyt, Dduw Rhi;
Criſt, derbyn di'n gweddiau.

Ti 'r

Ti 'r hwn wyt ar ddeheulaw 'r Tâd,
y gwîr Fâb rhâd ſancteiddjol,
Ti 'r hwn wyt unig Arglwydd Dduw,
ein gweddi clyw 'n doſturjol.

Ti 'n unig, ſanctaidd Criſt, bob pryd,
gyd â 'r Glân Yſbryd haelaf,
Wyt yng ngogoniant y Duw Tâd,
yn waſtad y Goruchaf. Amen.

HYMN i'w chanu mewn Angladd.

CRIST ydyw 'r Adgyfodiad mawr,
eſe yw Gwawr y bywyd:
Caiff pawb a'm crêd, medd f'Arglwydd Dduw,
er trengu, fyw mewn eilfyd.

A'r ſawl ſy 'n byw mewn ufudd grêd,
trwy Griſt caiff drwydded nefol:
Na allo'r angau, brenin braw,
ddrwg iddaw yn drag'wyddol.

Yn wîr, yn wîr, medd Criſt ei hun,
pob cyfryw ddŷn ſy 'n gwrando
Fy ngair, gan gredu 'r Tâd a'm rhoes,
mae didrangc einioes ganddo.

A roddo ei fryd i ufuddhâu,
trwy ffydd i 'm geirjau hyfryd,
Ni ddaw i farn, ond trwodd f'aeth:
o angau caeth i fywyd.

Mi wn, medd Job o'r cynfyd cudd,
mai byw 'Ngwaredydd hawddgar:
Mi wn y daw fy Mhrynwr drud
ar ddiwedd byd i 'r ddaear.

Câf weled Jeſu yn ſy nghnawd,
ar ddydd gollyngdawd ſeintjau:
A'm llygaid i ſy hun a'i gwêl
ar dirion uchelderau.

Yr Yſbryd Glân a ddywed, mai
gwyn fyd y rhai ſu ſeirw
Yn ffyrdd yr Arglwydd, gwyn eu byd
o'r glân ddiweddbryd hwnnw.

Na fyddwn annobeithjol driſt
am neb yng Nghriſt a hunant:
Maent gyd â'r Jeſu yn y nef,
yng nghartref y gogoniant.

O's glynu wnawn wrth Griſt a Duw,
a dyſgu byw ſel ſeintjau:
Mewn ennyd bach cawn ninnau hûn
a'n dwg i'r un trigfannau.

Y Gogoniant.

GOgoniant ſyth a ſo i'r Tâd,
y Mâb rhâd, a'r Glân Yſbryd
Fel y bu, y mae, ac y bydd,
un Duw tragywydd hyfryd.

Ac fel hyn ar ôl SALM C.

GOgoniant, moliant, parch, a bri,
i'r Un a Thri trag'wyddol ſyth:
Y Tâd, a'r Mâb, a'r Yſbryd Glân,
ſel gynt, tra bo na chân na chwyth.

Ac

Ac fel hyn ar ôl SAL. CXIII. a CXIV.

GOgoniant fyth a fytho i 'r Tâd,
A bid gogoniant i 'r Mâb rhâd,
i 'r Yſbryd Glân gogoniant ſo:
Megis gynt yn y dechrau 'r oedd,
Ac y bydd byth yn oes oeſoedd;
d wedwn, Amen, poed felly bo.

DIWEDD.

13 DE 67